

Proffil Iaith



Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn

Chwefror 2021



Cynhyrchwyd gan Menter Iaith Môn

(mewn ymgynghoriad â phartneriaid **Fforwm Iaith Môn**.
Diweddarwyd ar waith **Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg**, Cyngor Gwynedd 2014,
sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2011)

Cynhyrchwyd ar gais Is-adran y Gymraeg, **Llywodraeth Cymru**

Cynnwys

Adran	Tudalen
1 Cyflwyniad a nod y gwaith	10
Beth yw proffil iaith?	
Pam fod angen diweddarau'r proffil iaith nawr?	
Sut aethpwyd ati i ddiweddarau'r proffil iaith?	
Pwy fydd yn gweld a manteisio o'r proffil iaith?	
2 Y ffit strategol	12
Cenedlaethol	
Lleol	
Eithriad	
Datblygiadau i'r dyfodol	
3 Demograffeg y Gymraeg	17
Siaradwyr Cymraeg – o ddata'r Cyfrifiad	
Sgiliau ehangach yn y Gymraeg – o ddata'r Cyfrifiad	
Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth	
Y Gymraeg – effaith mudo	
Dadansoddiad i gloi ar ddemograffeg y Gymraeg ym Môn	
4 Gweithgareddau cymunedol	43
5 Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol	47
Yr Arolwg	
Dadansoddiad o'r data	
6 Trosglwyddo iaith yn y cartref	58
Data'r Cyfrifiad ar drosglwyddo iaith	
Ymchwil a pholisi trosglwyddo iaith	
Cyfathrebu â rhieni	
7 Addysg	66
Addysg a gofal plentyndod cynnar	
Y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar – Gwasanaeth Dysgu	
Addysg Gynradd ac Uwchradd	
Addysg Bellach	
Cymraeg i Oedolion	
Dysgu yn y Gymuned	
8 Iechyd a lles	89
Y Gwasanaeth Iechyd	
Gwasanaeth iechyd a lles yn y gymuned	

9	Y gweithle a'r economi	97
	Y gweithle a'r gweithlu	
	Diwydiant a galwedigaethau cyflogaeth	
	Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol (NS-Sec)	
	Cymwysterau	
	Incwm	
10	Tai ac aelwydydd	106
	Cartrefi fesul math o lety a daliadaeth	
	Lefelau preswyliaeth ac eiddo gwag	
	Cartrefi fesul daliadaeth	
	Nifer a thwf aelwydydd	
	Y farchnad dai a fforddiadwyedd	
	Ystyriaethau Polisi Cynllunio	
11	Astudiaethau perthnasol	118
	Arolwg Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol (GECT / PEST)	
	Arolwg Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (CGCB / SWOT)	
12	Atodiadau	123
	1: Ystadegau cychwynnol am yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn, 2001-2011	
	1: Ystadegau cychwynnol am yr Iaith Gymraeg yng Nghymru, 2001-2011	
	2: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg a Grŵp Iaith, fesul ward, 2001 & 2011	
13	Llyfryddiaeth	126

Rhestr Tablau

Tabl	Tudalen
1 Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011	20
2 Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2011	21
3 Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2001	21
4 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 & 2011	22
5 Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd â sgiliau yn y Gymraeg, 2001 & 2011	27
6 Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl oedran, 2001-2011	28
7 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 & 2011	29
8 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu siarad Cymraeg (Medi 2020)	34
9 Data Ynys Môn o'r nifer a'r canran o bobl a aned yng Nghymru, neu y tu allan i Gymru, a'r nifer a'r canran sy'n siarad Cymraeg	38
10 Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011	40
11 Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011	41
12 Rhai o gyfranwyr allweddol i weithgareddau cymunedol Cymraeg Môn	43
13 Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg, 2001 & 2011	59
14 Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref ym Môn, yn ôl plant 3 oed a 4 oed	62
15 Nifer disgyblion ysgolion cynradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20	68
16 Nifer disgyblion ysgolion uwchradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20	69
17 Nifer y disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11 - rhwng 2009-2020	72
18 Siarad Cymraeg adref 2019-20 – asesiad rhieni o ddisgyblion 5 oed neu drosodd mewn ysgolion cynradd, canol, uwchradd	72
19 Cyfnod Sylfaen: Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg – % y disgyblion sy'n cyflawni FPO5+, FPO6+	73
20 CA2 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L4+, L5+	75
21 CA2 (7-11 oed) 2017 – Canran sy'n cyrraedd deilliant disgwyledig (Lefel 4+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg	75

22	CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L5+, L6+, L7+	76
23	CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L5+	77
24	CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L6+	78
25	CA3 (11-14) 2017 – Canran sy'n cyrraedd lefel disgwylidig (L5+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg	78
26	Cyfnod Allweddol 4 (14-16) 2017-18 - Cyflawniad arholiadau pynciol Cymraeg a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg	80
27	Canlyniadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf Ynys Môn (2020), gradd mewn canran	80
28	Canlyniadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf Ynys Môn (2020), gradd mewn canran	81
29	Myfyrwyr o Fôn wedi cofrestru ar gyrsiau Grŵp Llandrillo Menai 2019-20, a'u gallu i siarad Cymraeg	83
30	Sgiliau iaith staff Grŵp Llandrillo Menai sy'n gweithio ym Môn	83
31	Sgiliau iaith staff Grŵp Llandrillo Menai sy'n byw ym Môn	84
32	Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg ym Môn Medi-Rhagfyr 2020	87
33	Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl iechyd cyffredinol, 2001 & 2011	90
34	Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl problem iechyd tymor-hir neu anabledd, 2001 & 2011	90
35	Sgiliau iaith Gymraeg gweithlu BIPBC ym Môn, Tachwedd 2019	90
36	Lefelau asesu gallu yn y Gymraeg ar gyfer gweithlu BIPBC	91
37	Rhestr gan Medrwn Môn o ddarparwyr sy'n cynnig cefnogaeth iechyd a lles yn ddwyieithog, 2020	93
38	Diwydiant cyflogaeth a siaradwyr Cymraeg, 2011	99
39	Galwedigaethau a siaradwyr Cymraeg, 2011	99
40	Galwedigaethau a'r di-waith a siaradwyr Cymraeg, 2011	101
41	Cymwysterau a siaradwyr Cymraeg, 2011	102
42	Incymau Aelwydydd Canolrif a Chwartel Isaf, 2013	102
43	Nifer a chanran o aelwydydd yn ôl ardal o dan 60% incwm aelwyd canolrif Prydain Fawr, 2013	103
44	Incwm aelwyd canolrif ardaloedd Ynys Môn, 2019	103
45	Cartrefi fesul math o lety, 2011	106
46	Cartrefi yn ôl math o breswyliaeth, 2011	107
47	Eiddo trethadwy yn ôl math o breswyliaeth, Ebrill 2013	107
48	Eiddo trethadwy yn ôl math o breswyliaeth, Chwefror 2021	107
49	Daliadaeth Aelwydydd, 2011	110
50	Person cyswllt y cartref yn siarad Cymraeg yn ôl daliadaeth ar Ynys Môn, 2011	110

51	Amcangyfrifon aelwydydd, 2011	111
52	Newid yn y math o aelwydydd yn Ynys Môn, 2001 & 2011	112
53	Prisiau tai yn Ynys Môn, 2012	113
54	Prisiau tai yn Ynys Môn, (Diwedd Blwyddyn Ariannol Mawrth 2020)	113
55	Canolrif Prisiau Tai Môn, 2019	114
56	Fforddiadwyedd tai pris canolrif i rai ar incwm canolrifol, a'r tai rhataf i'r rhai sydd ar yr incwm isaf	116

Rhestr Siartiau

Siart	Tudalen
1 Poblogaeth a niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ym Môn 1961-2011	18
2 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011	19
3 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran amllder siarad Cymraeg (Medi 2020)	34
4 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu darllen, siarad a deall Cymraeg llafar (Medi 2020)	34
5 Data Cymru o'r nifer y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl blwyddyn, 2001 i 2018, yn cynnwys plotio canlyniadau Cyfrifiad 2001 a 2011	35
6 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu siarad Cymraeg (Medi 2010-2020)	36
7 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu siarad Cymraeg (Medi 2010-2020) - Canran sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg %	36
8 Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg trigolion Môn a aned yng Nghymru, 2011	38
9 Poblogaeth Môn yn dangos pobl aned yng Nghymru a siaradwyr Cymraeg, fesul grŵp oedran, 2011	39
10 Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg trigolion Môn a aned y tu allan i Gymru, 2011	40
11 Ymateb grwpiau Môn 2020: Beth yw oedran cyffredinol y gwirfoddolwyr sy'n trefnu a chynnal eich grŵp?	48
12 Ble mae'r grwpiau cymunedol Cymraeg wedi'u lleoli	49
13 Cymru cyn Covid-19. Niferoedd sy'n rhan o'r grwpiau yn ôl math o grŵp	50
14 Ymateb grwpiau Môn 2020: Beth oedd y prif weithgareddau yr oedd eich grŵp yn eu cynnal cyn y cyfnod clo (cyn mis Mawrth 2020)?	51
15 Ymateb grwpiau Môn 2020: Gan feddwl am eich grŵp yn ei gyfanrwydd, sut mae eich grŵp wedi gweithredu ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020)?	51
16 Siart 16. Ymateb grwpiau Môn 2020: Beth oedd y rheswm NA wnaethoch chi gario ymlaen i weithredu mewn rhyw ffordd wedi i'r cyfnod clo ddechrau?	52
17 Cymru 2020: Sut y cynhaliwyd y gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, yn ôl math o weithgaredd	53
18 Cymru 2020: Sut mae'r grwpiau wedi gweithredu yn y cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi hynny, yn ôl math o grŵp	54
19 Cymru 2020: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp	56

20	Cymru 2020: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp	57
21	Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg	58
22	Mewn canrannau, gallu rhieni plant 3-4 oed i siarad Cymraeg – Caergybi, 2011	60
23	Niferoedd y plant 3-4 oed sy'n gallu i siarad Cymraeg yn ôl cefndir iaith y cartref – Caergybi, 2011	60
24	Mewn canrannau, gallu rhieni plant 3-4 oed i siarad Cymraeg – Llangefni, 2011	61
25	Niferoedd y plant 3-4 oed sy'n gallu i siarad Cymraeg yn ôl cefndir iaith y cartref – Llangefni, 2011	61
26	Adroddiad ar Ansawdd Ddarpariaeth Y Gymraeg y Cylchoedd Meithrin Môn	68
27	Nifer disgyblion ysgolion cynradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20	69
28	Nifer disgyblion ysgolion uwchradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20	70
29	Nifer y disgyblion ym Môn a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11 - rhwng 2003-2020	72
30	Cyfnod Sylfaen: Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg – % y disgyblion sy'n cyflawni FPO5+, FPO6+	73
31	Cyfnod Sylfaen 2017 - Canran sy'n cyrraedd deiliant disgwyledig (deiliant 5+) yn y Gymraeg (sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu) Cymraeg %	74
32	CA2 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L4+, L5+	74
33	CA2 (7-11 oed) 2017 – Canran sy'n cyrraedd deiliant disgwyledig (Lefel 4+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg	75
34	CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L5+, L6+, L7+	76
35	CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L5+	77
36	CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L6+	78
37	CA3 (11-14) 2017 - Canran sy'n cyrraedd lefel disgwyledig (L5+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg	79
38	CA4 Ynys Môn. Nifer o blant Môn enillodd A*-C Cymraeg iaith Gyntaf (2020)	79
39	Cyfnod Allweddol 4 (14-16) 2017-18 - Cyflawniad arholiadau pynciol Cymraeg a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg - mewn %	80
40	Proffil staff addysgu / gweithio mewn ysgolion Môn	81
41	'Mae'r iaith Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', yn ôl awdurdod lleol	82

42	Myfyrwyr o Fôn fel cyfran o fyfyrwyr Prifysgol Bangor 2019/20	85
43	Myfyrwyr o Ysgolion Môn 2019/20	85
44	Myfyrwyr o Fôn ym Mhrifysgol Bangor 2019/20	85
45	Meysydd astudio myfyrwyr o Fôn 2018/19	86
46	Staff Prifysgol Bangor sy'n byw ym Môn 2019/20	86
47	Canran o boblogaeth Môn sy'n hawlio lwfans JSA ddi-waith, Ionawr 2018 – Rhagfyr 2020	98
48	Diwydiant cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011	100
49	Galwedigaethau cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011	100

Rhestr Mapiau

Map	Tudalen
1 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2011	23
2 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001	24
3 Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001-2011	25
4 Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 - 2011	26
5 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2011	30
6 Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001	31
7 Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001-2011	32
8 Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 - 2011	33
9 Incwm canolrif, fesul ward, 2013	104
10 Incwm chwarterl isaf, fesul ward, 2013	104
11 Canran o aelwydydd ag incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig, fesul ward, 2013	105
12 Canran o eiddo trethadwy sydd yn wag, fesul cymuned, 2013	108
13 Canran o eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf, fesul cymuned, 2013	109
14 Canran o aelwydydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' dai, fesul ward, 2012	117

1. Cyflwyniad a nod y ddogfen

Beth yw proffil iaith?

Darlun cynhwysfawr o **sefyllfa'r Gymraeg mewn ardal benodol** yw 'Proffil iaith'. Mae'r iaith Gymraeg yn elfen hanfodol yng ngwneuthuriad cymunedau Môn ac yn adlewyrchiad o draddodiadau a diwylliant. I sicrhau fod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol i wirio fod ymateb i'r holl ffactorau dylanwadol, gan gynnwys Covid-19 a datblygiadau newydd arfaethedig ym Môn, yn briodol a pherthnasol. Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, ag asiantaethau sy'n cefnogi'r defnydd o Gymraeg yn y gymuned, megis Menter Iaith Môn, yn ymrwymedig i sicrhau dyfodol cynaliadwy a thwf i'r iaith Gymraeg ym Môn.

Yn gryno mae'r proffil fel arfer yn **cynnwys**:

- ffynonellau data ac ymchwil
- ystadegau'r cyfrifiad
- canlyniadau arolwg blynyddol
- ystadegau cyfrifiad ysgolion sydd ar gael yn flynyddol
- ystadegau cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol perthnasol.

Yn wahanol i'r arfer mae **meysydd newydd** yn y proffil yn cynnwys:

- effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol, a ddaw o'r arolwg ar-lein
- canlyniadau arolwg defnydd iaith gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru
- gyfeiriad at y broses adnabod camau lliniaru effaith ar y Gymraeg ym Môn gan ddatblygiadau mawr arfaethedig
- arolwg Gwleidyddol-Economaidd-Cymdeithasol-Technoleg (GECT/PEST) a Chryfderau-Gwendidau-Cyfleoedd-Bygythiadau (CGCB/SWOT) cyffredinol, sy'n gyfansawdd o ymatebion partneriaid Fforwm Iaith Môn.

Bydd y proffil iaith o **gymorth** i adnabod ffactorau sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd y Gymraeg megis:

- canran y siaradwyr Gymraeg mewn cymuned
- nodweddion cymunedau hyfyw sydd â siaradwyr Gymraeg ac sy'n darparu digon o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i siarad, dysgu a throsglwyddo'r iaith
- cyfleoedd mynediad at y Gymraeg trwy ddulliau ffurfiol (e.e. y gyfundrefn addysg, a dosbarthiadau iaith ar gyfer dysgwyr) a dulliau anffurfiol (e.e. clybiau, digwyddiadau)
- cyfle am ffyniant cymdeithasol ac economaidd yn y Gymraeg
- argaeledd gwasanaethau, sy'n caniatáu i unigolion fyw eu bywydau yn y Gymraeg.

Pam fod angen diweddarau'r proffil iaith nawr?

Mae **Covid-19** yn cyflwyno heriau sylweddol i gymunedau o ran elfennau cymdeithasol, addysg, economaidd, gofal ac iechyd. Yn ystod y cyfnod clo mae nifer o weithgareddau cymdeithasol wedi'u gohirio neu ganslo ac yn sgil hyn yn cwtogi'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Serch hyn gwelwyd nifer o sefydliadau yn datblygu cyfleoedd newydd o gymdeithasu a gwelwyd rhwydweithiau digidol yn esblygu neu yn cael eu creu o'r newydd.

Felly, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, mae diweddarau'r proffil iaith yn bwysicach nag erioed, er mwyn cynllunio'n bwrpasol gyda mesurau i liniaru effeithiau'r cyfyngiadau ar ddefnydd iaith ein cymunedau. Mae cael darlun cyfredol o sefyllfa'r Gymraeg yn allweddol, er mwyn gallu cydnabod y newidiadau a dadansoddi eu heffeithiau ar wydnwch y Gymraeg a'i ddefnyddwyr. Yn ei dro, gall hyn roi sylfaen i baratoi a datblygu cynlluniau gwaith a strategaethau'r dyfodol, i gyflwyno ymyraethau ychwanegol, ac i addasu'r dulliau o gasglu data yn ddiogel.

Sut aethpwyd ati i ddiweddaru'r proffil iaith?

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan Menter Iaith Môn, ar gais Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Gwnaed y cais i bob menter iaith yng Nghymru gyflwyno proffil iaith eu hardal erbyn Chwefror 2021. Yn sylfaen i'r adroddiad, defnyddiwyd y 'Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn'¹ a gynhyrchwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg Cyngor Gwynedd, yn 2014. Prif ddata'r adroddiad blaenorol yn 2014, a hwn yn 2021, yw ystadegau o Gyfrifiad 2011, ynghyd â chanlyniadau hanesyddol Cyfrifiad 2001.

Er mwyn cynnig y darlun mwy cyfredol, ychwanegwyd ystod eang o ddata mwy diweddar a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Cyngor Sir Ynys Môn, a phartneriaid lleol a rhanbarthol yn ymwneud â'r Gymraeg drwy Fforwm Iaith Ynys Môn. Mae'r adroddiad hefyd yn adlewyrchu ymateb cymdeithasau a grwpiau cymunedol lleol i 'Arolwg ar effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol sy'n gweithredu, yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'² gan Lywodraeth Cymru.

Pwy fydd yn gweld a manteisio o'r proffil iaith?

Menter Iaith Môn yw awdur y proffil iaith, serch hyn mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r fenter rannu'r adroddiad fel sail cydweithio â phartneriaid eraill ynglŷn ag anghenion ieithyddol Môn. Mae'r proffil yn rhoi cyfle i sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n gweithredu ym Môn i gael gwell dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg. Y nod yw y bydd y proffil yn gymorth yng nghyd-destun:

- Awdurdodau Lleol - Cynlluniau Strategol y Gymraeg a Strategaethau Hybu
- Awdurdodau Cynllunio - Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- Awdurdodau Addysg - Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA / WESPS)
- Partneriaid grant eraill - adnabod meysydd gwaith a darpariaeth
- Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol
- Cynlluniau Llesiant
- Datblygwyr wrth asesu effaith cynlluniau arfaethedig ar ffyniant a thwf y Gymraeg ym Môn
- Unigolion a chymdeithasau ym Môn sydd am weithredu'n flaengar i gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.

1 'Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn' 2014. Cynhyrchwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg Cyngor Gwynedd.

[https://rhagolwg.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/10b-Darlun-ystadegol-o-sefyllfar-Gymraeg-yn-Ynys-Môn-\(Mawrth-2014\)---Terfynol.pdf](https://rhagolwg.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/10b-Darlun-ystadegol-o-sefyllfar-Gymraeg-yn-Ynys-Môn-(Mawrth-2014)---Terfynol.pdf)

2 'Arolwg ar effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol sy'n gweithredu, yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg' 2020. Llywodraeth Cymru.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>

2. Y ffit strategol

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o hanfod Môn ac yng ngwreiddiau ei phobl. O'r enwau bedydd, i enwau'r cartrefi ble'u magwyd, hyd at y geiriau a naddwyd ar gerrig eu beddau, mae'r Gymraeg yn rhan o hunaniaeth yr ynys a'i phobl. Yn wir, nid oes rhaid cael gwreiddiau ym Môn i werthfawrogi fod yr iaith yn parhau; yn fyw ac yn fyrlymus ar dafodau plant bychain, ar nodau canu cyfoes, ac yn y sgysiau digidol ar-lein. Yn ystwyth ac yn gyhyrog ei therminoleg, mae'r iaith yn barod i gynnal ei siaradwyr drwy ddyfeisiadau'r ganrif yma a thu hwnt.

Ac eto, ni all ewyllys da a brwdfrydedd warantu ffyniant ieithoedd lleiafrifol mewn cymdeithas fyd-eang a chyd-ddibynnol. Rhaid cael polisiau a strategaethau priodol mewn lle. Mewn gwlad ddwyieithog fel Cymru, mae hyn yn arbennig o wir am y Gymraeg, wrth iddi geisio cyd-gerdded yn gyfartal â'r Saesneg, un o brif 'ieithoedd dominyddol'³ y byd.

Felly, man cychwyn cyflwyno sefyllfa'r Gymraeg ym Môn yw cyflwyno'r cyd-destun ehangach, 'y ffit strategol', sy'n gyffredin i ystyriaethau am y Gymraeg yn genedlaethol. Yn gyfochrog â'r darlun cenedlaethol, mae'r arweiniad strategol lleol, sy'n anelu i wireddu amcanion trigolion Môn dros y Gymraeg.

Cenedlaethol

- Ceir gwedd o gyrff cenedlaethol sy'n cefnogi'r Gymraeg mewn nifer o feysydd, megis y Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Dysgu Cymraeg, yr Eisteddfod Genedlaethol, ayb⁴. Ond yr hyn sy'n asio pob cynllun ynghyd yw gweledigaeth **Llywodraeth Cymru** yn nogfen '**Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr**'⁵. Ynddi, gosodwyd her gan Lywodraeth Cymru, i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Y strategaeth i gyflawni hyn yw: 1) Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 2) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg 3) Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun. Ceir Gweinidog penodedig i yrru'r agenda yn ei flaen ac Is-adran y Gymraeg i gynllunio, rhannu adnoddau, a monitro effaith y cynlluniau amrywiol ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Yn gefn cyfreithiol i alluogi siaradwyr Cymraeg i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg, mae **Comisiynydd y Gymraeg**⁶ a phwerau **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**⁷. Dyma yw'r fframwaith sy'n sefydlu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Defnyddir **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg** i amlygu'r safonau disgwylidig, e.e. pennodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7)⁸ y safonau ar gyfer gwasanaeth Cymraeg ym maes iechyd, gan y byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG.
- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**⁹ yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod cynaliadwyedd hirdymor yn ystyriaeth bennaf ganddynt. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**¹⁰ sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad y saith nod llesiant. Un o'r nodau yw: "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

3 'How Language Works', David Crystal, Penguin Books, 2006. Tudalen 337: "Why are so many languages dying?... Much of the present crisis stems from the major cultural movements which began 500 years ago, as colonialism spread a small number of dominant languages, such as English, Spanish, Portuguese, and French, around the world".

4 Trosolwg cyfredol o gyrff a chynlluniau cenedlaethol sy'n cefnogi'r Gymraeg, Atebol, 2017.

<https://www.llinellamser.cymru/web#linell-amser/safonau-gymraeg-2>

5 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr', Llywodraeth Cymru, 2017. <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>

6 Comisiynydd y Gymraeg: <https://www.facebook.com/ComisiynyddyGymraeg/> (gwefan newydd i ddod)

7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/resources/enacted/welsh>

8 Safonau'r Gymraeg (Rhif 7): <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/441/made/welsh>

9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/resources/enacted/welsh>

10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-commissioner/>

- Mae'r **Ddeddf Cynllunio** (2015)¹¹ yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Gyda'i gilydd, mae Adrannau 11 a 31 yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyson a phriodol i'r Iaith Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.
- **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 a Nodyn Cyngor Technegol 20 - Cynllunio a'r Gymraeg.** Mae polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC)¹². Yn ôl PCC, dylai'r system gynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny gall gyfrannu at ei lles. Noda PCC: "Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu. Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ganiatáu'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg."
- Darperir cyngor technegol yn **Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Gymraeg'**¹³ - Hydref 2017. Pwrpas y Nodyn Cyngor Technegol (NCT) hwn yw darparu canllawiau pellach ar sut ddylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth gynhyrchu cynlluniau datblygu strategol neu wneud penderfyniadau cynllunio, ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg, ac wrth wneud hynny, gyfrannu at les yr iaith. Fodd bynnag, nid yw'r NCT yn rhoi arweiniad penodol ar sut i asesu pa anheddau / ardaloedd all ymdopi orau â datblygiad yn seiliedig ar yr effaith ieithyddol.
- Mae fersiwn terfynol o **Gymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040**¹⁴ yn cael ei gyhoeddi diwedd mis Chwefror 2021. Mi fydd y ddogfen yn gosod fframwaith cenedlaethol fydd yn pennu cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'r ddogfen yn gynllun datblygu fydd yn eistedd uwchben Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae canlyniadau yn cael eu gosod o fewn y ddogfen sy'n cynnwys nod o gael: "Cymru lle mae pobol yn byw mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu". Mae polisïau hefyd wedi cael eu cynnwys i helpu tuag at gyflawni strategaeth y cynllun. Mi fydd rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fod yn gyson â'r ddogfen hon.

Lleol

- Cyngor Sir Ynys Môn fu'n llunio **Strategaeth Iaith Gymraeg Môn 2016-21**¹⁵, sy'n canolbwyntio ar dair thema sef: 1) Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu, 2) Y Gweithlu, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith, 3) Y Gymuned. Lluniwyd y Strategaeth mewn ymgynghoriad â Fforwm Iaith Môn sy'n gorff â chadeiryddiaeth annibynnol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o 20 corff sy'n weithredol yn y Gymraeg ym Môn. Mae gwaith partneriaeth o'r fath yn cryfhau Strategaeth Iaith Gymraeg Môn.
- Fel y cyflogwr mwyaf ar yr ynys, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod cyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr. Yn ei **Bolisi Iaith Gymraeg**¹⁶ mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu egwyddorion **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r polisi

11 Deddf Cynllunio (2015): <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted/welsh>

12 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

13 Nodyn Cyngor Technegol 20 "Cynllunio a'r Gymraeg": <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan20-cymraeg.pdf>

14 Cyhoeddi'r strategaeth ar ôl cyflwyno'r Proffil Iaith, dogfennau hyd yma yn ymwneud â 'Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040': <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040>

15 Strategaeth Iaith Gymraeg Môn: <https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Safonau-Iaith-Gymraeg/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

16 Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn: <https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Safonau-Iaith-Gymraeg/Polisi-Iaith-Gymraeg-.pdf>

hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r polisi hefyd yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Cynhelir a chyhoeddir Adroddiad Blyneddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg a cheir arweiniad pellach ar y Gymraeg, megis ar enwau lleol, ar safle we'r Cyngor¹⁷.

- Gall datblygiadau newydd gael effaith fawr ar gynaliadwyedd y Gymraeg. Mewn cadarnle ieithyddol fel Môn, sydd eto yn frith o gymunedau ag amrywiaethau eang o ran canran siaradwyr Cymraeg, rhoir ystyriaeth fanwl i effaith datblygiadau arfaethedig ar y defnydd o'r Gymraeg. Cafodd **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn**¹⁸ ei fabwysiadu yn 2017 a bydd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio Môn yn cael eu seilio ar gynnwys y Cynllun. Mae'r ystyriaethau am yr iaith Gymraeg yn cynnwys hawlio Datganiad ac Asesiad Effaith iaith Gymraeg gan y datblygwr, yn ogystal â "gwrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol".
- Mae **Polisi Strategol PS1 (Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig)** o'r Cynllun¹⁹ yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Mae angen casglu a derbyn gwybodaeth am rai mathau o ddatblygiadau er mwyn gallu dod i gasgliad ynghylch effaith debygol y datblygiad arfaethedig. Ystyrir agweddau megis: a oes buddion i'r Gymraeg? A oes angen diwygio'r cynnig? A oes risg i iechyd gymunedol y Gymraeg? a ellir liniaru'r effaith mewn ffordd sy'n liniaru'r risg? A sut ellir monitro'r sefyllfa yn y gymuned?
- Mae'r **Canllaw Cynllunio Atodol 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'**²⁰ yn rhoi arweiniad pellach ar y camau fydd yn angenrheidiol i gydfynd â maen prawf 1 a 2 ym Mholisi Strategol PS1 ac yn rhoi arweiniad ar sut roddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Mae Adran 2 yn ymdrin yn benodol â sut i gymhwyso Polisi Strategol PS1, Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig. Mae Atodiad 6 yn rhoi enghreifftiau o gamau/gweithgareddau y gellir eu hymgorffori mewn datblygiadau a/neu ofyn amdanynt er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol (mewn perthynas â chynllunio defnydd tir). Mae Atodiadau 7 ac 8 yn darparu methodoleg ar gyfer cynnal asesiadau effaith perthnasol. Mae Adran 3 yn nodi arolygon a dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio, yn ddibynol ar natur, graddfa a lleoliad y datblygiadau arfaethedig.
- Mae **Fforwm Iaith Strategol Sirol Ynys Môn** yn bartneriaeth sy'n bodoli ers 2014 er mwyn rhoi ffocws strategol i'r iaith Gymraeg ar yr Ynys. Cydnabyddir fod cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynol ar y broses o gynnal a chryfhau cymunedau Cymraeg, trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Mae cyd-drafod a chyd-gynllunio drwy'r Fforwm Iaith yn caniatáu i'r aelodau gydweithio'n fwy strategol ac i gyflawni mwy nag y byddai modd fel sefydliadau unigol²¹. Mae hefyd yn cynnig un pwynt cyswllt i bartneriaid allanol i gyflwyno a derbyn cyngor ar faterion yn ymwneud â'r iaith ar yr ynys. Ceir cadeiryddiaeth annibynnol²² ac **aelodaeth** gan y cyrff a ganlyn: Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Comisiynydd y Gymraeg, Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn,

17 Gwybodaeth ar y Safonau Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn: <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Safonau-iaith-Gymraeg/iaith.aspx>

18 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, 2017: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd-Gwynedd-a-Môn-Datganiad-Ysgrifenedig.pdf> & gwybodaeth bellach ar gynllunio Môn

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/browse/Trigolion/Cynllunio-rheoli-adeiladu-a-chadwraeth/Polisi-cynllunio/>

19 Ibid: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, 2017

20 Canllaw Cynllunio Atodol "Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy", 2019:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Atodol/2019/Canllaw-Cynllunio-Atodol-Cynnal-a-Chreu-Cymunedau-Nodedig-a-Chynaliadwy-Gorff-2019.pdf>

21 Cyflwyniad llafar o'r cydweithio yn Fforwm Iaith Môn, Menter Iaith Môn, Nia Thomas, 2020:

<https://www.youtube.com/watch?v=foPc2ERSLGg>

22 Dr Haydn Edwards, Cadeirydd annibynnol Fforwm Iaith Strategol Sirol Ynys Môn, 2020: "Mae Fforwm Iaith Môn yn unigryw ac arloesol gan fod ganddom undod pwrpas i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg drwy'r Sir, ein bod yn glir ynghylch gwerthoedd a'n pwrpas a hefyd ein bod, mewn amryfal ffyrdd, yn cefnogi'r aelodau i drafod, herio, cyd-weithio ac ymestyn ein hamcanion a'n dylanwad."

Cymdeithas yr Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn gan gynnwys Aelodau Etholedig a Swyddogion, Fforwm Prifathrawon Cynradd Môn, a Fforwm Prifathrawon Uwchradd Môn, Ffermwyr Ifanc, Grŵp Llandrillo Menai, GwE, Heddlu Gogledd Cymru, Medrwn Môn, Menter Iaith Môn, Menter Môn, Merched y Wawr, MônFM, Môn CF, Mudiad Meithrin, Prifysgol Bangor, Siarter Iaith Ysgolion, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn), Un Llais Cymru, Llys Eisteddfod Môn, Llywodraeth Cymru, Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion, a'r Urdd.

Ffurfiwyd Is-grŵp, **Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn**, i gydweithio ar faterion yn ymwneud â chefnogaeth i deuluoedd, trosglwyddiad iaith a darpariaeth Cymraeg yn y Blynnyddoedd Cynnnar. Ceir is-grŵp arall i gydlynw'r gefnogaeth Cymraeg i bobl ifanc.

Eithriad

- Erys eithriadau i'r broses gynllunio leol a chenedlaethol a'r ddealltwriaeth o gefnogi a chynllunio ieithyddol. Dynodir rhai prosiectau mawr yn 'Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Mewn achosion tebyg, megis datblygiad arfaethedig Horizon yn y Wylfa, yr **Arolygaeth Gynllunio**²³ sy'n gwerthuso cais, cyn cynnig argymhelliad i Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Gan nad yw'r gyfundrefn tu hwnt i Gymru wedi arfer cynnwys ystyriaethau o gynaliadwyedd ieithyddol wrth ymdrin â chynlluniau datblygu, erys heriau yn amlygu eiddilwch iaith leiafrifol yng nghyd-destun mewnlifiad ar raddfa eang o weithwyr di-Gymraeg^{24,25}. Mae cydnabod yr heriau hyn am fod o gymorth i bwysleisio rhagflaen, i ddatblygwyr a'r Arolygaeth Gynllunio, mai *canrannau* siaradwyr sy'n gwneud iaith leiafrifol yn gynaliadwy yn y gymuned a bod dirywiad pan fo canrannau yn gostwng yn is na 70%²⁶. Yn ogystal, i osgoi sefyllfaoedd ymatebol ôl-ystyriol i'r Gymraeg²⁷, dylid pwysu ar yr Arolygaeth Gynllunio i roi'r cydnabyddiaeth teilwng i arbenigedd lleol wrth werthuso asesiad effaith ar y Gymraeg a phennu camau lliniaru priodol. Gall y profiad lleol yma, wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, hefyd fod yn ysgogiad i Llywodraeth Cymru gynnig arweiniad pellach ar y prosesau ymgynghori o ran y Gymraeg i ddatblygwyr o'r fath a'r Arolygaeth Gynllunio. I'r dyfodol gobeithiwn bydd ystyriaethau am y Gymraeg a'r gynrychiolaeth, megis Fforwm Iaith²⁸ lleol, yn rhan o'r cynllunio rhagflaen ar gyfer Datganiad o Dir Cyffredin; yn ogystal â sicrhau proses ymgynghori gwbl ddwyieithog²⁹.

23 Arolygaeth Gynllunio: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/wylfa-newydd-nuclear-power-station/?ipcsection=docs>

24 Wylfa Newydd Adroddiad ar yr Effaith Leol, Pennod 9: Y Gymraeg a'i Diwylliant Rhagfyr, Cyngor Sir Ynys Môn, 2018 (Cyf PINS: EN010007) Tud 3, 2.1.3: "Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001. Yn benodol, y canlyniad a ddymunir ar gyfer Ynys Môn yn Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yw 'cynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill.'"

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-003653-9.%20Y%20Gymraeg%20ai%20Diwylliant.pdf>

25 Adroddiad Canfyddiadau a Chasgliadau yr Awdurdod Archwilio a'i Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 2021: "8.8.36 Mae'r ExA yn cydnabod y gallai'r datblygiad arfaethedig lethu cymunedau lleol, oherwydd nifer y gweithwyr dros dro sy'n angenrheidiol i adeiladu'r cynnig, a allai gael effaith niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ExA yn fodlon bod y posibilrwydd o effeithiau gweddillol arwyddocaol ar iaith a diwylliant Cymru wedi derbyn sylw trwy fesurau lliniaru priodol er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol annerbyniol." <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-003949-Recommendation%20Report%20-%20Welsh.pdf>

26 Strategaeth Iaith Gymraeg Môn 2016-2021, Cyngor Sir Ynys Môn, tud 12: "Gan fod sefyllfa'r Gymraeg yn fwy bregus erbyn hyn mae 70% wedi cael ei dderbyn fel 'pwynt tipio'. Fel mae'r term yn ei awgrymu mae arbenigwyr yn y maes cymdeithaseg iaith o'r farn bod y broses o encilio yn cyflymu wrth i ganran y siaradwyr ostwng dan y lefel hon. Mae'r dirywiad wedyn yn sydyn ac yn digwydd am lawer o resymau gwahanol." <https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Safonau-Iaith-Gymraeg/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

27 Llythyr gan Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, at yr Arolygaeth Gynllunio, parthed: Proses Gynllunio Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd, Ynys Môn, 3/2019: "Dylai'r gwahoddiad i fod yn rhan o'r broses wedi ein cyrraedd ymhell o flaen amser er mwyn sicrhau chwarae teg i'r Gymraeg, fel maes thematig, yn union fel unrhyw faes thematig arall ble roedd gofyn am Ddatganiad o Dir Cyffredin." https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-003902-Nia%20Thomas%20Llythyr%20-%20Arolygaeth%20Gynllunio%20Mawrth%202019_Redacted.pdf

28 Ibid. "Yn syml, mae'n bryder na ystyriwyd y Fforwm Iaith, fel fforwm o arbenigwyr ieithyddol lleol yn y lle cyntaf, ac mae drwy annog gan yr Arolygaeth yn unig daeth cyfle i ffurfio'r Datganiad o Dir Cyffredin gyda'r partneriaid."

29 Ibid. "Mae'r hyn sydd wedi ei amlygu gennym yn peri gofid am hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn y broses gynllunio."

Datblygiadau i'r dyfodol

- Mae Menter Iaith Môn yn un ymysg eraill sydd wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am sefydlu **Cydbwyllgor Corfforedig**³⁰ i chwe sir Gogledd Cymru. Mynegwyd pryder am effaith cydbwyllgorau corfforedig ar weithdrefnau a blaenoriaethau iaith, gan fod Polisi Iaith Môn yn cyfateb i ddemograffeg a thrigolion Môn, yn hytrach na demograffeg chwe sir Gogledd Cymru. Teimlai Cyngorau Tref a Chymuned Môn, trwy gyfarfod Pwyllgor Un Llais Môn, fod y brys gormodol i weithredu'r cynllun yn ystod cyfnod pandemig heb alluogi ystyriaeth lawn i effaith yr aildrefnu, gan gynnwys ar yr iaith. Oherwydd aneglurder, nid yw'n bosib i ni wneud sylw pellach yn y ddogfen hon.
- Mi fydd rhaid i'r cydbwyllgorau corfforedig baratoi **Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)**; cynlluniau fydd yn eistedd rhwng Cymru'r Dyfodol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mi fydd y CDS yn gosod strategaeth datblygu a pholisïau ar gyfer rhanbarthau sydd wedi ei nodi o fewn Cymru'r Dyfodol. Mi fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o ranbarth y gogledd fydd yn cynnwys, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Fflint a Chyngor Wrecsam.

30 Ymgynghoriad Sefydlu Cydbwyllgorau Rhanbarthol: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-10/dogfen-ymgyngori-cjc.pdf>

3. Demograffeg y Gymraeg

Yn rhagymadrodd i adran 'Ddemograffeg y Gymraeg', rhaid esbonio nad oes data sylweddol newydd nes cynnal a dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021³¹. Isod gwneir defnydd helaeth o ddata Cyfrifiad 2011, sy'n dangos fod 57.2% o drigolion yr ynys yn siarad Cymraeg, gan ychwanegu rhywfaint o ddata mwy cyfredol os yw'n bodoli. Fodd bynnag, un gwahaniaeth mawr rhwng proffil iaith 2014 a hwn yw rhannu sut y bu i Fôn feintioli uchelgais ynglŷn â demograffeg y Gymraeg erbyn 2021. Yn Strategaeth Iaith Môn³² cofnodir: "Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf i 60.1%, fel ag yr oedd yn 2001". Nid geiriau gweigion mo rhain, gan i'r Strategaeth gael ei lunio mewn ymgynghoriad â'r holl bartneriaid strategol sy'n aelodau o Fforwm Iaith Môn. Trwy'r 20 partner, mae'r uchelgais wedi gyrru ymdrechion asiantaethau ag unigolion yn y sector gyhoeddus, wirfoddol a busnes, yn eu gwasanaeth Cymraeg i drigolion Môn. O ganlyniad, bydd data Cyfrifiad 2021 yn arwyddocaol iawn. Yn ddeiliant mesuradwy, ac yn gyfle i adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi gweithio, a'r hyn sydd eto i'w gyflawni, a chan blethu gyda gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru, bydd y data yn sail i Strategaeth Iaith Môn i'r dyfodol.

Rhaid cydnabod hefyd, y tu hwnt i ddata a Chyfrifiad, fod pobl real yn ceisio byw eu bywydau a'u profiadau cymunedol yn y Gymraeg ym Môn. Ymddengys tensiwn weithiau rhwng cyfathrebu strategaeth gadarnhaol³³ yn seiliedig ar ddata, a mynegiant o anobaith unigolion sy'n tystio i ddirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau³⁴. Mewn gwirionedd mae'r strategaethau cadarnhaol a'r pryder o brofiad real yn ddwy ochr o'r un geiniog. Y strategaeth sy'n gosod y llwybr a'r pryder sy'n ewyllysio'r brys. Felly, ar y daith i gael effaith cadarnhaol ar ddemograffeg y Gymraeg ym Môn, ni welir y diffyg data cyfredol yn esgus i orffwys ar y rhwyfau o ran brys i weithredu ar strategaethau sydd eisoes mewn lle.

Siaradwyr Cymraeg – o ddata'r Cyfrifiad

Am y tro, rhaid bodloni ar gyflwyno'r data sydd ar gael o Gyfrifiad 2011 a'r rhai blaenorol. Yn ôl ffigyrau'r Cyfrifiad 2011 mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn wedi gostwng o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 325 o unigolion yn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd o oddeutu 3,000 ym mhoblogaeth y sir - sef cynnydd o 4.4%. O ystyried y cynnydd hwn yn y boblogaeth, mae'r ganran o bobl Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 60.1% i 57.2% rhwng 2001 a 2011.

Mae hyn i gyd yn rhan o batrwm hirdymor dros yr hanner canrif cynt, lle'r oedd y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ym Môn wedi dal eu tir, maent wedi lleihau'n gyson fel canran o'r boblogaeth, gweler siart 1.

31 Manylion Cyfrifiad 21/3/2021: <https://cyfrifiad.gov.uk/>


32 Strategaeth Iaith Gymraeg Môn 2016-2021, Cyngor Sir Ynys Môn:

<https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Safonau-Iaith-Gymraeg/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

33 <https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/welsh-speaking-stronghold-could-soon-19196837>

34 <https://nation.cymru/news/councillor-says-tourism-and-holidays-homes-on-anglesey-will-kill-welsh-language-by-end-of-century/>

Siart 1. Poblogaeth a niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ym Môn 1961-2011



Ffynhonnell: Cyfrifiadau 1961-2011

Ynghyd â siroedd Meirionnydd, Ceredigion a Chaerfyrddin, roedd Môn yn un o bedair o'r hen 13 sir yng Nghymru lle'r oedd tri chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 1961. Erbyn 2011 roedd y ganran i lawr i 57.2% ym Môn; er hynny roedd y Gymraeg wedi dal ei thir yma'n dipyn gwell o gymharu â dwy o'r siroedd hyn; roedd y gyfran sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng yn is na'r hanner yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin.


Yn 2011, roedd bron i ddau draean o boblogaeth y sir wedi eu geni yng Nghymru, a'r niferoedd a aned yn Lloegr yn cyfrif am 28.8% o'r boblogaeth.

Mae gwahaniaethau clir i'w weld o fewn y sir, gyda chanol yr ynys yn llawer amlycach fel cadarnle'r Gymraeg na'r arfordir. Mae dros 70% yn gallu siarad Cymraeg ym mron bob un o gymunedau'r mewndir, ond nid oes unrhyw gymuned ar yr arfordir gyda chyfran gyfuwch yn siarad yr iaith. Mae dylanwad mewnfudo i'w weld yn llawer o'r pentrefi glan-môr, er yr ymddengys fod y Gymraeg wedi dal ei thir yn dda ymysg y boblogaeth frodorol mewn llawer ohonynt. Mae'r patrwm yn wahanol iawn yng Nghaergybi, fodd bynnag, lle mae cyfran uwch na chyfartaledd yr ynys o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru, ond lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 7,000 yn 1961 i ychydig dros 4,500 erbyn 2011, a lle dengys data'r Cyfrifiad fod yr iaith wedi colli tir ymhlith y boblogaeth frodorol.

Mae'n debyg bod y gostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ym Môn o ganlyniad i newidiadau demograffig yn y boblogaeth (gan gynnwys llai o blant, diffyg trosglwyddo iaith, mwy o oedolion hŷn, a cholled carfannau hŷn gyda lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg), pobl yn mudo, a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng y ddau Gyfrifiad. Mae'r newidiadau yma yn debyg o fod yn gymharol ag ardaloedd eraill o Gymru. Sylwer hefyd ar y lleihad mewn trosglwyddo iaith yn y cartref i blant hyd at 3 oed (Adran 6) a'r gwaith adfer iaith sydd wedyn yn dilyn ym maes Addysg (Adran 7).

Mae siart 2 yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grwpiau oedran, yn 2001 a 2011. Mae tabl 1 hefyd yn cynnwys gwybodaeth am niferoedd siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran ar gyfer y ddau gyfnod.

Siart 2: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA

Fel y gwelir yn siart 2, yn 2011 gallai cyfrannau cymharol uchel o'r boblogaeth yn y grwpiau oedran iau siarad Cymraeg, gyda'r gyfran uchaf yn y grŵp oedran 5-15 (80.1%). O'r grŵp oedran yma ymlaen, mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng yn barhaus gan gyrraedd isafswm o 46.8% ymysg y boblogaeth 60-64 mlwydd oed. Yna, mae'r gyfran yn cynyddu'n raddol, gan gyrraedd 51.8% ar gyfer y boblogaeth 75 oed a throsodd.

Roedd cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 77.8% yn 2001 i 80.1% yn 2011, sef cynnydd o 2.3%. Er y cynnydd yma yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad o 924 o unigolion (12.6%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 5-15 mlwydd oed. Mae'n debyg bod y ffaith fod 1,426 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011, nag yn 2001, yn esbonio'r gostyngiad yn y niferoedd.

Gwelwyd cynnydd o 1.3% yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp oedran 25-39, gan newid o 59.0% yn 2001 i 60.3% yn 2011. Unwaith eto, nid yw manylu ar gynnydd mewn cyfran o siaradwyr Cymraeg yn adlewyrchu'r sefyllfa o ran *niferoedd* y siaradwyr Cymraeg 25-39 mlwydd oed, gan y bu gostyngiad o 496 o unigolion yn y categori yma dros gyfnod o ddeg mlynedd.

Oni bai am y ddau grŵp oedran 5-15 a 25-39 mlwydd oed, mae pob grŵp oedran arall wedi gweld lleihad yn y *gyfran* o siaradwyr, fel y gwelir yn nhabl 1 (colofn 'Mewn pwynt canran'). Mae gostyngiadau mwyaf mewn canrannau i'w gweld yn y grwpiau oedran 60-74, ac mae'n uchel ymysg pobl ifanc rhwng 16 a 24 hefyd.

Fel y gwelir yn nhabl 1, o ran newid yn y *nifer* o siaradwyr Cymraeg, mae pob grŵp oedran, oni bai am y rhai 5-15, 16-19, 25-39 a 50-59 mlwydd oed, wedi gweld cynnydd yn *nifer* y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg dros y degawd diwethaf.

Yn 2011 roedd cyfran ychydig yn uwch o ferched (58.4%) yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â dynion (56.0%).

Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011

Grŵp Oedran	2001		2011		Newid 2001-2011		Mewn Pwynt Canran
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	
3-4	797	54.5%	827	54.1%	30	3.8%	-0.4%
5-15	7,318	77.8%	6,394	80.1%	-924	-12.6%	2.3%
16-19	2,371	76.8%	2,196	71.3%	-175	-7.4%	-5.5%
20-24	2,306	69.8%	2,467	63.9%	161	7.0%	-5.9%
25- 39	7,131	59.0%	6,635	60.3%	-496	-7.0%	1.3%
40- 49	4,854	55.6%	4,992	53.2%	138	2.8%	-2.4%
50- 59	5,105	51.4%	4,755	50.4%	-350	-6.9%	-1.0%
60- 64	2,144	52.8%	2,557	46.8%	413	19.3%	-6.0%
65- 74	3,693	54.6%	4,080	47.6%	387	10.5%	-7.0%
75+	3,174	54.4%	3,665	51.8%	491	15.5%	-2.6%
Pob oedran (3+)	38,893	60.1%	38,568	57.2%	-325	-0.8%	-2.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA

Ym mis Ebrill 2011, pan gynhaliwyd y Cyfrifiad diweddaraf, roedd 40 o wardiau (adrannau etholiadol) yn Ynys Môn. Wedi arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer y Sir gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, bu i'r nifer o wardiau leihau i 30 o 40 yn 2013. Nid yw ffiniau'r 11 ward newydd yn cyfateb i gyfuniad o ffiniau'r 40 ward blaenorol, felly nid oes modd cyfuno data o Gyfrifiad 2011 ar gyfer creu gwybodaeth ar gyfer yr 11 ward newydd. Mae'r adroddiad yma felly, ar wybodaeth a gyflwynir ynddo, yn seiliedig ar y 40 ward cyn y newidiadau yn 2013.

Mae tabl 2 a thabl 3 yn dangos dosbarthiad y wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 a 2001, yn y drefn honno. Mae'r tablau hefyd yn dangos nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob grŵp. Gweler hefyd mapiau 1 a 2, yn ogystal â map 3 a 4 sy'n amlygu'r newid.

Yn 2011, roedd llai o wardiau yn Ynys Môn gyda mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg nag yn 2001. Roedd 27 o wardiau (67.5%) lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn 2011. Mae hyn yn is na'r 31 o wardiau (77.5%) yn 2001.

Cafwyd gostyngiad yn nifer y wardiau lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg o 10 (25.0%) yn 2001 i 8 (20%) yn 2011. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod 70% yn cael ei dderbyn fel 'pwynt tipio' gan arbenigwyr yn y maes cymdeithaseg iaith a bod y broses o encilio ieithyddol yn cyflymu wrth i ganran y siaradwyr ostwng dan y lefel hon³⁵. O ganlyniad dau o'r dangosyddion y cyfeirir atynt yn Strategaeth Iaith Gymraeg Môn 2016-2021 yw anelu i weld: "Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg. Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg."³⁶

Yn 2011, roedd gan dair ward dros 80% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, a lleolir y tair ward yma yn Llangefni. Ward Cyngar oedd y ward gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (80.8%), wedi'i ddilyn gan wardiau Tudur (80.7%) a Chefn (80.5%).

Roedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn ward Rhosneigr, gydag ond 36.0% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

³⁵ Strategaeth Iaith Gymraeg Môn 2016-2021, Cyngor Sir Ynys Môn, tud 12:

<https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Safonau-Iaith-Gymraeg/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

³⁶ Ibid, tud 28

Tabl 2: Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2011

% 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg	Nifer y wardiau	Cyfran o'r wardiau	Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg	Cyfran o'r cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg
≤ 10	0	0.0%	0	0.0%
> 10 ≤20	0	0.0%	0	0.0%
> 20 ≤30	0	0.0%	0	0.0%
> 30 ≤40	5	12.5%	3,244	8.4%
> 40 ≤50	8	20.0%	5,441	14.1%
> 50 ≤60	11	27.5%	11,155	28.9%
> 60 ≤70	8	20.0%	8,727	22.6%
> 70 ≤80	5	12.5%	6,059	15.7%
> 80 ≤90	3	7.5%	3,942	10.2%
> 90 ≤100	0	0.0%	0	0.0%
Cyfanswm	40	100.0%	38,568	100.0%

Yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu; ≤ Llai na neu hafal i; > Mwy na.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA

Tabl 3: Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2001

% 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg	Nifer y wardiau	Cyfran o'r wardiau	Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg	Cyfran o'r cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg
≤ 10	0	0.0%	0	0.0%
> 10 ≤20	0	0.0%	0	0.0%
> 20 ≤30	0	0.0%	0	0.0%
> 30 ≤40	1	2.5%	791	2.0%
> 40 ≤50	8	20.0%	5,833	15.0%
> 50 ≤60	12	30.0%	10,298	26.5%
> 60 ≤70	9	22.5%	9,707	25.0%
> 70 ≤80	7	17.5%	8,499	21.9%
> 80 ≤90	3	7.5%	3,765	9.7%
> 90 ≤100	0	0.0%	0	0.0%
Cyfanswm	40	100.0%	38,893	100.0%

Yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu; ≤ Llai na neu hafal i; > Mwy na

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84

Yr hyn sydd yn arwyddocaol ydi'r dirywiad yn gyffredinol. I fanylu, mae 17 (42.5%) o'r 40 ward yn Ynys Môn wedi gweld newid yn eu grŵp iaith gan ddisgyn i grŵp iaith is yn 2011 o gymharu â'i sefyllfa ieithyddol yn 2001. Yr 17 ward sydd wedi disgyn i grŵp iaith is yn 2011 o gymharu â 2001 yw: Aberffraw, Amlwch - Ward y Port, Bodorgan, Brynteg, Cadnant, Caergybi - Ward y Dref, Llaneilian, Llangoed, Llannerchymedd, Ffordd Llundain, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Porthyfelin, Rhosneigr, Rhosyr, Trearddur a Tysilio. Gweler **Atodiad 3** am fwy o fanylder.

Mae tabl 4 yn cynnwys gwybodaeth o ran y *nifer* a *chyfran* o bobl 3 oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg ar gyfer y 40 ward yn Ynys Môn yn ôl Cyfrifiad 2001 a 2011.

O edrych ar dabl 4 gellir gweld, heblaw am wardiau Cwm Cadnant a Moelfre, mae pob ward yn Ynys Môn wedi gweld dirywiad yn y *gyfran* o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg ers 2001. Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn Aberffraw, ble bu gostyngiad o 69.4% yn 2001 i 60.4% yn 2011.

Bu i 11 o'r 40 ward (27.5%) weld cynnydd yn y *nifer* o siaradwyr Cymraeg o 2001 i 2011. Yr 11 ward yma oedd: Bodorgan, Bryngwran, Cadnant, Cefni, Cwm Cadnant, Cyngar, Llanfaethlu, Llanfair-yn-Neubwll, Llanidan, Llannerch-y-medd a Tudur. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn nifer o siaradwyr Cymraeg yn ward Cyngar, ble bu cynnydd o 151 o siaradwyr Cymraeg o 1,425 yn 2001 i 1,576 yn 2011 (cyfystyr â chynnydd o 10.6% mewn nifer). Bu'r dirywiad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ward Porthyfelin, ble bu lleihad o 156 o siaradwyr Cymraeg o 1,019 yn 2001 i 863 yn 2011 (cyfystyr â lleihad o 15.3% mewn nifer).


Tabl 4: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 & 2011

Ward	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn pwynt canran
Aberffraw	878	69.4%	810	60.4%	-68	-7.7%	-9.0%
Amlwch – Ward y Porth#	906	67.3%	1,559	64.5%	#	#	#
Amlwch – Ward Wledig	686	57.0%	675	54.3%	-11	-1.6%	-2.7%
Biwmares	791	39.7%	748	39.5%	-43	-5.4%	-0.2%
Bodffordd	1,162	77.9%	1,098	73.3%	-64	-5.5%	-4.6%
Bodorgan	1,092	72.7%	1,130	68.3%	38	3.5%	-4.4%
Braint	1,113	77.1%	1,078	73.2%	-35	-3.1%	-3.9%
Bryngwran	1,234	76.1%	1,311	71.2%	77	6.2%	-4.9%
Brynteg	904	51.0%	890	48.7%	-14	-1.5%	-2.3%
Cadnant	539	51.8%	571	47.4%	32	5.9%	-4.4%
Cefni	1,151	83.1%	1,160	80.5%	9	0.8%	-2.6%
Cwm Cadnant	1,225	56.2%	1,261	57.5%	36	2.9%	1.3%
Cyngar	1,425	84.7%	1,576	80.8%	151	10.6%	-3.9%
Gwyngyll	1,118	73.9%	1,093	70.5%	-25	-2.2%	-3.4%
Caergybi – Ward y Dref	451	43.2%	447	39.1%	-4	-0.9%	-4.1%
Kingsland	660	48.0%	627	42.9%	-33	-5.0%	-5.1%
Llanbadrig	736	54.4%	690	52.4%	-46	-6.3%	-2.0%
Llanbedrgoch	710	45.5%	654	43.9%	-56	-7.9%	-1.6%
Llanddyfnan	881	69.9%	829	64.7%	-52	-5.9%	-5.2%
Llaneilian	1,337	61.5%	1,295	58.9%	-42	-3.1%	-2.6%
Llanfaethlu	1,021	67.1%	1,025	64.4%	4	0.4%	-2.7%
Llanfair-yn-Neubwll	1,341	51.5%	1,396	50.5%	55	4.1%	-1.0%
Llanfihangel Ysgeifiog	1,528	78.3%	1,479	75.8%	-49	-3.2%	-2.5%
Llangoed	676	54.6%	585	48.4%	-91	-13.5%	-6.2%
Llanidan	1,111	68.7%	1,162	65.1%	51	4.6%	-3.6%
Llannerch-y-medd	1,252	72.3%	1,294	69.9%	42	3.4%	-2.4%
Ffordd Llundain	742	51.8%	645	45.3%	-97	-13.1%	-6.5%
Maeshyfyd	932	43.7%	885	40.6%	-47	-5.0%	-3.1%
Mechell	949	64.0%	918	61.1%	-31	-3.3%	-2.9%
Moelfre	564	51.4%	544	52.3%	-20	-3.5%	0.9%
Morawelon	676	45.3%	584	40.4%	-92	-13.6%	-4.9%
Parc a'r Mynydd	596	53.8%	563	50.4%	-33	-5.5%	-3.4%
Pentraeth	1,006	58.2%	987	54.8%	-19	-1.9%	-3.4%
Porthyfelin	1,019	45.7%	863	39.7%	-156	-15.3%	-6.0%
Rhosneigr	406	42.6%	351	36.0%	-55	-13.5%	-6.6%
Rhosyr	1,339	63.7%	1,272	59.3%	-67	-5.0%	-4.4%
Trearddur	979	42.6%	835	38.1%	-144	-14.7%	-4.5%
Tudur	1,189	83.6%	1,206	80.7%	17	1.4%	-2.9%
Tysilio	1,285	64.4%	1,219	59.2%	-66	-5.1%	-5.2%
Y Fali	1,283	55.0%	1,253	54.7%	-30	-2.3%	-0.3%
Ynys Môn	38,893	60.1%	38,568	57.2%	-325	-0.8%	-2.9%
Cymru	582,368	20.8%	562,016	19.0%	-20,352	-3.5%	-1.7%


Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA

Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 ym mhoblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigyrau 2001 a 2011


Map 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2011




Map 2: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001



Map 3: Newid (%) yn *nifer* y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001-2011



Map 4: Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 - 2011



Sgiliau ehangach yn y Gymraeg – o ddata'r Cyfrifiad

O ran sgiliau ehangach yn y Gymraeg gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth 3 oed a throsodd sydd â sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011 yn Ynys Môn (tabl 5).

Tabl 5: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd â sgiliau yn y Gymraeg, 2001 & 2011

Sgiliau Cymraeg	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu	32,672	50.5%	30,756	45.6%	-1,916	-5.9%	-4.9%
Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu	1,902	2.9%	2,905	4.3%	1,003	52.7%	1.4%
Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu	4,135	6.4%	4,726	7.0%	591	14.3%	0.6%
Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig	5,649	8.7%	7,215	10.7%	1,566	27.7%	2.0%
Cyfuniad arall o sgiliau	1,176	1.8%	1,277	1.9%	101	8.6%	0.1%
Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg	45,534	70.4%	46,879	69.6%	1,345	3.0%	-0.8%
Dim sgiliau	19,145	29.6%	20,524	30.4%	1,379	7.2%	0.8%
Cyfanswm y boblogaeth (3+)	64,679		67,403		2,724	4.2%	

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS025; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA

Ffigwr 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+

Yn 2011, roedd bron i draean y boblogaeth 3 oed a throsodd (30.4%) yn Ynys Môn heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg, sydd yn gynydd o'r gyfran o 29.6% yn 2001. Mae hyn yn cyfateb i 1,379 yn fwy o bobl heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (cyfystyr â chynnydd o 7.2% o ran nifer y bobl).

Ar gyfer yr un cyfnod, roedd 69.6% yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, sydd yn ddirywiad o'r gyfran o 70.4% a welwyd yn 2001. Er y dirywiad o ran cyfran, o ran nifer mae cynnydd wedi bod o 45,534 yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn 2001 i 46,879 erbyn 2011, sef twf o 1,345 person (cyfystyr â chynnydd o 3.0% mewn nifer).

Bu cynnydd sylweddol o 52.7% yn y nifer o bobl sydd yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg (cyfystyr â chynnydd o 1,003 o bobl). Mae'n bosib bod cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn oherwydd bod pobl yn llai rhugl neu'n llai hyderus wrth ysgrifennu'r Gymraeg, a bod hynny oherwydd diffyg cyfleoedd i wneud defnydd ymarferol o'r iaith. Er cynnydd bach o 2 bwynt canran yn y gyfran sy'n gallu deall Cymraeg llafar yn unig (o gyfran o 8.7% yn 2001 i 10.7% yn 2011), mae hyn yn gynydd o 1,566 (neu 27.7%) mewn nifer.

Yn gyffredinol, felly gellir datgan bod sgiliau yn y Gymraeg yn Ynys Môn wedi dirywio rhwng 2001 a 2011.

O gymharu â'r grwpiau oedran hŷn, mae'r grwpiau iau yn tueddu i gynnwys cyfran gymharol uwch o'r boblogaeth yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Yn 2011, roedd y gyfran uchaf o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg ymysg y grŵp oedran 5-15 mlwydd oed (89.6%), tra bod y gyfran isaf ymysg y grŵp oedran 65-74 mlwydd oed (55.9%).

Mae hanner y grwpiau oedran wedi gweld cynnydd yn y gyfran sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011, gyda'r hanner arall wedi gweld dirywiad, fel y gwelir yn nhabl 6.

Tabl 6: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl oedran, 2001-2011

Grŵp Oedran	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
3-4	977	66.8%	1,033	67.5%	56	5.7 %	0.7 %
5-15	8,092	86.0%	7,150	89.6%	-942	-11.6 %	3.6 %
16-19	2,670	86.5%	2,598	84.4%	-72	-2.7 %	-2.1 %
20-24	2,724	82.4%	3,000	77.7%	276	10.1 %	-4.7 %
25- 39	8,925	73.8%	8,362	75.9%	-563	-6.3 %	2.1 %
40- 49	5,956	68.2%	6,483	69.0%	527	8.8 %	0.8 %
50- 59	6,171	62.1%	6,105	64.7%	-66	-1.1 %	2.6 %
60- 64	2,422	59.7%	3,167	58.0%	745	30.8 %	-1.7 %
65- 74	4,125	61.0%	4,796	55.9%	671	16.3 %	-5.1 %
75+	3,472	59.5%	4,185	59.2%	713	20.5 %	-0.3 %
Pob oedran (3+)	45,534	70.4%	46,879	69.6%	1,345	3.0 %	-0.8 %

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS133; Cyfrifiad 2011 – Tabl DC2106WA

Ffigwr 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+

Dros y degawd rhwng 2001-2011, mae chwe grŵp oedran wedi gweld cynnydd yn y nifer sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Bu'r cynnydd mwyaf ymysg y grŵp oedran 60-64, gyda 745 yn fwy o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn 2011 o gymharu â 2001 (cyfystyr â chynnydd o 30.8% mewn nifer).

Mae'r grwpiau oedran 5-15; 16-19; 25-39 a 50-59 mlwydd oed wedi gweld dirywiad yn y nifer o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg ers 2001. Bu'r dirywiad mwyaf ymysg y grŵp oedran 5-15, ble roedd 942 yn llai o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn 2011 o gymharu â 2001 (cyfystyr â dirywiad o 11.6% mewn nifer).

Mae map 7 yn dangos y newid (fel %) o ran nifer y bobl 3 oed a throsodd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011, tra bod map 8 yn dangos y newid (fel pwynt %) yng nghyfran y bobl 3 oed a throsodd sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011. Gwelir y data cyflawn yn nhabl 7.

Mae tabl 7 yn cynnwys gwybodaeth o ran y nifer a chyfran o bobl 3 oed a throsodd sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y 40 ward yn Ynys Môn yn ôl Cyfrifiad 2001 a 2011. O edrych ar dabl 7 gellir gweld, heblaw am 7 ward, mae gweddill Ynys Môn wedi gweld dirywiad yn y gyfran o bobl sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o'r bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn Aberffraw, ble bu i'r gyfran ddirywio o 76.8% i 71.6% dros y cyfnod.

Ers 2001, mae 7 ward wedi profi cynnydd bach yn y gyfran o'r boblogaeth sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Y saith ward yma yw: Biwmares, Cwm Cadnant, Llaneilian, Llanfair-yn-Neubwll, Maeshyfyd, Moelfre a'r Fali. Cwm Cadnant a welodd y cynnydd mwyaf yn y gyfran o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, gan gynyddu o 67.6% yn 2001 i 69.8% yn 2011.

Bu i 19 o'r 40 ward, sef bron i hanner (47.5%), weld cynnydd yn y nifer o'r bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg o 2001 i 2011. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran y nifer yn ward Cyngar, ble bu cynnydd o 199 o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (o 1,503 yn 2001 i 1,702 yn 2011, sy'n gyfystyr â chynnydd o 13.2% mewn nifer). Gwelwyd y dirywiad mwyaf o ran y nifer yn ward Trearddur ble bu lleihad o 88 o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (o 1,249 yn 2001 i 1,161 yn 2011, sy'n gyfystyr â dirywiad o 7.0% mewn nifer).

Ystyr ymarferol 'un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' yw cyfanswm y nifer sy'n ei siarad â'r nifer sy'n deall Cymraeg llafar yn unig. Bach iawn yw'r niferoedd nad ydynt ond yn gallu ei darllen, er enghraifft. Yr hyn mae'r tablau a'r mapiau canlynol yn ei ddangos ydi bod cyfran sylweddol yn deall yr iaith yng Nghaergybi, fel bod y canrannau 'un neu fwy o sgiliau' gryn dipyn yn uwch na'r niferoedd sy'n ei

siarad. Er bod angen gwneud mwy o ymchwil i hyn, mae'n bosib bod diffyg defnydd o'r Gymraeg yn troi siaradwyr i fod yn rhai sy'n deall yr iaith yn unig dros gwrs blynyddoedd.

Tabl 7: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 & 2011


Ward	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Aberffraw	972	76.8%	961	71.6%	-11	-1.1%	-5.2%
Amlwch – Ward y Porth#	1,035	76.8%	1,862	77.1%	#	#	#
Amlwch – Ward Wledig	799	66.4%	798	64.3%	-1	-0.1%	-2.1%
Biwmares	1,123	56.4%	1,082	57.2%	-41	-3.7%	0.8%
Bodffordd	1,249	83.8%	1,208	80.7%	-41	-3.3%	-3.1%
Bodorgan	1,183	78.8%	1,255	75.8%	72	6.1%	-3.0%
Braint	1,206	83.5%	1,205	81.8%	-1	-0.1%	-1.7%
Bryngwran	1,326	81.8%	1,441	78.3%	115	8.7%	-3.5%
Brynteg	1,071	60.4%	1,065	58.3%	-6	-0.6%	-2.1%
Cadnant	641	61.6%	721	59.8%	80	12.5%	-1.8%
Cefni	1,220	88.1%	1,254	87.0%	34	2.8%	-1.1%
Cwm Cadnant	1,473	67.6%	1,529	69.8%	56	3.8%	2.2%
Cyngar	1,503	89.4%	1,702	87.3%	199	13.2%	-2.1%
Gwyngyll	1,233	81.5%	1,223	78.9%	-10	-0.8%	-2.6%
Caergybi – Ward y Dref	636	61.0%	691	60.4%	55	8.6%	-0.6%
Kingsland	912	66.4%	943	64.6%	31	3.4%	-1.8%
Llanbadrig	881	65.1%	838	63.7%	-43	-4.9%	-1.4%
Llanbedrgoch	860	55.2%	789	52.9%	-71	-8.3%	-2.3%
Llanddyfnan	968	76.8%	930	72.5%	-38	-3.9%	-4.3%
Llaneilian	1,479	68.1%	1,515	69.0%	36	2.4%	0.9%
Llanfaethlu	1,121	73.7%	1,153	72.4%	32	2.9%	-1.3%
Llanfair-yn-Neubwll	1,537	59.0%	1,668	60.4%	131	8.5%	1.4%
Llanfihangel Ysgeifiog	1,661	85.1%	1,630	83.6%	-31	-1.9%	-1.5%
Llangoed	789	63.7%	747	61.8%	-42	-5.3%	-1.9%
Llanidan	1,240	76.7%	1,356	76.0%	116	9.4%	-0.7%
Llannerch-y-medd	1,368	79.0%	1,424	76.9%	56	4.1%	-2.1%
Ffordd Llundain	1,014	70.8%	946	66.5%	-68	-6.7%	-4.3%
Maeshyfyd	1,331	62.3%	1,396	64.1%	65	4.9%	1.8%
Mechell	1,043	70.3%	1,030	68.6%	-13	-1.2%	-1.7%
Moelfre	670	61.1%	645	62.0%	-25	-3.7%	0.9%
Morawelon	945	63.4%	915	63.2%	-30	-3.2%	-0.2%
Parc a'r Mynydd	800	72.2%	806	72.1%	6	0.8%	-0.1%
Pentraeth	1,191	68.8%	1,210	67.1%	19	1.6%	-1.7%
Porthyfelin	1,453	65.2%	1,377	63.4%	-76	-5.2%	-1.8%
Rhosneigr	498	52.3%	483	49.5%	-15	-3.0%	-2.8%
Rhosyr	1,484	70.6%	1,482	69.1%	-2	-0.1%	-1.5%
Trearddur	1,249	54.3%	1,161	52.9%	-88	-7.0%	-1.4%
Tudur	1,284	90.2%	1,335	89.3%	51	4.0%	-0.9%
Tysilio	1,522	76.3%	1,528	74.2%	6	0.4%	-2.1%
Y Fali	1,564	67.0%	1,575	68.7%	11	0.7%	1.7%
Ynys Môn	45,534	70.4%	46,879	69.6%	1,345	3.0%	-0.8%
Cymru	797,717	28.4%	787,854	26.7%	-9,863	-1.2%	-1.7%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – KS25; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS208WA


Ar gyfer 2001 mae'r ffigur 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+

#Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 yn boblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigurau 2001 a 2011

Map 5: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2011




Map 6: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS25
 Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
 Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
 Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

Map 7: Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001-2011



Map 8: Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 - 2011



Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Y prif ddata ar y Gymraeg, ers Cyfrifiad 2011, yw 'Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth'³⁷ Llywodraeth Cymru. Mae'n demtasiwn, gan ei fod yn gyfredol, i ddibynnu ar y data yn y cyfnod ers Cyfrifiad 2011. Ceir esboniad isod pam nad yw'n briodol gorbwysleisio canlyniadau'r Arolwg Blynyddol a'i gymharu â data'r Cyfrifiad.


Yn gryno, dengys Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gynnydd cyson o nifer a chanran siaradwyr Cymraeg ym Môn, ac ar draws Cymru. Gwelir yn nhabl 8 yr amcangyfrifir fod yna 44,900 o siaradwyr Cymraeg ym Môn, sef 65.5% o'r trigolion. O'r rhain, dengys siart 3 fod 50% yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac yn siart 4 amcangyfrifir fod 72.8% o drigolion Môn yn deall Cymraeg llafar.

Tabl 8. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu siarad Cymraeg (Medi 2020)

	Pawb 3 oed a throsodd	Ie, yn gallu siarad Cymraeg	Na, ni all siarad Cymraeg	Canran sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg %
Cymru	3,035,800	872,200	2,160,800	28.8
Ynys Môn	68,500	44,900	23,500	65.6


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru³⁸

Siart 3. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran amllder siarad Cymraeg (Medi 2020)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru³⁹

Siart 4. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu darllen, siarad a deall Cymraeg llafar (Medi 2020)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁴⁰

37 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, tudalen cyfeirio Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/arolwg-blynyddol-or-boblogaeth>

38 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure>

39 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/welshfrequency-by-la-year>

40 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/welsh-skills-by-la>


Fodd bynnag, mae yma sawl ystyriaeth cyn dod i gasgliad:

Nid asesiad ar allu a defnydd y Gymraeg yw prif ddiben Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, fel yr esbonia Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru: "Prif ddiben yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yw darparu ystadegau cysylltiedig â chyflogaeth, ynghyd â gwybodaeth gyd-destunol ar newidynnau cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol ar lefel leol. Mae'r cwestiwn ar y Gymraeg wedi'i gynnwys at ddibenion dadansoddi ar draws pynciau, ac nid i ddarparu cyfrifiad o nifer y bobl sy'n medru siarad Cymraeg."⁴¹

Yn gyson, mae canlyniadau am niferoedd sy'n gallu siarad y Gymraeg yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn llawer uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad ar gyfer 2001 a 2011, wedi'u plotio ar siart 5 o 'Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2001- 2018'⁴². Gwelir yn eglur y gwahaniaethau rhwng y ddau set data, sy'n cofnodi nifer y bobl 3 oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg. Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2011, dynodir fod 769,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, tra bod Cyfrifiad yr un flwyddyn yn datgelu mai dim ond 562,016 oedd yn medru siarad Cymraeg. Ceir esboniad helaethach am y gwahaniaeth gan y Prif Ystadegydd⁴³ wrth gyhoeddi'r canlyniadau.

Y Cyfrifiad bob degawd yw'r brif ffynhonnell data am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae **Strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050', yn datgan yn eglur mai data'r Cyfrifiad yw sail y Strategaeth** a hefyd sail monitro ac asesu deilliannau yn ôl y targedau.

Siart 5. Data Cymru o'r nifer y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl blwyddyn, 2001 i 2018, yn cynnwys plotio canlyniadau Cyfrifiad 2001 a 2011



Ffynhonnell: siart o 'Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2001- 2018', Llywodraeth Cymru⁴⁴

Gyda'r ystyriaethau hyn yn gyd-destun, erys gwybodaeth werthfawr yn yr Arolwg Blynyddol. Gellir gweld yn siart 5, rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011, y bu gostyngiad o 20,000 o siaradwyr Cymraeg. Roedd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2001 a 2011 wedi cofnodi gostyngiad ar gyfer yr un cyfnod hefyd. Mae lle i ystyried felly, er nad yw data'r Arolwg yn cyfleu'r gwir niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg, er hynny fod yr Arolwg yn cyfateb yn gyson i ddata'r Cyfrifiad o ran graddfa'r gostyngiad neu dwf yn nifer y siaradwyr yng Nghymru.

Ym Môn yn benodol, dengys siart 6 gynnydd bach ond cyson yn y *nifer* sy'n medru siarad Cymraeg rhwng Medi 2010 a 2020. Mae 1,200 yn fwy wedi eu hamcangyfrif ar gyfer y categori 'Pawb oed 3 a throsodd' yn 2020, ac o'r rhain mae cynnydd o 2,400 yn y rhai sy'n siarad Cymraeg a gostyngiad o 1,200 yn y nifer nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'r Prif Ystadegydd yn perthnasu'r twf yn

41 Glyn Jones, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2019/03/27/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-trafodaeth-am-ddata-ar-y-gymraeg-syn-deillio-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth/?_ga=2.119066313.1965520841.1613220274-1243055179.1596628379


42 Canlyniadau mewn perthynas â'r Gymraeg: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2001- 2018, Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/canlyniadau-mewn-perthynas-ar-gymraeg-yr-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2001-i-2018.pdf>

43 Gweler linc uchod: Glyn Jones, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru

44 Ibid

genedlaethol â'r categori oed 3 i 15, ac mae'r ystyriaethau cenedlaethol yr un mor berthnasol i Fôn. Bydd angen deall: "a yw'r tueddiad a welwyd mewn perthynas â phlant 3 i 15 oed yn gysylltiedig â newid gwirioneddol o ran y gallu i siarad Cymraeg, neu a yw'n golygu bod mwy o dueddiad i rieni adrodd bod eu plant yn gallu siarad Cymraeg."⁴⁵


**Siart 6. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth -
Data Môn o ran gallu siarad Cymraeg (Medi 2010-2020)**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁴⁶

Yn yr un modd mae siart 7 yn cyfleu'r twf mewn *canran* o siaradwyr Cymraeg rhwng Medi 2010 a 2020. Mae'r newidiadau yn llai cyson o gyfleu'r data mewn canrannau, e.e. gweler y twf o 2.4% rhwng 2010 i 2012 ac yna gostyngiad o 3.6% y flwyddyn ganlynol. O'i gymryd ar draws y degawd fodd bynnag, gwelir amcangyfrif o dwf 2.3%, o 63.3% o siaradwyr Cymraeg yn 2010 i 65.6% yn 2020. Adlewyrchir y twf yn y data cenedlaethol rhwng 2010 i 2020, gyda chynnydd o 3.2% yn y canran siaradwyr Cymraeg.

**Siart 7. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Data Môn o ran gallu siarad Cymraeg
(Medi 2010-2020) - Canran sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg %**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁴⁷

45 Glyn Jones, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2019/03/27/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-trafodaeth-am-ddata-ar-y-gymraeg-syn-deillio-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth/?_ga=2.119066313.1965520841.1613220274-1243055179.1596628379

46 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure>

47 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure>

I ddod i gasgliad am berthnasedd data'r Arolwg Blynyddol i broffil iaith Môn, ceir arweiniad pellach gan y Prif Ystadegydd: "Ein cyngor yw na ddylid ystyried bod tueddiadau yn y data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos tystiolaeth bendant o dueddiadau mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn hytrach, dylid ystyried eu bod yn arwydd defnyddiol o dueddiadau posibl y dylid eu defnyddio ar y cyd â data eraill. Bydd rhaid inni aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2021 i gael gwybod yn iawn am y cynnydd tuag at gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg."⁴⁸

Gan hynny, o ystyried y cyfyngiad a drafodwyd, ein dehongliad o ddata'r Arolwg Blynyddol, ar y cyd â'r data Addysg Môn (gweler Adran 7), yw y cawn aros yn obeithiol y gwelwn rywfaint o dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn bydd y niferoedd o siaradwyr Cymraeg ym Môn wedi cyrraedd 44,900 (siart 6 uchod) erbyn Cyfrifiad 2021, gan fod canlyniad yr Arolwg Blynyddol yn gyson uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad. Rydym felly yn ofalus obeithiol bydd Cyfrifiad 2021 yn datgelu twf yn nifer a chanran y siaradwyr ym Môn, ond ni allwn ddirnad maint y twf heblaw am rybuddio na fydd mor uchel â'r amcangyfrif a awgrymir yn yr Arolwg Blynyddol. Bydd ystyriaethau pellach hefyd ynglŷn â diffiniadau amrywiol y boblogaeth o 'gallu siarad Cymraeg', atebion oedolion dros y plant yn eu cartrefi, ac, yn holl bwysig, parodrwydd a chyfleodd y rhai sydd yn 'gallu siarad Cymraeg' i rannu'r iaith gyda'u teuluoedd, yn y gymuned, ac yn y gweithle.

Y Gymraeg - effaith mudo

Gall mudo fod yn bwnc sensitif, ond dengys hanes i Gymru elwa o brofiad a chyfraniad mewnfudwyr o bedwar ban byd a bod yr amlddiwylliant, sy'n rhan annatod o'n cymunedau, yn fodd i gyfoethogi diwylliant a mentergarwch. Yn ynys forwrol, mae Môn heddiw yn berl o gyfanwaith y mudo a fu; o'r Brythoniaid, Celtiaid, Rhufeiniaid, Llychlynwyr, i ffoaduriaid y Rhyfel Byd Cyntaf (a adeiladodd Rhodfa'r Belgiaid ym Mhorthaethwy fel diolch), a faciwis yr Ail Ryfel Byd. Mae hyd heddiw cyfoeth o ieithoedd i'w croesawu ac i'w clywed ar dir Môn, gydag amlieithrwydd, nid unieithrwydd, yn nod addysg y Cyngor Sir i holl blant yr ynys.

Erys ffocws yr adran ganlynol ar effaith mudo ar y defnydd a ffyniant y Gymraeg yn ei chadarnle ym Môn, y patrymau cymhathu a'r ymwybyddiaeth o raddfa mewnfudo yng nghyd-destun ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol eithriadol. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd dau draean o boblogaeth Môn, sef 66.4%, wedi eu geni yng Nghymru. O Loegr y daw mwyafrif llethol y trigolion sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, ac maent yn cyfrif am 28.8% arall o'r boblogaeth, sef 85.7% o gyfanswm trigolion Môn a aned y tu allan i Gymru. Daw tua 1% arall o'r Alban, 1% o Iwerddon (y Weriniaeth a'r Gogledd) ychydig dros 1% o dir mawr Ewrop, ac ychydig dros 1% o weddill y byd.

⁴⁸ Glyn Jones, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2019/03/27/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-trafodaeth-am-ddata-ar-y-gymraeg-syn-deillio-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth/?_ga=2.119066313.1965520841.1613220274-1243055179.1596628379


Tabl 9. Data Ynys Môn o'r nifer a'r canran o bobl a aned yng Nghymru, neu y tu allan i Gymru, a'r nifer a'r canran sy'n siarad Cymraeg

Ardal	Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed	Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg	% sy'n siarad Cymraeg	Nifer bobl a aned yng Nghymru	% y bobl a aned yng Nghymru	Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg	% y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg	Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg	% y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg
Môn gyfan	67,403	38,568	57.2	44,088	65.4	34,465	78.2	4,103	17.6
Llangefni, Llanfairpwll a chanol yr ynys	17,286	12,947	74.9	13,209	76.4	11,945	90.4	1,002	24.6
Arfordir y de-orllewin	5,439	3,421	62.9	3,582	65.9	3,090	86.3	331	17.8
Caergybi, Y Fali a Rhosneigr	18,884	8,132	43.1	12,403	65.7	7,290	58.8	842	13.0
Amlwch a gogledd yr ynys	10,827	6,504	60.1	6,559	60.6	5,700	86.9	804	18.8
Yr arfordir dwyreiniol	14,967	7,564	50.5	8,335	55.7	6,440	77.3	1,124	16.9

Ffynhonnell: Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'⁴⁹, o ddata Cyfrifiad 2011

Y ffordd fwyaf dibynadwy o asesu effaith mudo ar y Gymraeg ym Môn yw trwy edrych ar ffigurau'r Cyfrifiad sy'n dangos y gallu i siarad Cymraeg yn ôl mannau geni (tabl 9). Maen nhw'n gwahaniaethu rhwng y rheini sydd wedi eu 'geni yng Nghymru' a'r rheini sydd wedi eu 'geni'r tu allan i Gymru'. Nodwyd eisoes mai o Loegr y daw'r canran uchaf o'r rhai a aned tu allan i Gymru. Noder hefyd, nad ydi'r ffaith fod rhywun wedi eu geni yng Nghymru yn golygu o angenrheidrwydd eu bod wedi eu geni ym Môn, ond mae hynny yn annhebygol o fod yn arwyddocaol. Mae'n wir y gall fod mewn fudo o rannau mwy di-Gymraeg o Gymru, ond rhaid cofio mai'r unig sir sy'n ffinio â Môn yw Gwynedd, lle mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch. Felly mae'n rhesymol tybio bod ffigurau hyn yn rhoi darlun lled gywir inni o sefyllfa'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth frodorol.

Siart 8. Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg trigolion Môn a aned yng Nghymru, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'⁵⁰, o ddata Cyfrifiad 2011


49 Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn', 2016: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Datganiadau/3128-s1-1W.pdf>

50 Ibid.

Gwelwn o siart 8 fod mwyafrif sylweddol (78%) o drigolion Môn a aned yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Eto i gyd, mae hyn yn dipyn is na'r hyn yw yng Ngwynedd, lle mae'r gyfran yn 89%. Wrth edrych ar ardaloedd unigol (tabl 9), mae'r gyfran a aned yng Nghymru ac yn siarad Cymraeg, yn amrywio o 58.8% yn ardal Caergybi i 90.4% yng nghanol yr ynys. Mae'r gyfran a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel hefyd mewn ardaloedd gwledig ar yr arfordir, hyd yn oed lle mae llawer o fewnfudo wedi bod. Dengys tabl 9 fod 17.6% o'r bobl a aned y tu allan i Gymru yn siarad Cymraeg, canran sy'n codi i bron i chwarter (24.6%) yng nghanol yr ynys. Mae hyn, o bosib, yn adlewyrchiad ar fantais y cyfleoedd trochi cymunedol yn y Gymraeg sydd yn fwy hygyrch yn y cymunedau â dros 70% o siaradwyr Cymraeg.

Mae effaith mewnfudo i'w weld yn amlwg ymhlith y grwpiau oedran hŷn. Llai na hanner y boblogaeth dros 50 oed sy'n gallu siarad Cymraeg; ac mae dros 40% o'r grwpiau hyn wedi eu geni y tu allan i Gymru. Mae hyn i'w weld yn siart 9. Noder, er bod cysylltiad amlwg, fel y dangoswyd uchod, rhwng gwlad enedigol a'r gallu i siarad Cymraeg, ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y niferoedd a aned yng Nghymru a'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn siart 9, gan fod cyfansymiau'r siaradwyr Cymraeg yn cynnwys rhai a aned y tu allan i Gymru yn ogystal (siart 10).


Siart 9. Poblogaeth Môn yn dangos pobl aned yng Nghymru a siaradwyr Cymraeg, fesul grŵp oedran, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'⁵¹, o ddata Cyfrifiad 2011

51 Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn', 2016: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Datganiadau/3128-s1-1W.pdf>

Siart 10. Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg y trigolion Môn a aned y tu allan i Gymru, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'⁵², o ddata Cyfrifiad 2011

Bu i boblogaeth Ynys Môn gynyddu o 2,922 yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011. Mae ffigurau diweddara'r Arolwg Blynyddol o Boblogaeth Cymru yn awgrymu cynnydd pellach o 1800 yn y 10 mlynedd ers hynny. Yn seiliedig ar newid naturiol yn unig (h.y. genedigaethau a marwolaethau), ni fyddai poblogaeth y sir wedi tyfu dros y cyfnod yma. Felly, mae'r newid hwn yn y boblogaeth oherwydd effaith mudo - gan gynnwys mudo mewnol (oddi fewn i'r Deyrnas Gyfunol) a mudo o du allan i'r Deyrnas Gyfunol.

Ym Môn, roedd cyfran y boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru wedi cynyddu o 32.4% (21,670 o bobl)⁵³ yn 2001 i 33.6% (23,448 o bobl)⁵⁴ yn 2011.

Mae tabl 10 a thabl 11 yn dangos y nifer a chyfran o siaradwyr Cymraeg a'r nifer a chyfran sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn ôl gwlad enedigol yn 2001 a 2011. Fel y disgwylir, yn 2011 roedd cyfran is o boblogaeth Ynys Môn a anwyd tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg (17.6%) o gymharu â'r bobl hynny a anwyd yng Nghymru (78.2%). Mae cyfran is o'r boblogaeth a anwyd tu allan i Gymru yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (30.6%) o gymharu â'r rhai hynny a anwyd yng Nghymru (90.2%).

Tabl 10: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011

Grŵp Oedran	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Ganwyd yng Nghymru	34,855	80.8%	34,465	78.2%	-390	-1.1%	-2.6%
Ganwyd tu allan i Gymru	4,038	18.7%	4,103	17.6%	65	1.6%	-1.1%
Pob oedran (3+)	38,893	60.1%	38,568	57.2%	-325	-0.8%	-2.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CT009; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2206WA

52 Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Datganiadau/3128-s1-iw.pdf>

53 Cyfrifiad 2001 – Tabl KS005

54 Cyfrifiad 2011 – Tabl KS204EW

Tabl 11: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011

Grŵp Oedran	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Ganwyd yng Nghymru	39,008	90.4%	39,755	90.2%	747	1.9%	-0.2%
Ganwyd tu allan i Gymru	6,526	30.3%	7,124	30.6%	598	9.2%	0.3%
Pob oedran (3+)	45,534	70.4%	46,879	69.6%	1,345	3.0%	-0.8%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – Tabl CT006; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2206WA

Er dirywiad o ran y gyfran o siaradwyr Cymraeg, o ran niferoedd mae'r nifer sydd wedi eu geni tu allan i Gymru ond yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn wedi cynyddu o 65 person (cyfystyr â chynnydd o 1.6%) rhwng 2001 a 2011. O gymharu, mae'r nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a anwyd yng Nghymru wedi lleihau o 390 o bobl (cyfystyr â lleihad o 1.1%) yn y deg mlynedd ddiwethaf, gan leihau o gyfran o 80.8% yn 2001 i gyfran o 78.2% yn 2011.

O ran y bobl hynny sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, mae'r sefyllfa yn fwy cadarnhaol. Mae'r nifer wedi cynyddu ers 2001 ymysg y rhai hynny a anwyd yng Nghymru ynghyd â'r bobl hynny a anwyd tu allan i Gymru. Yn wir, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nhermau'r gyfran o gynnydd ymysg y bobl hynny a anwyd tu allan i Gymru, gan gynyddu o 9.2% (cyfystyr â chynnydd o 598 person). Gweler cyfeiriad a linc at Bolisi Iaith Cyngor Sir Ynys Môn yn Adran 2 (Y Ffit Strategol) a'r adroddiad ar Addysg (Adran 7), i weld yr effaith gadarnhaol mae Polisi Iaith y Cyngor yn ei gael ar addysg plant Môn. Mae effaith y polisi yma, a'r buddsoddiad yn yr unedau iaith, yn un cadarnhaol o ran twf gallu Cymraeg plant a anwyd tu allan i Gymru.

Yn 2011, roedd 71.9%⁵⁵ o'r boblogaeth 3 i 15 mlwydd oed Ynys Môn a anwyd tu allan i Gymru yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Mae hyn yn gynydd ers 2001, ble roedd y gyfran gyfatebol yn 66.3%⁵⁶.

Yn gyffredinol, o ran cymhathu mewnfwudwyr mae yna ddarpariaeth sefydledig i alluogi mewnfwudwyr i ddysgu'r iaith drwy ddarpariaeth Dysgu Cymraeg⁵⁷ i oedolion, a darpariaeth gan ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn a'r Mudiad Meithrin i blant. Gweler hefyd Adran 4 (Gweithgareddau Cymunedol), am gyfleoedd cymhathu yn y gymuned. O ran codi ymwybyddiaeth mewnfwudwyr o gefndir ieithyddol a diwyllianol yr ardal, cyhoeddwyd llyfryn 'Croeso i'r Gymraeg'⁵⁸ i gyflwyno pwysigrwydd yr iaith i'r ynys a'r cyfleoedd sydd ar gael i gaffael yr iaith.

Dadansoddiad i gloi ar ddemograffeg y Gymraeg ym Môn

Yn 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'⁵⁹, adroddiad a gomisiynwyd gan bedwar o fudiadau iaith yn 2016, daw'r ymchwilydd i'r casgliad canlynol:

⁵⁵ Cyfrifiad 2011 – Tabl DC2206WA

⁵⁶ Cyfrifiad 2001 – Tabl TT015 & ST133

⁵⁷ Dysgu Cymraeg <https://dysgucymraeg.cymru/>

⁵⁸ 'Croeso i'r Gymraeg', Menter iaith Môn a Llywodraeth Cymru, 2018. <https://llyw.cymru/croeso-i-gymru-croeso-i-r-gymraeg>

⁵⁹ Huw Prys Jones 'Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg ym Môn'

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Datganiadau/3128-s1-IW.pdf>

- Mae ffigurau'r Cyfrifiadau diwethaf yn rhoi darlun cymharol gymysg o sefyllfa'r Gymraeg ym Môn. Maent yn dangos effaith amlwg mewnfudo dros y degawdau diwethaf, a hefyd yr iaith yn colli tir yn sylweddol ymysg poblogaeth tref fwyaf y sir, sef Caerdybi. Ar yr un pryd, mae rhan helaethaf o ganol yr ynys ymhlith ardaloedd Cymreiciaf Cymru, ac yn rhan sylweddol o brif gadarnle'r Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Wrth edrych ar yr ynys yn ei chyfanrwydd, mae'n ymddangos na fu newid mawr rhwng 2001 a 2011. Bychan iawn yw'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ystod y ddegawd, ond mae'r gostyngiad yn y ganran yn dangos parhad tueddiad cyson dros y 50 mlynedd ddiwethaf. Mae sir lle'r oedd tri chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 1961 bellach heb fod â llawer mwy na hanner ei phoblogaeth yn gallu siarad yr iaith.
- Bu'r gostyngiad mwyaf yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghaerdybi a'r cyffiniau. Mewn gwirionedd roedd y gostyngiad o bron i 500 yn y dref ei hun yn fwy na'r gostyngiad dros yr ynys gyfan, gyda chynnydd bach yn y niferoedd yma ac acw yng ngweddill yr ynys yn gwrthweithio hyn. Mae Caerdybi hefyd yn wahanol i weddill yr ynys yn yr ystyr fod cyfran llawer uwch o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru. Wrth edrych ar batrymau oedran, daw'n amlwg mai yr hyn a welwn yn y dref yw dirywiad yn yr iaith ymysg y boblogaeth gynhenid yn hytrach nag effeithiau mewnfudo.
- Ar y llaw arall, mae dylanwad mewnfudo'n amlwg iawn ar hyd y rhan fwyaf o arfordir yr ynys, gyda dros 40% o'r boblogaeth wedi cael eu geni y tu allan i Gymru mewn llawer i ardal.
- Er bod bron iawn i dri chwarter poblogaeth mewndirol yr ynys yn gallu siarad Cymraeg, a'r niferoedd wedi codi fymryn bach, mae'r ganran wedi gostwng 3.6 pwynt canran ers 2001. Mae gostyngiadau sylweddol wedi bod yn llawer o'r pentrefi, ac mae'r ffigurau'n awgrymu bod hynny'n rhannol o ganlyniad i bobl leol Gymraeg eu hiaith yn symud i Langejni a phobl ddi-Gymraeg o'r tu allan yn symud i mewn iddynt.
- Er bod mwyafrif llethol (78.2%) o drigolion Môn a aned yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, mae hyn yn 2% yn is na'r hyn oedd yn 2001. Mae'n debyg mai yn ardal Caerdybi y digwyddodd y rhan fwyaf o'r dirywiad hwn. Mae patrwm ieithyddol digon tebyg i'w weld ar waith ym Mangor hefyd, ond gan fod Môn yn sir llawer llai ei phoblogaeth na Gwynedd, mae Caerdybi'n dylanwadu'n drymach ar ffigurau gweddill yr ynys.
- Fel yng Ngwynedd, mae tua thraean o boblogaeth yr ynys wedi eu geni y tu allan i Gymru, a'r cyfrannau'n llawer uwch ymhlith pobl dros 50. Canran isel o'r bobl hyn sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Deil Llangefni i fod yn un o drefi Cymreiciaf Cymru, ac mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yno yn uwch nag yn unman arall ac eithrio Caernarfon a'r cyffiniau. Er bod canrannau uchel yn gallu siarad Cymraeg yn y pentrefi cyfagos, maent yn is nag yn y dref ei hun.
- O edrych ar dueddiadau'r 50 mlynedd ddiwethaf, yr hyn sydd wedi digwydd yw bod cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at leihad yn y canrannau sy'n siarad Cymraeg. Gellid dadlau bod yr iaith wedi dal ei thir yn bur dda hyd yma o ystyried graddau'r mewnfudo o'r tu allan i Gymru. Ar y llaw arall, gallai cynnydd pellach yn y boblogaeth fod yn fygythiad gwirioneddol i'r Gymraeg mewn sawl rhan o'r ynys.

4. Gweithgareddau cymunedol

Mae ein dealltwriaeth o weithgareddau cymunedol Cymraeg ym Môn yn ymateb i sbectrwm o ddisgwyliadau; o'r siaradwyr Cymraeg sydd am fyw eu bywydau yn y Gymraeg ar yr ynys, i'r dysgwyr a'r rhai di-Gymraeg sydd am fwynhau digwyddiadau Cymraeg croesawgar er mwyn dechrau ar daith dysgu'r Gymraeg. Ceir ystod o fudiadau, cymdeithasau, cymunedau ag unigolion sy'n sbarduno'r gweithgareddau hyn. Yn yr ardaloedd gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg (Gweler Adran 3 Demograffeg) bydd digwyddiadau cymunedol o'u hanfod yn Gymraeg, tra mewn ardaloedd eraill ceir mewnbn gan ysgolion neu grwpiau penodol i gynnig digwyddiad cymunedol Cymraeg yn y gymuned.

Gwahaniaethwn rhwng digwyddiadau 'dwyieithog' a digwyddiadau uniaith Gymraeg (sy'n groesawgar i'r di-Gymraeg gydag addasiadau ar lefel unigol). Yn yr un modd â chyfraniad trochi yn yr ysgolion, mae cyfleoedd trochi mewn digwyddiadau Cymraeg yn fuddiol i ddysgwyr cymaint ag y mae i siaradwyr Cymraeg. "Mae galluogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd yn y cartref, ac yn ehangu'r cyd-destunau lle mae plant yn gweld bod y Gymraeg yn rhan berthnasol o'u bywyd bob dydd."⁶⁰

Conglfaen gweithgareddau cymunedol yw'r grwpiau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn benodol. Ceir cyflwyniad i rai o'r rhain yn nhabl 12. Rhaid cydnabod fod llawer o'r gweithgareddau arferol hyn wedi cael eu gohirio yn ystod cyfnod Covid-19 (Gweler Adran 5, Effaith Covid-19). Er mwyn gwerthuso'r hyn rydym wedi ei golli, dros dro gobeithio, gwelwn werth cofnodi prif weithgareddau cymunedol a drefnir yn arferol yn y Gymraeg. Mae'n feincnod defnyddiol i'r hyn sydd angen ei addasu i gyfnod y cyfyngiadau a'i adfer a'i bywiogi pan fydd diogelwch cyhoeddus yn caniatáu.

Tabl 12. Rhai o gyfranwyr allweddol i weithgareddau cymunedol Cymraeg Môn

Cymdeithas / Gweithgaredd	Darpariaeth	Nodiadau
Mudiad Meithrin ⁶¹	plant & teuluoedd	Yn cyflogi dros 50 o staff yn lleol mae rhwydwaith y Mudiad Meithrin yn cyfrannu i wead y Gymraeg yng nghymunedau Môn. - Clwb Cwtsh: Cyfleoedd achlysurol i ymuno mewn cyfres o sesiynau Cymraeg i riant â phlentyn gan ddysgu Cymraeg drwy rigymau a chwarae. - Cylchoedd Ti a Fi: Pwrpas cylch Ti a Fi yw rhoi cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant yn y Gymraeg a chymdeithasu dros banded. - Cylchoedd Meithrin: Nod y cylch meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy chwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig. Mae cyfleoedd cymdeithasu i rieni o amgylch gweithgareddau'r Cylch ag ymgyrchoedd codi arian.
Cymraeg i Blant ⁶²	rhieni & babis/plant	Mae'r cyfleoedd cymdeithasu yn codi o'r Grwpiau Babi, Tyllino Babi a Ioga Babi i rieni Môn. Ceir hefyd gyswllt â grwpiau ymwelwyr iechyd a bydwagedd mewn rhai ardaloedd. Yn 2019-20 bu i 1506 o rieni fanteisio ar y ddarpariaeth a drwy hynny gymdeithasu gydag arweinydd Cymraeg mewn grwpiau.
Menter Iaith Môn ⁶³	plant, teuluoedd, pobl ifanc, cymunedau pob oed	Gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd a phrofiadau sy'n annog holl drigolion yr ynys i arddel y Gymraeg yn eu cymunedau, mae arlwy y fenter yn adlewyrchu anghenion y cymunedau: - Grŵp riant a phlentyn Caergybi - Gweithgareddau i deuluoedd / cymunedol yn defnyddio adnodd Selog (cymeriad & apiau Cymraeg di-dâl) - Grŵp theatr i blant a phobl ifanc yn Llangefni, Amlwch, Borth, Caergybi – Theatr Ieuencid Môn

60 Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, 2017. <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

61 Mudiad Meithrin, safle we cenedlaethol: <https://www.meithrin.cymru/>

62 Cymraeg i Blant Môn, gwepddalen: <https://www.facebook.com/Cymraeg-i-Blant-M%C3%B4n-168753560322375/>

63 Menter Iaith Môn, safle we: <https://www.mentermon.com/priosectau/menter-iaith-mon/>

		• Gwersi a sesiynau ukulele i blant cymunedol • Mentora bandiau Cymraeg newydd • Sesiynau cymunedol ar draws yr ynys, ar dechnoleg a chofnodi hanes lleol drwy WiciMôn • Sioe deuluol flynyddol yng Nghaergybi a Llangefni • Gŵyl Cefni gyda phwyllgor lleol yn Llangefni • Gorymdeithiau Gŵyl Dewi gyda chymunedau lleol Caergybi, Llangefni, Amlwch a Biwmares • Cyngerdd Gŵyl Dewi Caergybi gyda'r ysgol uwchradd a'r gymuned lleol • Clapio wyau cymunedol mewn 6 o bentrefi Môn adeg y Pasg • Dathliad pentref Calan Gaeaf gyda phwyllgor Neuadd Goffa Bodwrog • Dathliadau Nadolig gan gynnwys Siôn Corn Cymraeg • Sioeau theatr mewn lleoliadau amrywiol • Mewnbwn Cymraeg i ddigwyddiadau lleol eraill • Cynnal cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo digwyddiadau cymunedol Môn
Urdd Gobaith Cymru ⁶⁴	Plant, pobl ifanc & teuluoedd	Mudiad Cymraeg i'r ifanc gyda 3000 o aelodau. pobl ifanc yn cystadlu a chymdeithasu drwy ganu, actio, nofio, dawnsio, chwaraeon, teithio. Mae'r rhestr yn faith ond yn cynnwys: • Chwaraeon • Clybiau • Eisteddfodau • Tripiâu, gan gynnwys dramor • Digwyddiadau a chyngherddau • Trafodaethau ar faterion pwysig i'r ifanc • Cydweithio â phartneriaid megis trip teulu Glan-llyn gyda Menter Iaith Môn • Rhaeadru Neges Heddwch ag Ewyllys Da i'r byd Pwyllgorau yw asgwrn cefn y mudiad ym Môn ac mae llawer o wirfoddoli a chymdeithasu gan bobl o bob oed ynghlwm â gweithgareddau'r Urdd.
Mudiad Ffermwyr Ifanc Môn	Pobl ifanc	Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn parhau yn fudiad pwysig a phoblogaidd ym Môn. Mudiad aelodaeth i bobl ifanc 10-26 oed. Gweithredir yr holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg a cheir ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau, gan gynnwys: • cyfarfodydd i gymdeithasu • dysgu sgiliau • trefnu digwyddiadau • rali flynyddol • cystadlu mewn eisteddfodau • gigs
MônActif	Plant, teuluoedd, pobl ifanc, oedolion	Gwasanaeth canolfanau hamdden a chwaraeon y Cyngor Sir yw Môn Actif, ond yn ogystal â'r y ddarpariaeth arferol, gyda phwyslais cynyddol ar ddarpariaeth ddwyieithog, mae hefyd yn cynnal dyddiau hwyl i'r teulu. Chynhelir rhain yng nghanolfannau chwaraeon Borth, Llangefni, Amlwch a Caergybi a, chan gydweithio â darparwyr Cymraeg eraill, mae'n gyfle i deuluoedd fwynhau diwrnodau chwaraeon hwyliog a cherddoriaeth Cymraeg. Mae MônActif hefyd yn cefnogi digwyddiadau cymunedol mudiadau Cymraeg yr ynys.
Gwasanaeth Ieuenctid a Chlybiau Ieuenctid Ynys Môn	Pobl ifanc	Ceir rhwydwaith o swyddogion ieuenctid sy'n gweithredu'n ddwyieithog ac yn gysylltiedig â'r ysgolion Uwchradd yn Amlwch, Bodedern, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy. Ceir hefyd rhwydwaith o glybiau ieuenctid yn y gymuned. Mae'r gweithgareddau yn adlewyrchu diddordebau ag anghenion y pobl ifanc.
Merched y Wawr	Oedolion / merched	Mae Merched y Wawr yn fudiad Cymreig a Chymraeg sy'n rhoi'r cyfle i ferched i gymdeithasu trwy drefnu teithiau, cyngherddau a gweithgareddau. Gweler y cyswllt we ar gyfer y clybiau ar draws Môn gan gynnwys 2 Glwb Gwawr hefyd. Mae Merched y Wawr hefyd yn cyfrannu at ddigwyddiadau cymunedol ehangach e.e. Gorymdaith a Chyngerdd Gŵyl Dewi Caergybi. Roedd 393 o aelodau ym Môn 2019-20.
Capeli ac Eglwysi	Cymunedau	Mae Cymdeithasau Capeli ac Eglwysi Môn yn rhan o wead gweithgareddau cymunedol Cymraeg Môn. Maent yn weithgar yn trefnu nosweithiau i'r

64 Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn, safle we. <https://www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/ynys-mon/>

		gymdeithas leol, prynhawniau te a gweithgareddau codi arian amrywiol. Mae'r ysgolion Sul a chymanfaoedd hefyd yn cynnig cyfleoedd cymdeithasu. Maent hefyd yn aml yn gyfrifol am drefniant yr adeiladau a logir ar gyfer gweithgareddau cymunedol ehangach.
Cynghorau bro, cymuned a thref	Cymunedau	Parhau i weithredu drwy'r Gymraeg mae rhai cynghorau cymuned ym Môn, ac mae eu cyfarfodydd ar y cyd, drwy Bwyllgor Môn o Un Llais Cymru, yn gweithredu yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd. Mae'r cynghorau bellach wedi penodi 'Pencampwyr Iaith' i bob cymuned sy'n cynnig pwynt cyswllt i weithgareddau Cymraeg yn y gymuned ehangach. Mae ganddynt hefyd rôl i sicrhau fod y Gymraeg yn weledol yn eu cymunedau. Megis dechrau mae datblygu potensial y rôl bwysig.
Papurau Bro	Cymunedau	Mae 4 papur bro yn gwasanaethu dalgylchoedd Môn: <i>Yr Arwydd</i> , <i>Y Glorian</i> , <i>Y Rhwyd</i> , a <i>Papur Menai</i> . Mae'r papurau bro yn cynnig mewnwelediad pwysig i fwrwm y Gymraeg mewn gwahanol gymunedau ym Môn. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth eang am yr hyn sydd wedi ei gynnal yn y Gymraeg yn lleol, hysbysebion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill ac yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgolion, capeli, cymdeithasau a chynghorau tref a chymuned leol. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd cymdeithasu adeg plygu papurau neu drwy ddigwyddiadau codi arian. Mewn partneriaeth â Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, mi ellir cael detholiad o gynnwys y rhan fwyaf o'r papurau lleol wedi ei ddarllen gan wirfoddolwyr a'i recordio ar dâp.
Eisteddfodau, Gwyliau a Digwyddiadau Lleol	Plant, teuluoedd a chymunedau	• Caiff Eisteddfod Môn ei chynnal yn flynyddol mewn gwahanol ardaloedd ar hyd a lled yr Ynys. • Ceir eisteddfodau lleol hefyd megis: Eisteddfod Bodffordd, Eisteddfod Talwrn, Eisteddfod Llandegfan ag Eisteddfod Marian-glas. Mae Eisteddfod Ieuencid yn cael ei gynnal hefyd ym Marian-glas. • Ym Môn mae nifer cynyddol o wyliau amrywiol hefyd, rhai cyfrwng Cymraeg a rhai dwyieithog. Yn eu mysg, yn uniaith Gymraeg ac yn hyrwyddo cerddoriaeth ac adloniant Gymraeg, mae Gŵyl Cefni. • Ceir gwyliau a digwyddiadau chwaraeon a bwyd hefyd, gan amlaf yn ddwyieithog, megis Gŵyl Gerdded, Hanner Marathon, a Gŵyl Llymarch. • Sioe Môn yw prif ddigwyddiad yng nghalendr y gymuned amaethyddol ym Môn gyda 56,000 yn arfer mynychu. Mae gweithdrefnau'r pwyllgor yn ddwyieithog gyda llawer o ddarpariaeth Cymraeg ar y maes. Er nad yw'n uniaith Gymraeg, mae'n ganolbwynt cymdeithasu anffurfiol yn y Gymraeg i'r sector pwysicaf o ran canran siaradwyr Cymraeg.
Theatr Fach Llangefni	Cymunedau	Mae yma gyfleoedd cymdeithasu drwy weithgareddau actio yn ogystal â mynychu'r sioeau hwyliog Cymraeg. Mae hefyd yn gyrchfan i ddigwyddiadau amrywiol eraill yn y Gymraeg, megis Sioe Deian a Loli a 'Gŵyl y Ferch' gyda Menter Iaith Môn.
Côr Ieuencid Môn a chorau eraill	Pobl ifanc, oedolion	Mae Côr Ieuencid Môn yn cyfarfod yn wythnosol ac wedi adeiladu ar ei lwyddiant yn darparu cyfleoedd perfformio cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc. Mae'n gyfle cymdeithasu i'r plant a'r rhieni sy'n cefnogi. Yn ogystal ceir corau i oedolion gymdeithasu, megis: Côr Seiriol, Côr Meibion Caergybi, Côr Meibion Goronwy, Hogia Bodwrog, Côr Hogia Llanbobman, a Chôr Aelwyd yr Ynys. Yn eu tro mae'r corau hyn yn cyfrannu at ddigwyddiadau Cymraeg yn y cymunedau.
MônFM	Cymuned Môn	Gorsaf radio lleol a gynhelir gan wirfoddolwyr ac sy'n darlledu yn y Gymraeg a Saesneg gan anelu am gyfartaledd ieithyddol. Cyfraniad pwysig arall yw'r gefnogaeth i ddarlledu digwyddiadau yn y gymuned gydag uned ddarlledu allanol, gan gynnwys dathliadau bach mewn pentrefi a dathliadau mwy fel Sioe Môn, a dathliadau uniaith Gymraeg megis Gŵyl Cefni. Gwneir defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol hefyd gyda postiadau yn y ddwy iaith, gan gynnwys hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg fel Dydd Miwsig Cymru.
TeliMôn	Cymuned	Sianel deledu ddwyieithog ar-lein Môn. Ffocws cymunedol.
Clybiau llenyddol a chlybiau cinio	Oedolion	Ceir gwybodaeth am y clybiau llenyddol a chlybiau cinio ym mhob ardal yn y papurau bro. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfle i oedolion gwmnïa yn y Gymraeg ac i werthfawrogi cyfoeth ei diwylliant.

Cofiw'n nad tu ôl i ddrysau caeedig mae'r Gymraeg am ffynnu, a gwelir yn y ddarpariaeth ystod o weithgareddau sy'n gwneud y Gymraeg yn weledol yn y gymuned. "Yn draddodiadol rydym wedi meddwl am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol fel mater o ddarparu neu drefnu digwyddiadau. Er bod hyn yn rhan o'r darlun, nid yw'n adlewyrchu'n llawn sut mae pobl yn byw eu bywydau. Mewn llawer o achosion nid yw pobl yn aelodau o glybiau neu'n mynychu gweithgareddau ffurfiol yn gyson, gan eu bod yn tueddu i fod yn rhy brysur neu fod ganddynt flaenoriaethau eraill. Mae'r unigolion hyn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y stryd, mewn siopau ac wrth ddefnyddio gwasanaethau."⁶⁵

Mae ymdrechion ym Môn i sicrhau fod y Gymraeg yn fwy amlwg ar y stryd, ym myd busnes, a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Mae Cymraeg Busnes / Helo Blod⁶⁶ yn gynllun gan Lywodraeth Cymru, a weithredir yn lleol drwy Menter Iaith Môn, i godi proffil a defnydd y Gymraeg mewn busnesau.
- Siarter Iaith Gymraeg⁶⁷ ysgolion. Bu ysgolion, yn eu gweithgareddau estyn allan i'r gymuned, yn weithgar mewn rhai ardaloedd, megis Rhosneigr, yn annog busnesau i gynnwys mwy o Gymraeg yn eu harwyddion a'u gwasanaeth.
- Dathliadau stryd – yn gysylltiadau â'r gorymdeithiau Gŵyl Dewi. Bu ymgyrchoedd gan ysgolion ardaloedd Caergybi, Llangefni, Amlwch a Biwmares i gael y siopau yn y stryd fawr i adlewyrchu Cymreictod eu gorymdaith gydag arddangosfeydd ac arwyddion Cymraeg.
- Ceir cydweithio agos hefyd rhwng yr ysgolion a'r mudiadau Cymraeg i sicrhau presenoldeb yn eu gweithgareddau cymunedol, e.e. stondin a gweithgareddau i deuluoedd, neu ymweliadau gan Selog⁶⁸, Mr Urdd⁶⁹, neu Dewin⁷⁰.
- Gwneir defnydd o adnoddau gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg / Llywodraeth Cymru a dosberthir adnoddau Cymraeg megis bathodynau oren⁷¹ a lanyards er mwyn hwyluso dechrau sgysiau yn y Gymraeg.
- Dosberthir co' bach / cds gyda cherddoriaeth Cymraeg ar gyfer y siopau, bwytai a thafarndai lleol ar gyfer Dydd Miwsig Cymru⁷².
- Mae Menter Iaith Môn, a phartneriaid Cymraeg eraill, yn hyrwyddo dyddiau arbennig eraill i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned, megis Santes Dwynwen a Diwrnod Shwmae Su'mae⁷³.
- Ceir hefyd bresenoldeb cryf yn y Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig gan Gyngor Môn, yr Urdd, Clwb Ffermwyr Ifanc, Cymraeg i Blant, y Mudiad Meithrin, a Menter iaith Môn.
- Bu i Menter Iaith Môn, gydweithio ar brosiect peilot Llywodraeth Cymru i gynhyrchu llyfryn 'Croeso i'r Gymraeg'⁷⁴ i'w ddosbarthu i newydd-ddyfodiaid i'r ynys. Mae'r llyfryn yn cyfeirio at y Gymraeg a'r gwasanaethau o amgylch hyn, e.e. Dysgu Cymraeg. Bwriedir diweddarau'r llyfr a'i gynnig i werthwyr tai a'r Pencampwyr Iaith Lleol i'w dosbarthu i newydd-ddyfodiaid yn eu cymunedau.
- Yn gyfredol, ceir ymgyrch boblogaidd⁷⁵ i warchod enwau llefydd a thai Cymraeg Môn. Ceir pwysau ar Lywodraeth Cymru i gefnogi dyhead trigolion yr ynys am fwy o rym i warchod yr etifeddiaeth weledol hon yn enwau Cymraeg tai Môn.

Boed yna gyfyngiadau Covid-19 neu beidio, parhau mae'r nod, yn unol â Llywodraeth Cymru, am i Ynys Môn "sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol."⁷⁶

65 Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, 2017. <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

66 Gwasanaeth Cymraeg i fusnesau Helo Blod: <https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy>

67 Trosolwg o'r Siarter Iaith yn genedlaethol: <https://hwb.gov.wales/cwricwlm-i-gymru/siarter-iaith>

68 Selog yn cynnig apiau canu, darllen, ioga, a gweithgareddau awyr agored Cymraeg

<https://twitter.com/selogap?lang=en>

69 https://cy.wikipedia.org/wiki/Mistar_Urdd

70 <https://www.meithrin.cymru/clwb-dewin/>

71 Cefndir y bathodyn oren 'Cymraeg': <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/54977436>

72 Dydd Miwsig Cymru, Llywodraeth Cymru. https://llyw.cymru/dydd-miwsig-cymru?_ga=2.28387388.1263681225.1613487437-55838415.1565101969

73 Diwrnod Shwmae Su'mae: https://llyw.cymru/dydd-miwsig-cymru?_ga=2.28387388.1263681225.1613487437-55838415.1565101969

74 Llyfryn 'Croeso i'r Gymraeg', Llywodraeth Cymru / Menter iaith Môn. <https://llyw.cymru/croeso-i-gymru-croeso-ir-gymraeg>

75 Esiampol o erthygl ar fater enwau tai Cymraeg, BBCCymruFyw 2020, <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/51025277>

76 Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, 2017. <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

5. Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol

Gall dadlau fod presenoldeb a defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol yn sail i barhad yr iaith ar lefel ehangach. Mae'n hanfodol felly asesu sefyllfa sy'n wynebu ein cymunedau wrth gynllunio ymlaen. Wrth drafod y cyfleoedd, neu'r diffyg cyfleoedd yng nghyd-destun effeithiau Covid-19, mae'n deg cydnabod y grwpiau hynny sy'n flaenllaw yn y maes yma er mwyn deall y darlun llawn.

Mae grwpiau a sefydliadau yn cyfrannu at ddefnydd o'r iaith yn gymunedol, a hynny trwy gynnal digwyddiadau a chyfleoedd yn gymunedol yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Urdd, Merched y Wawr, a'r Ffermwyr Ifanc yn enghreifftiau sy'n gweithredu'n genedlaethol ochr yn ochr â gweithredu ar lawr gwlad fel y Fenter Iaith. Yn lleol i Fôn yn ogystal, mae sefydliad ymbarél y sector gwirfoddol, Medrwn Môn mewn sefyllfa werthfawr a hollbwysig i hybu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol.

Gwyddwn fod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn un o dair thema strategol Cymraeg 2050, ac yn sgil hynny, cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg⁷⁷. Afraid nodi fod y pandemig wedi effeithio ar ein ffordd o fyw ym Môn, a thrawsnewid sawl agwedd ar fywyd bob dydd. Yn anochel felly, mae wedi, ac yn parhau i, effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a chymunedol. Ar alwad Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd Arolwg o'r grwpiau cymunedol ym Môn sy'n cynnig cyfleoedd i bobl gymdeithasu yn Gymraeg, mewn ymgais i ddeall effaith y pandemig ar y defnydd cymunedol o'r Gymraeg. A ganlyn, rhennir y mewnwelediad i ganlyniad yr Arolwg.

Yr Arolwg

Mae'n ddyletswydd i unrhyw Fenter Iaith ddarparu cyfleoedd a phrofiadau sy'n annog trigolion eu hardal i arddel y Gymraeg yn hyderus a balch, yn bennaf yn eu cymunedau. Pwrpas unrhyw Fenter yw galluogi unigolion i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol, a sicrhau cyfleoedd cyfartal, o ba bynnag gefndir, i ddefnyddio'r iaith. Mae gan rwydwaith Mentrau Iaith Cymru⁷⁸ gysylltiad cadarn gyda grwpiau cymunedol ar lawr gwlad, ac felly gofynnwyd i'r 22 fenter iaith lunio rhestr o'r holl grwpiau yr oeddent yn eu hadnabod yn eu hardaloedd, a dosbarthu'r arolwg ar-lein.

Ym Môn, cafodd yr holiadur ei gwblhau gan bob math o sefydliadau, pwyllgorau, papurau, clybiau, aelwydydd, corau a grwpiau cymunedol eraill a oedd/sydd yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut yr oedd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, ddiwedd mis Mawrth 2020, a'r cyfyngiadau dilynol, wedi effeithio arnynt; i ba raddau y gwnaethant addasu eu gweithgareddau a sut, a beth oedd eu bwriadau ar gyfer y dyfodol.

Cafeatau


Nid wyddom faint yn union o grwpiau cymunedol sy'n gweithredu yn Gymraeg yng Nghymru, nac y chwaith ym Môn. Fodd bynnag, bu i rwydwaith Mentrau Iaith Cymru adnabod 2,806 ohonynt. Drwy ddefnyddio rhai ffynonellau ychwanegol, sy'n dangos mathau o grwpiau cymunedol (e.e. data gweinyddol a gesglir gan Lywodraeth Cymru), mae Llywodraeth Cymru yn tybio bod y gwir nifer o grwpiau cymunedol yn genedlaethol o leiaf ychydig o gannoedd yn uwch eto. Llwyddodd Menter Iaith Môn i adnabod 184 o grwpiau yn weithredol ar yr ynys, heb honi eu bod wedi adnabod pob un.

Derbyniwyd 1,092 o ymatebion i'r arolwg hwn yn genedlaethol, a 75 o'r ymatebion o Fôn. Mae cyfraniad Môn felly yn 6.9% o holl ymatebion yr Arolwg. Gall hyn awgrymu dealltwriaeth grwpiau cymunedol Môn, a ymatebodd, o bwysigrwydd eu cyfraniad i barhad a chynhaliad i'r iaith Gymraeg. O ystyried y data yn siart 11 o ymatebion Môn, ceir awgrym efallai hefyd fod ymateb parotach wedi'i weld o'r grwpiau sy'n darparu ar gyfer oedolion hynach ein cymuned, tra bod y grwpiau sy'n cynnwys mwy o'r to ifanc heb gynrychiolaeth cystal yn y sampl data.

⁷⁷ Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

⁷⁸ Cyflwyniad i rwydwaith Mentrau Iaith Cymru yn genedlaethol: <https://www.mentrauiath.cymru/>

Siart 11. Ymateb grŵpiau Môn 2020: Beth yw oedran cyffredinol y gwirfoddolwyr sy'n trefnu a chynnal eich grŵp?



Ffynhonnell: Menter Iaith Môn o ddata Llywodraeth Cymru⁷⁹

Noder y pwyntiau a ganlyn fel cafeatau wrth ystyried data'r Arolwg:


- Arolwg i'w hunan-lenwi oedd hwn. Mae'n bosibl bod dau grŵp sy'n debyg iawn eu natur wedi categorïddio eu hunain fel gwahanol fathau o grwpiau.
- Mae'n bosibl mai barn yr unigolion a gwblhaodd yr Arolwg hwn yn unig a geir yn yr ymatebion, yn hytrach na barn y grwpiau yn eu cyfanrwydd. Mae'n debygol bod yr unigolion sydd wedi cwblhau'r Arolwg hwn efallai yn ymwneud yn fwy â'u grŵp nag aelodau eraill o'r grŵp. Oherwydd hynny mae'n bosibl bod ganddynt farn wahanol am ddyfodol y grŵp neu lwyddiant eu gweithredu yn ystod y cyfnod hwn.
- Ymddengys bod rhai mathau o grwpiau wedi bod yn fwy tebygol nag eraill i ymateb i'r Arolwg. Mae'n bosibl hefyd bod y grwpiau cymunedol sydd wedi ymateb i'r Arolwg yn wahanol i'r grwpiau sydd heb ymateb.
- Dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr Arolwg felly gael eu hystyried fel arwyddion o beth allai fod yn digwydd i'r grwpiau cymunedol yn y cyfnod hwn yn hytrach nag fel canfyddiadau pendant.
- Mae'n bwysig nodi'r ystyriaethau canlynol ynghylch y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r blychau testun rhydd:
 - Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar wybodaeth y gwnaeth ymatebwyr ddewis ei rhoi.
 - Nid yw'n bosibl gwybod mwy am brofiadau'r rhai na gynigiodd wybodaeth ychwanegol o gwbl, ac nid oes ffordd o wybod am brofiadau eraill y rhai a gynigiodd wybodaeth. Hynny yw, mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig i'r hyn y dewisodd rhai ymatebwyr ei rannu am faterion penodol.
 - Mae angen ystyried hefyd y posibilrwydd bod amgylchiadau arbennig wedi peri i ymatebwyr gynnig (neu beidio â chynnig) gwybodaeth ychwanegol. Er enghraifft, gallai rhai ymatebwyr fod wedi teimlo awydd i rannu profiadau cadarnhaol neu negyddol yn unig.

Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr Arolwg gael eu hystyried fel arwyddion o'r hyn a allai fod yn digwydd i'r grwpiau cymunedol yn ystod y cyfnod dan sylw, yn hytrach nag fel darlun cyflawn a phendant. Nid yw'r dystiolaeth ategol a geir drwy'r blychau testun rhydd o anghenraid yn cynnig darlun cyflawn na chytbwys o brofiadau'r grwpiau a gyfrannodd at yr Arolwg, ond mae'n ychwanegu at yr wybodaeth a geir drwy'r dystiolaeth feintiol.

⁷⁹ 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf> (data a rannwyd yn benodol â Menter Iaith Môn)

Dadansoddiad o'r data

Siart 12. Ble mae'r grwpiau cymunedol Cymraeg wedi'u lleoli



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁸⁰

Mae pedair sir yng Nghymru yn cael eu hystyried fel cadarnleoedd y Gymraeg: Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Fodd bynnag, nid yw Môn wedi ymddangos yn yr un modd ar dair sir arall wrth ddadansoddi iaith y grwpiau cymunedol (gweler siart 12). Ceredigion, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin a nododd y nifer uchaf o grwpiau cymunedol Cymraeg, lle mae Ynys Môn i'w gweld yn yr wythfed safle.

Fel sydd wedi awgrymu eisoes, mae'n bosib ac yn debygol iawn nad oes cynrychiolaeth lawn o grwpiau cymunedol sy'n bodoli wedi cymryd rhan yr arolwg. Mae posib felly bod y ffigur hwn yn uwch ym Môn, ond wrth reswm mae hyn yn wir i bob sir. Mae'r canlyniad hwn yn dangos nad yw grwpiau cymunedol ym Môn yn adlewyrchu statws y famiaith ar yr Ynys, yn yr un modd â'r tair sir arall. Gall hyn awgrymu fod angen mwy o waith i gefnogi ac annog y grwpiau yma i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.


Niferoedd yn mynychu cyn Mis Mawrth 2020, a sut maent wedi gweithredu ers hynny

Mae'n bwysig ystyried trywydd y grwpiau cymunedol cyn dyfodiad Covid-19 er mwyn ystyried gwir effaith y pandemig ar eu dyfodol (gweler siart 13 ar gyfer data Cymru-gyfan). O'r 75 grŵp wnaeth ymateb i'r arolwg ym Môn, dim ond 4 oedd yn nodi fod eu niferoedd wedi gostwng ychydig, neu yn sylweddol dros y ddwy flynedd cyn y pandemig. Mae hyn yn golygu fod 71 grŵp cymunedol ym Môn yn gweld cynnydd yn y niferoedd oedd yn rhan o'r grŵp, oedd yn argoeli'n dda i weithgarwch

⁸⁰ 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>

cymunedol y sir cyn y cyfnod clo. Dengys siart 14 y math o weithgareddau a gynhaliwyd gan y 75 grŵp ym Môn.


Siart 13: Cymru cyn Covid-19. Niferoedd sy'n rhan o'r grwpiau yn ôl math o grŵp



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁸¹

81 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>


Siart 14. Ymateb grŵpiau Môn 2020: Beth oedd y prif weithgareddau yr oedd eich grŵp yn eu cynnal cyn y cyfnod clo (cyn mis Mawrth 2020)?



Ffynhonnell: Menter Iaith Môn o ddata Llywodraeth Cymru⁸²

Fodd bynnag, dengys canlyniadau'r Arolwg ym Môn mai ychydig iawn o grwpiau sydd wedi llwyddo i addasu o dan gyfyngiadau Covid-19, ac felly golyga nad yw'r gweddill wedi medru gweithredu fel arfer (gweler siart 15). Mae hyn felly yn golygu bwlch yn y ddarpariaeth oedd yn arfer bod, gan gofio fod nifer helaeth o'r grwpiau ym Môn wedi datgan eu bod yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Siart 15. Ymateb grŵpiau Môn 2020: Gan feddwl am eich grŵp yn ei gyfanrwydd, sut mae eich grŵp wedi gweithredu ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020)?




Ffynhonnell: Menter Iaith Môn o ddata Llywodraeth Cymru⁸³

82 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf> (data a rannwyd yn benodol â Menter Iaith Môn)

83 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf> (data a rannwyd yn benodol â Menter Iaith Môn)

Er bod niferoedd wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, nid oes pendantrwydd mai hyn fydd yr achos yn dilyn y cyfnod clo. Awgrymwn gall hyn fod oherwydd rhesymau amrywiol yn dilyn effeithiau Covid-19; blaenoriaethau ac amgylchiadau'r mynychwyr wedi newid, momentwm y grŵp wedi arafu, cysylltiad y mynychwyr gyda'i gilydd wedi gwanhau, pryder ynglŷn ag ail ddechrau gweithgarwch cymunedol, arferion pobl wedi addasu ac ymsefydlu. Dengys siart 16 rhai o'r rhesymau a roddwyd gan grwpiau Môn am y cyfyngu ar weithgareddau. Mae'n rhaid ystyried y gall defnydd o'r Gymraeg leihau yn sylweddol yn sgil y newidiadau yma, oherwydd diffyg cyfleoedd i'w defnyddio. Rhagdybiaethau yw'r rhain wrth gwrs, ac mae'n ddigon posib y bydd y grwpiau cymunedol, a'r Gymraeg, yn dangos gwytnwch aruthrol, gyda mynychwyr yn parhau i ymrwymo a'r niferoedd yn parhau i godi. Gall gweithgarwch cymunedol fod yn bwysicach nag erioed yn dilyn y cyfnod clo, ac mae posib y byddwn fel cymdeithas yn teimlo gwerth na deimlwyd o'r blaen, cyn Mis Mawrth 2020.

Siart 16. Ymateb grwpiau Môn 2020: Beth oedd y rheswm NA wnaethoch chi gario ymlaen i weithredu mewn rhyw ffordd wedi i'r cyfnod clo ddechrau?




Ffynhonnell: Menter Iaith Môn o ddata Llywodraeth Cymru⁸⁴

Gan fod yna cafeatau yn perthyn i'r data, yn enwedig i'r sampl cymharol fychan o Fôn, cawn fewnwelediad pellach o ystyried y data cenedlaethol. Mae siart 17 yn dangos sut mae grwpiau dros Gymru wedi gweithredu yn ystod y clo, sydd mewn gwirionedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ym Môn. Sylwer ar yr effaith sylweddol ar y celfyddydau: yr eisteddfodau, y gwyliau, a grwpiau cerddoriaeth a pherfformio. Yn ogystal, mae Siart 18 yn datgelu mwy am sut mae gwahanol fathau o grwpiau wedi medru gweithredu yn ystod y cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi hynny. Daw agweddau sy'n effeithio'r ifanc i frig y rhestr megis eisteddfodau, gwyliau a gweithgareddau'r Urdd.

⁸⁴ 'Efaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf> (data a rannwyd yn benodol â Menter Iaith Môn)

Siart 17. Cymru 2020: Sut y cynhaliwyd y gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, yn ôl math o weithgaredd


- Heb gynnal y gweithgaredd ers dechrau'r cyfnod clo
- Wedi atal y gweithgaredd ar ddechrau'r cyfnod clo, ond wedi ei aildechrau
- Wedi addasu'r gweithgaredd i'w gynnal ar-lein
- Wedi addasu i'w gynnal ar-lein ar ddechrau'r cyfnod clo, ond wedi aildechrau yn ein dull arferol
- Wedi addasu'r gweithgaredd, yn sgil Covid-19 ond heb fod ar-lein
- Wedi cynnal y gweithgaredd fel arfer



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁸⁵

85 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>

Siart 18. Cymru 2020: Sut mae'r grwpiau wedi gweithredu yn y cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi hynny, yn ôl math o grŵp



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁸⁶

Dengys data'r Arolwg lleol nad yw nifer helaeth o grwpiau cymunedol Môn wedi cyfarfod/gweithredu yn ystod y cyfnod hwn. Dim ond nifer bach sydd wedi datgelu eu bod wedi gallu addasu. Roedd llawer yn datgan eu bod wedi ceisio cadw mewn cysylltiad sy'n adlewyrchu sefyllfa'n genedlaethol. Ond, nodwyd sylw gan sawl grŵp ym Môn fod cysylltiad i'r we yn peri trafferthion i aelodau/mynychwyr i barhau â gweithgareddau'r grŵp. Gellir dadlau nad yw'r ffactor yma yn chwarae rhan mor ddylanwadol mewn rhannau eraill o'r wlad. Gwyddwn fod cysylltiad i'r we, ei gyflymder a'i safon yn is mewn ardaloedd gwledig. Mewn cyfnod lle rydym yn dibynnu'n eithriadol ar gysylltiad digidol, gellir dadlau fod **cysylltiad sefydlog i'r we yn hanfodol ar gyfer unrhyw ardal yng Nghymru, os am sicrhau parhad i weithgarwch cymunedol digidol drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Os am ddeall sut mae'r pandemig wedi effeithio'r grwpiau cymunedol yn gyffredinol, rhaid rhoi ystyriaeth deilwng i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Rhoddwyd cyfle iddynt fynegi eu barn a'u profiadau. Dyma rhai o'r enghreifftiau a gafwyd eu hamlygu trwy'r arolwg hwn ym Môn:


⁸⁶ 'Efaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>

- "Gan bod rhai disgyblion ddim wedi ymgymryd gyda'r gwersi ar-lein, mae nifer wedi rhoi'r gorau i gael gwersi offerynnol/llais yn yr ysgol."
- "Wedi colli cyswllt gyda'i gilydd."
- "Dysgwyr o fewn y grŵp heb gael y cyfle i ddefnyddio a chlywed y Gymraeg."
- "Mae wedi bod yn anodd cynnal y momentwm ymysg aelodau yn ystod y cyfnod clo. Lle bynnag posib, rydym wedi ceisio addasu ein gweithgareddau i fod ar-lein, ond nodir ei fod yn anodd i nifer o aelodau ymuno ar digwyddiadau yma oherwydd cyfyngiadau sy'n ymwneud a chyflymder eu rhyngrwyd a'r adnoddau sydd gennynt."
- "Methu cyfarfod gan fod y Neuadd Goffa - y man cyfarfod - ar gau. Dim cyfle i ymarfer nac i berfformio."
- "Dim cyfarfodydd a dim cymdeithasu."
- "Nid pawb sydd wedi medru ymuno â'r dosbarthiadau ar lein ac felly rydym wedi colli nifer o'r dysgwyr oedd yn mynychu'n rheolaidd pan oedd y dysgu wyneb i wyneb"
- "Mae COVID wedi dangos pa mor gryf ydi'r gymdeithas ac wedi rhoi cyfle i ni dreialu pethau newydd. Ond fyddai dim o hyn yn bosibl heb gefnogaeth ein gwirfoddolwyr."
- "Rydym wedi bod yn cadw mewn cyswllt â'n cynulleidfâ a'n haelodau trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Nid ydym yn gallu parhau â'n gweithdai blant a phobl ifanc nac yn gallu cynnal unrhyw ddigwyddiadau ar hyn o bryd. Mae'r grŵp wedi cael ei heffeithio'n fawr ers dechrau'r cyfnod clo gan nad ydym yn derbyn unrhyw incwm sefydlog ac rydym yn bryderus iawn am ein dyfodol petai'r sefyllfa sydd ohoni yn parhau am fisoedd lawer eto. Mae'n gyfnod ansicr tu hwnt inni."

Mae'r uchod yn cynnig trosolwg o'r hyn oedd yn cael ei leisio. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau yn cyfleu diffyg cysylltiad, momentwm a chymhelliant i weithredu o dan yr amgylchiadau cyfredol. Mae posib cysylltu pob un o'r sylwadau uchod gyda'r Gymraeg e.e. "*Dim cyfarfodydd a dim cymdeithasu.*" Er mor syml yw'r sylw yma, mae'n dweud cyfrolau am y grwpiau hynny oedd yn cyfarfod ac yn cymdeithasu yn ddyddiol, wythnosol neu'n fisol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn syml, nid yw hynny wedi digwydd dros y misoedd diwethaf. Mae'r sylw "*Dysgwyr o fewn y grŵp heb gael y cyfle i ddefnyddio a chlywed y Gymraeg*" yn sylw pwysig. Mae'n debygol fod sawl dysgwr yn y sefyllfa yma, wedi colli cyfleoedd i glywed, arbrofi ac ymarfer y Gymraeg yn gymdeithasol. Yn aml iawn, gall diffyg fel hyn arwain at ddiffyg hyder o ganlyniad. Fodd bynnag, nid dysgwyr yn unig sydd yn wynebu'r sefyllfa. Gellir honni fod canran uchel o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn dibynnu ar weithgareddau cymdeithasol, anffurfiol yn ogystal, i feithrin a chynnal eu hyder yn siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Gwêl rhai grwpiau ddyfodol llwm iawn os yw'r cyfyngiadau yn parhau. Yn siart 19 dengys y grwpiau eu rhagolygon os yw'r cyfyngiadau wedi codi ymhén blwyddyn i'r arolwg a gynhaliwyd Medi/Hydref 2020. Sylwer fod Mudiad y Ffermwyr Ifanc ar frig y siart. Fodd bynnag, yn siart 20 mae'r grwpiau yn rhannu eu disgwyliadau o barhau mewn bodolaeth ymhén blwyddyn os yw'r cyfyngiadau yn parhau. Sylwer mai'r grwpiau sy'n lleiaf hyderus i ymateb 'tebygol iawn' yw mudiadau'r Ffermwyr ifanc a'r Urdd, ac yn cadw cwmni agos iddynt mae grwpiau perfformio a cherddoriaeth, yn ogystal â grwpiau ieuenctid ac i blant. O ystyried yr effaith mae Covid-19 eisoes wedi ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i gymdeithasu ym myd Addysg, gall effaith posib crebachu ar ddarpariaeth y Gymraeg i'r ifanc yn y gymuned fod yn ergyd drom i ddefnydd y Gymraeg ym Môn.


Siart 19. Cymru 2020: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁸⁷

87 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>

Siart 20. Cymru 2020: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁸⁸

Datgelir yng nghanlyniadau Arolwg Llywodraeth Cymru⁸⁹, a data a gynhelir dan amodau Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gan Menter Iaith Môn, faterion sydd angen blaenoriaethu o ran cynnal y Gymraeg yng Nghymunedau Môn.

- Y galw am well adnabyddiaeth o'r grwpiau sy'n cynnal y Gymraeg ym Môn.
- Amlygu bod ffactorau ehangach, megis mynediad i'r we, yn effeithio gallu'r gymuned i gymdeithasu yn y Gymraeg.
- Y galw i gefnogi'r grwpiau i addasu i heriau unrhyw gyfyngiadau sydd am barhau, er mwyn diogelu dyfodol y cyfleoedd cymdeithasu yn y Gymraeg.
- Amlygu i ddyrannwyr grantiau yn lleol ac yn genedlaethol faint o effaith mae Covid-19 wedi ei gael ar ystod ein grwpiau cymunedol, a'r cymorth sydd ei angen arnynt i adfer y bwrlwm a fu.
- Pwysleisio yn arbennig y bygythiad i ddyfodol y grwpiau aelodaeth sy'n darparu cyfleoedd i'r ifanc o bob cefndir yn y Gymraeg, megis yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, a phrosiectau perfformio Menter Iaith Môn.
- Adnabod y bygythiad i ddarpariaeth gymunedol sy'n arf pwysig i sicrhau cyfle cyfartal gan alluogi'r di-Gymraeg i dderbyn cyfleoedd trochi yn y Gymraeg e.e. grwpiau i blant a theuluoedd.

⁸⁸ 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>


⁸⁹ 'Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg', Llywodraeth Cymru, 2020:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg.pdf>

6. Trosglwyddo iaith yn y cartref

Mae trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall yn cael ei ystyried yn un o'r ddau faes pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol, ynghyd ag Addysg (Adran 7). "Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl."⁹⁰ Dengys data yn siart 21 faint o gyfraniad gall trosglwyddo iaith yn y cartref wneud i baratoi plant i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Ble trosglwyddwyd y Gymraeg yn y cartref, erys 80% yn rhugl, i'w gymharu â 8% yn unig o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae manteision trosglwyddo Cymraeg yn y cartref yn berffaith eglur o'i gyflwyno fel hyn ar ffurf data. Mewn ardal â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, amlyga'r siart mai trosglwyddo iaith yw'r her a'r cyfle pwysicaf i ni ym Môn, os am weld y Gymraeg yn parhau fel iaith sy'n cael ei defnyddio'n naturiol yn ein cymunedau.

Siart 21. Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg



Ffynhonnell: Siart o 'Dogfen Ymgynghori - Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd', Llywodraeth Cymru, yn defnyddio data o 'Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15'

Ers proffil iaith Môn 2014, bu datblygiadau newydd ym maes Trosglwyddo iaith gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn ymchwil gan Brifysgol Caerdydd⁹¹, ac ymgynghoriad yn 2020⁹², lansiwyd 'Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd'⁹³ a drafodir ymhellach yn yr Adran. Yn gyntaf cyflwynwn y data meintiol o Gyfrifiad 2001 a 2011 i osod y cyd-destun o drosglwyddo iaith yn y cartref ym Môn. Ceir yma mewnwelediad i'r heriau, yn bennaf fod nifer o siaradwyr Cymraeg Môn heb drosglwyddo mantais y sgiliau ieithyddol Cymraeg i'w plant yn y

90 Iaith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012–17, Llywodraeth Cymru, tudalen 25:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-iaith-fyw-iaith-byw.pdf>

91 Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd; Jeremy Evas, Jonathan Morris a Lorraine Whitmarsh, Prifysgol Caerdydd, 2017: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

92 Dogfen Ymgynghoriol Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd, 2020:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-02/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddo'r-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd-dogfen-ymgyngori.pdf>

93 Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd, Llywodraeth Cymru, 2021:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddo'r-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf>

cartref. Nid yw'r her yn un anorchfygol, gan fod rhieni, o ddeall y manteision trosglwyddo iaith yn y cartref, gan amlaf am sicrhau'r cyfle gorau i'w plant. Felly, mae polisi newydd a momentwm gan Lywodraeth Cymru yn gyfle i fynd i'r afael a rhai o'r materion strategol yn ymwneud a throsglwyddo iaith yn y cartref ym Môn ac yn genedlaethol.

Data'r Cyfrifiad ar drosglwyddo iaith

Mae tabl 13 yn dangos canlyniadau allweddol o ran trosglwyddo'r iaith yn y cartref o edrych ar ddata sydd ar gael o Gyfrifiad 2011 a 2001. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar aelwydydd un teulu sydd â phlant 3-4 mlwydd oed ac mae'r raddfa drosglwyddo yn cael ei ddiffinio fel y gyfran o blant 3-4 mlwydd oed mewn teulu sydd yn gallu siarad Cymraeg.

Ceir corff o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y Gymraeg yn llai tebygol o gael ei defnyddio o fewn teuluoedd lle nad yw ond un oedolyn yn siarad Cymraeg, ac mae'r data yn nhabl 13 yn cefnogi'r awgrym yma.

Tabl 13. Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg, 2001 & 2011

Aelwydydd un teulu â phlant 3-4 oed	Ynys Môn		Cymru	
	2001	2011	2001	2011
Pâr - Dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	79.0%	80.1%	82.0%	82.2%
Pâr - Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	49.1%	47.5%	39.9%	45.4%
Pâr - Dim oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	15.5%	20.6%	8.6%	13.2%
Un rhiant - Oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	69.8%	60.8%	55.3%	53.3%
Un rhiant - Oedolyn ddim yn gallu siarad Cymraeg	25.2%	25.4%	9.8%	14.4%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 -C0156; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2601WA

Mae'r ystadegau yn nhabl 13 yn dangos bod y gyfradd drosglwyddo ym Môn ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, wedi cynyddu o 79.0% yn 2001 i 80.1% yn 2011. Ar gyfer Cymru gyfan bu i'r gyfradd drosglwyddo aros yn sefydlog ar oddeutu 82%.


Ym Môn, mae'r gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, wedi gostwng o 49.1% yn 2001 i 47.5% yn 2011. I'r gwrthwyneb mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd o 39.9% yn 2001 i 45.4% yn 2011.

Ers 2001 gwelwyd dirywiad ym Môn a Chymru gyfan o ran y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant lle gallai'r oedolyn siarad Cymraeg. Bu i Ynys Môn weld dirywiad o gyfradd o 69.8% yn 2001 i 60.8% yn 2011.

Cawn olwg bellach ar gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg wrth edrych ar y sefyllfa mewn gwahanol rannau o'r ynys. Mae'r ffigurau am allu plant 3-4 sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael fesul ward yng Nghyfrifiad 2011. Mae'r rhain yn dangos amrywiaeth mawr drwy'r ynys, yn enwedig rhwng y ddwy brif dref, Caergybi (siartiau 22 a 23) a Llangefni (siartiau 23 a 24).


Yng Nghaergybi, dim ond 15% o blant sy'n dod o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, a 12% yn blant i riant sengl sy'n siarad Cymraeg (siart 22). Dengys siart 23 y niferoedd y plant sy'n gallu siarad Cymraeg ochr yn ochr â'r cyfanswm ym mhob grŵp. Hyd yn oed mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg yng Nghaergybi, dim ond 54% o'r plant 3-4 oed sy'n gallu'r iaith. Mae'r gyfran yn gostwng i 33% mewn cartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg, a 32% lle mae rhiant sengl yn siarad Cymraeg. Rhwng pawb, ychydig dros chwarter plant 3-4 oed yng Nghaergybi oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011.

Siart 22. Mewn canrannau, gallu rhieni plant 3-4 oed i siarad Cymraeg – Caergybi, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones o ddata Cyfrifiad 2011


Siart 23. Niferoedd y plant 3-4 oed sy'n gallu i siarad Cymraeg yn ôl cefndir iaith y cartref – Caergybi, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones o ddata Cyfrifiad 2011


Mae'r sefyllfa'n wahanol iawn yn ardal Llangefni. Yma daw 55% o'r plant o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg a 18% arall o gartrefi gyda rhiant sengl sy'n gallu siarad Cymraeg (siart 24). Mae 90% o blant 3-4 oed o gartrefi lle mae dau riant yn siarad Cymraeg yn gallu siarad Cymraeg, a 70% o blant o gartrefi gyda rhiant sengl sy'n siarad Cymraeg. Yn adlewyrchu patrwm ehangach mewn cartrefi pêr ble mae un rhiant yn medru siarad Cymraeg, er mai sampl bach sydd yma, dim ond 14% o deuluoedd, ers y ffaith fod lai na hanner y plant yn y teuluoedd hyn yn medru'r Gymraeg oed 3-4 yn arwyddocaol ar gyfer strategaeth cynyddu trosglwyddiad iaith yn y teulu.

Siart 24. Mewn canrannau, gallu rhieni plant 3-4 oed i siarad Cymraeg – Llangefni, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones o ddata Cyfrifiad 2011

Siart 25. Niferoedd y plant 3-4 oed sy'n gallu i siarad Cymraeg yn ôl cefndir iaith y cartref – Llangefni, 2011



Ffynhonnell: Huw Prys Jones o ddata Cyfrifiad 2011

Ymchwil a pholisi trosglwyddo iaith

Dengys ymchwil 'Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd'⁹⁴ y ceir mewnwelediad pellach o wahanu'r data rhwng oed 3 a 4, gweler tabl 14. Gyda'r ddarpariaeth blyneddodd cynnar, a mwy o gyfleoedd trochi yn y Gymraeg erbyn i'r plentyn gyrraedd 4 oed, data ar gyfer y plant 3 oed sy'n datgelu'r mwyaf am batrwm trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

Ar gyfer pob math o gartref gwelir gwahaniaeth arwyddocaol rhwng gallu siarad Cymraeg plant 3 oed a phlant 4 oed, gyda dim ond 48.6% o blant 3 oed, o bob categori cartref, yn medru siarad y Gymraeg, o'i gymharu â 59.4% o'r plant 4 oed. Mae'r data yn cyfleu sefyllfa heriol: yng ngartrefi pâr Môn, lle mae dim ond un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, dim ond 38.1% o blant 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg. Hyd yn oed lle mae'r ddau oedolyn yn siarad Cymraeg, y ffigwr cyfatebol ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg i blant 3 oed yw 76.7%. Golyga hyn nad yw'r iaith yn cael ei drosglwyddo i'r plentyn mewn bron i chwarter y cartrefi ble mae dau riant yn medru siarad Cymraeg. Cyfyd cwestiynau elfennol am effeithiolrwydd cyfathrebu negeseuon i rieni am fanteision trosglwyddo'r Gymraeg a'r manteision fydd yn dilyn o ruglder dwyieithog⁹⁵.

Mewn sefyllfaoedd ble nad oes oedolyn yn gallu siarad Cymraeg yn y cartref, dengys tabl 14 fod canran uwch yn medru siarad Cymraeg mewn cartref rhiant sengl nag mewn cartref pâr. Dim ond 25.8% o'r plant o gartrefi pâr all siarad Cymraeg erbyn cyrraedd 4 oed ond mae 30.8% o'r plant o gartrefi rhiant sengl wedi caffael yr iaith. Gall hyn o bosib adlewyrchu ar rwydweithiau gwarchod y rhieni sengl di-Gymraeg ar gyfer eu plant 3 oed a'r ddarpariaeth trochi Cymraeg yn y blyneddodd cynnar erbyn 4 oed.

Tabl 14. Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref ym Môn, yn ôl plant 3 oed a 4 oed

Math o gartref	Cyfansoddiad y cartref	Canran sy'n gallu siarad Cymraeg %	
		3 oed	4 oed
Pob categori		48.6	59.4
Pâr	Dim oedolion yn gallu siarad Cymraeg	16.1	25.8
	Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	38.1	57.8
	Dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg	76.7	84.2
	<i>Cyfanswm</i>	50.7	61.8
Rhiant unigol	Dim oedolion yn gallu siarad Cymraeg	19.3	30.8
	Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	53.7	65.9
	Dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg	66.7	75
	<i>Cyfanswm</i>	38.6	51.9

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl CT0271

Yn ganolog i'r ystyriaethau, mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni/gofalwyr ynghylch trosglwyddo iaith. Dengys ymchwil 'Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Ddefnydd mewn Teuluoedd' fod llawer na wyddom am gymhelliant rhieni⁹⁶. Ond dengys y data yn nhabl 14 nad oes amser chwaith i oedi ond yn hytrach i weithredu ar yr hyn y gwyddom eisoes. Mae arweiniad yn yr ymchwil i ddehongli pam mai dim ond 38.1% o blant mewn cartrefi pâr, ble mae un oedolyn yn unig

94 Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd; Jeremy Evas, Jonathan Morris a Lorraine Whitmarsh, Prifysgol Caerdydd, 2017: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

95 Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd; Jeremy Evas, Jonathan Morris a Lorraine Whitmarsh, Prifysgol Caerdydd, 2017: tud 132. "Nid yw'n glir ychwaith sut mae rhieni'n gweld eu rôl eu hunain yn natblygiad ieithyddol eu plentyn." <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

96 "Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (gan gynnwys mentrau cymunedol a noddur gan Lywodraeth Cymru) yn mynd ati mewn modd systematig i gasglu data demograffig ac ieithyddol am rieni a darpar rieni yng Nghymru. Dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio ar gyfer ymchwil ddemograffig a dosbarthu targedu a gwybodaeth berthnasol ar weithgareddau hyrwyddo iaith i grwpiau penodol o siaradwyr Cymraeg" Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd; Jeremy Evas, Jonathan Morris a Lorraine Whitmarsh, Prifysgol Caerdydd, 2017, tud 138. <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

yn siarad Cymraeg, yn caffael yr iaith erbyn 3 oed: “Dangosodd y gwaith ymchwil y gallai'r defnydd o'r Gymraeg rhwng plentyn a rhiant sydd yn siarad Cymraeg achosi pryder i bartner di-Gymraeg yn dilyn geni'r plentyn a bod hyn weithiau yn newid defnydd iaith yn y cartref”⁹⁷.

Felly efallai, yng nghyd-destun data Môn, mai un o'r argymhellion mwyaf perthnasol o'r ymchwil yw: “Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ymyriadau sy'n ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg dargedu siaradwyr Cymraeg mewn modd effeithiol **cyn geni'r plentyn** a/neu yn ystod **blynyddoedd cynnar** y plentyn, ac adolygu'r dull mwyaf priodol o gyrraedd siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn.”⁹⁸

Cyfathrebu â rhieni

Bu newidiadau yn y cynnig Cymraeg i ddarpar-rieni a rhieni newydd ers proffil iaith 2014, ble cofnodwyd canmoliaeth ar brosiect Twf ym Môn. “Nod prosiect Twf⁹⁹, a oedd ar waith rhwng 2001 a 2016, oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd o fanteision magu plant yn ddwyieithog a chael dylanwad cadarnhaol ar eu defnydd o'r Gymraeg. Roedd Twf yn cael ei ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg tan 2012, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y prosiect i Lywodraeth Cymru.

Dechreuodd Cymraeg i Blant¹⁰⁰, olynydd Twf, yn 2016. Ei nod yw **cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg** Gymraeg a chefnogi rhieni/gofalwyr, darpar rienu/gofalwyr ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant.”¹⁰¹ Sylwer fod y pwyslais rhywfaint yn wahanol yn y ddau gynllun gyda mwy o bwyslais cyfathrebu cyn geni'r plentyn gyda Twf, er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ar *drosglwyddo* iaith, tra bod Cymraeg i Blant yn cynnig pecyn ymarferol cynhwysfawr ar ôl geni plant gan annog rhieni i *ro'i*r Gymraeg i blant drwy addysg Gymraeg. “Weithiau mae pobl yn drysu trosglwyddo'r Gymraeg ac annog rhieni i ddewis addysg Gymraeg.”¹⁰²

Ceir adborth anecdotaidd ym Môn y bu i rywbeth cael ei golli wedi gorffen cynllun Twf, nid o ran ansawdd y gwasanaeth a ddilynodd, ond o ran capasiti'r cynllun i dargedu *pob* darpar-riant ar yr ynys gyda negeseuon am drosglwyddo iaith. Trosglwyddwyd rhan o'r cyfrifoldeb i gyfleu negeseuon am yr iaith i ddarpar rienu i ymarferwyr yn y Byrddau Iechyd. Erys diffyg eglurder ynglyn ag union y negeseuon am y Gymraeg mae disgwyl i ymarferwyr iechyd eu trosglwyddo (e.e. a yw'n cynnwys y data uchod ar fanteision trosglwyddo iaith os oes un rhiant yn siarad Cymraeg?) a chyfrifoldeb pwy yw sicrhau fod *pob* rhiant yn derbyn y negeseuon.

Nid ydym yn ymwybodol o ddata cenedlaethol sy'n monitro a yw pob rhiant wedi derbyn negeseuon am y Gymraeg, gan naill ai'r Byrddau Iechyd neu Cymraeg i Blant, nac unrhyw ymchwil i adnabod y blychau yn y capasiti. Amlyga ymchwil cenedlaethol ‘Eich Babi – Eich Gofal’ 2017¹⁰³, heriau i gapasiti'r Byrddau Iechyd/bydwagedd i ddarparu cyfleoedd gwybodaeth cyn enedigol i *bob* rhiant a ddymunai fanteisio ar y gwasanaeth. Gresyn na fu i'r ymchwil hefyd gynnwys cwestiynau am gyfrwng iaith y ddarpariaeth a niferoedd a dderbyniodd gyngor ymwybyddiaeth iaith. Yn naturiol, braint rhiant yw cael ymwrthod â negeseuon, ond tybir y byddai effaith cadarnhaol ar niferoedd trosglwyddo iaith

97 Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd; Jeremy Evas, Jonathan Morris a Lorraine Whitmarsh, Prifysgol Caerdydd, 2017, tud 139. <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

98 Ibid

99 Mae gwefan Twf wedi'i harchifo yma:

<https://www.webarchive.org.uk/wayback/en/archive/20120328000759/http://www.twfcymru.com/Cymraeg/Tudalennau/cartref.aspx>

100 Mae modd gweld gwefan Cymraeg i Blant ar: <https://llyw.cymru/cymraeg-i-blant>

101 Dogfen Ymgynghorol Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd, 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-02/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd-dogfen-ymgynghori.pdf>

102 Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd, Lywodraeth Cymru, 2021: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf>

103 Eich Babi – Eich Gofal Arolwg yn ymchwilio i brofiadau menywod o fod yn feichiog a rhoi genedigaeth yng Nghymru, 2017. “Mae'r ddogfen hon yn darparu sylfaen ar gyfer cam nesaf datblygu gwasanaethau yng Nghymru a sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chydgynllunio gyda theuluoedd a gwrando ar sut y dylid darparu gwasanaethau yn y dyfodol.” <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/eich-babi-eich-gofal.pdf>

Môn petai modd sicrhau fod pob darpar-riant, a all siarad Cymraeg, yn derbyn y neges am effaith gadarnhaol trosglwyddo iaith ar ruglder Cymraeg a dwyieithrwydd eu plentyn.

Adborth rhieni ym Môn yw bod darpariaeth Cymraeg i Blant o safon uchel iawn ac yn boblogaidd tu hwnt gyda rhestrau aros. Ers cyfnod Covid-19, mae'r ddarpariaeth wedi symud ar-lein gan gynnig cyfle i rieni o ardaloedd tu hwnt i'r ardaloedd targed gwreiddiol i ymuno sesiynau tyllino babi, ioga babi a sesiwn stori ar-lein. Ceir hefyd gyswllt gyda'r ymwelwyr iechyd yn sirol mewn ardaloedd penodol. Cyn Covid byddai'r Swyddog yn mynychu grwpiau cyn-genï yn Llangefni a Chaergybi trwy gydweithio a'r Bydwagedd, a chydweithio â'r Ymwelwyr Iechyd yn grŵp ôl-eni Amlwch a Rhosneigr.

Fodd bynnag mae galw cyson am fwy o gapasiti i'r ddarpariaeth Cymraeg i Blant ym Môn gan mai un swyddog rhan-amser, 2.5 diwrnod yr wythnos, sydd yn weithredol ac nad yw'r capasiti hyn yn caniatáu cyswllt â phob rhiant sy'n galw am y gwasanaeth, na phob darpar-riant adeg beichiogrwydd. Nid yw Môn yn eithriad, gydag adborth o swyddogion Cymraeg i Blant yn yr adroddiad cenedlaethol¹⁰⁴ fod yna ardaloedd nad oeddent yn eu cyrraedd oherwydd diffyg capasiti.

Yn yr un modd, yn enwedig gyda chyfyngiadau Covid-19, cyfyd y cwestiwn faint o gyfle a gwybodaeth sydd gan yr ymarferwyr iechyd, boed yn fydwragedd neu yn ymwelwyr iechyd, i'w rhannu am y Gymraeg gyda darpar rieni a rhieni newydd. Cyn Covid-19, mewn adroddiad cenedlaethol¹⁰⁵, roedd yna adnabyddiaeth o fwllch posib yn y wybodaeth a drosglwyddid i rieni.

Rhaid hefyd adnabod mai yn ddigidol, o ffynonellau cenedlaethol, mae nifer yn chwilio am wybodaeth. Yn yr un modd â gyda threchu tlodi, mae angen gweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnwys sy'n adlewyrchu polisi Cymraeg 2050 a negeseuon am fanteision trosglwyddo iaith yn yr wybodaeth i ddarpar rieni ar-lein. Gweler er enghraifft safle we, uniaith Saesneg, heb gyngor chwaith am drosglwyddo iaith, gan GIG111Cymru¹⁰⁶. Yr unig gyngor a roddir ar iaith yw: "Lots of children grow up in a family where more than one language is spoken. This can be an advantage to children in their learning. Knowing another language will help the development of their English."¹⁰⁷ Tybiwn dylai cyfle i adolygu'r wybodaeth ar-lein yma, gan ymarferwyr sy'n cynghori rhieni ar y Gymraeg, fod yn flaenoriaeth cyfathrebu â darpar rieni yn ystod Covid-19.

Felly, yn ogystal â heriau lleol o ddiffyg capasiti a data, gwelir yma hefyd heriau strategol cenedlaethol, all lesteirio ymdrechion i gyrraedd holl darpar-rieni Môn gyda'r neges am bwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg i'r plant os oes oedolyn a all wneud hyn yn y teulu.

I ymateb yn lleol, mae grŵp ffocws, drwy Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd, is-grŵp i Fforwm Iaith Strategol Môn, yn casglu gwybodaeth i fapio sefyllfa gyfredol o ran cyswllt a chyfleu negeseuon am drosglwyddo iaith i ddarpar rieni yn ystod y cyfnod beichiogrwydd. Y sefydliadau pennaf sy'n edrych ar hyn yn lleol yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymraeg i Blant, Menter Iaith Môn a'r Mudiad Meithrin. Teimlir fod yna botensial i gydweithio i gyrraedd mwy o ddarpar-rieni, yn ystod y cyfnod beichiogrwydd, gyda negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg. Ystyriwn fod blaengarwch yn hyn o beth yn cyd-fynd ag amcanion Trosglwyddo Iaith Llywodraeth Cymru.

Yr hyn sy'n galonogol, o adborth ymarferwyr yn y Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn, yw awydd rhieni i ddewis y gorau dros eu plant. Yn ôl data gweithgareddau teulu Menter Iaith Môn, gyda mwyafrif o deuluoedd di-Gymraeg yng Nghaergybi, roedd 99% o'r rhieni am i'w plant fod yn siarad Cymraeg a Saesneg pan yn 16 oed. Felly rhaid canolbwyntio ar gyfathrebu i rieni *sut* i gyflawni hyn,

104 Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant, Llywodraeth Cymru, 2019: "Crybwyllodd y rhan fwyaf o swyddogion ardaloedd daearyddol eraill y gallent ddarparu sesiynau grŵp ynddynt o bosibl, os oedd ganddynt y capasiti i wneud hynny" <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/gwerthusiad-proses-or-rhaglen-cymraeg-i-blant-adroddiad-terfynol.pdf>

105 Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant, Llywodraeth Cymru, 2019: "Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall uwch reolwyr yn y sector iechyd sicrhau bod eu gweithlu yn adnabod rhagor o gyfleoedd i raeadr gwybodaeth am Gymraeg i Blant i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i rieni."

106 NHS111Cymru: Canllaw Beichiogrwydd / Eich Gofal Cyn-Geni / 'Yn anffodus, nid yw'r adran yma ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd. Cliciwch yma i weld y pwnc yma yn Saesneg', (2/2021).

<https://111.wales.nhs.uk/livewell/pregnancy/YourAntenatalCare/?locale=cy> Y fersiwn Saesneg: 'Last Updated: 08/11/2017 13:31:58. The information on this page has been adapted by NHS Wales', (2/2021).

<https://111.wales.nhs.uk/livewell/pregnancy/YourAntenatalCare/?locale=en>

107 NHS111Wales, Helping your child's speech, (2/2021). <https://111.wales.nhs.uk/livewell/pregnancy/learningspeech/>

gan gyfleu gwerth trosglwyddo iaith yn y cartref neu, os yn ddi-Gymraeg, werth trochi iaith yn y blynyddoedd cynnar.

Fodd bynnag mae Covid-19 wedi cyfyngu ar gyfleoedd cyfathrebu wyneb-i-wyneb â rhieni; y cyfleoedd gwerthfawr anffurfiol yna i staff Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn i gyfleu negeseuon am y Gymraeg ac i ymateb i ragdybiaethau gyda ffeithiau yn seiliedig ar ymchwil.

Yn 2019, cafodd swyddog teuluoedd Menter Iaith Môn gyswllt ystyrlon â dros 2,000 o rieni'r ynys, mewn digwyddiadau neu mewn sefyllfaoedd un-i-un. Erbyn 2020, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, roedd y cyswllt wyneb-yn-wyneb wedi gostwng i 228 rhiant, gyda'r gweithgareddau a'r gefnogaeth teulu wedi symud ar-lein. Yn yr un modd, yn 2019-20, roedd 1,506 rhiant wedi mynychu gweithgareddau Swyddog Cymraeg i Blant yn bennaf yn ardaloedd Llangefni, Rhosneigr, Amlwch a Chaergybi. Trosglwyddwyd y rhain i fod yn rhithiol mewn ymateb i argyfwng Covid-19, ac er bod hyn wedi caniatáu lledu'r cyswllt yn ddaearyddol, nid yw ar-lein gystal cyfrwng ar gyfer y sgysiau unigol. Er bod yr ymdrech i estyn allan i rieni yn parhau ar yr ynys, croesawn hefyd y Camau Gweithredu gan y Llywodraeth sy'n cynnwys: "Byddwn ni'n datblygu presenoldeb ar-lein i gynorthwyo rhieni/gofalwyr a allai, ond am ba reswm bynnag, nad ydynt, yn siarad Cymraeg gyda'u plant. Byddai hyn yn gallu golygu helpu rhieni sydd heb unrhyw brofiad personol o fagu plentyn mewn cartref lle mae mwy nag un iaith yn cael ei siarad i wneud hynny (e.e. eu helpu i ddysgu sut yn union mae cyfeirio iaith at blentyn)."¹⁰⁸ Gobeithio bydd y cynllun yn cynnig cyfle am fewnbwn lleol i adlewyrchu profiadau rhieni Môn, gan y bydd yn gyfle da i ateb y galw ac i adfer y cyfleoedd am gyngor uniongyrchol i rieni a gollwyd drwy gyfyngiadau Covid-19.

108 Polisi Cenedlaethol ar Drosiglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd, Lywodraeth Cymru, 2021: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisi-cenedlaethol-ar-drosiglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf>

7. Addysg

Oedwn i ddechrau ar ofal plentyndod cynnar ac anffurfiol, cyn ymhelaethu ar wasanaeth dysgu Cymraeg blaengar Cyngor Sir Ynys Môn, a'r ddarpariaeth addysg ôl 16 ar yr ynys.

Addysg a gofal plentyndod cynnar

Diffinnir Blynyddoedd Cynnar fel y cyfnod cyn geni plentyn hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Trafodwyd pwysigrwydd hyrwyddo manteision trosglwyddo iaith yn y cartref yn yr adran flaenorol. Felly, er tegwch i rieni di-Gymraeg, sydd am i'w plant gael yr un fantais o ruglder dwyieithog drwy gaffael iaith yn ifanc, teg disgwyl bydd pwyso am **gyfleoedd trochi Cymraeg iddynt yn y ddarpariaeth gofal plant**. Mark Drakeford, 2019: "Yng nghyd-destun *Cymraeg 2050*, mae angen i ni gynyddu nifer y darparwyr Cymraeg a dwyieithog yn y blynyddoedd cynnar, er mwyn sicrhau y gall rhieni gael mynediad i addysg a gofal plentyndod cynnar yn eu dewis iaith."¹⁰⁹

Mae darpariaeth gofal plant preifat ym Môn, yn amrywiol iawn. Yng nghyfeiriadur gwasanaethau gofal **Gwasanaethau Gofal Cymru**¹¹⁰ rhestrir 92 o wasanaethau gofal plant cofrestredig ym Môn, ond ni nodir iaith y ddarpariaeth. Cyfeirir at 24 darparydd gofal dydd sesiynol, 26 darparydd gofal dydd llawn, 5 lleoliad gofal tu allan i'r ysgol, a 37 o ofalwyr preifat.

Prif ddarparydd cyfleoedd trochi yn y Gymraeg ym Môn yw'r **Mudiad Meithrin**¹¹¹. Gwerthfawrogwn bresenoldeb cryf gan y Mudiad ym Môn; yn gyflogwr, yn ddarparwr gofal ac addysg, ac yn hyfforddwr. Mae'r gefnogaeth arferol (cyn Covid-19) yn cynnwys 1 Swyddog i gefnogi'r Cylchoedd Ti a Fi, dros 50 o staff i gefnogi'r Cylchoedd Meithrin, 1 swyddog i gynnal Clwb Cwtsh, a 5 o staff canolog y Mudiad. Rydym hefyd yn ffodus ym Môn fod un o dair meithrinfa'r Mudiad yn genedlaethol wedi ei lleoli yn Llangefni¹¹² ym Môn. Mae cynllun Cymraeg i Blant hefyd dan ofal y Mudiad Meithrin. Ceir i'r Mudiad Meithrin arweiniad clir ar y Gymraeg: "Fel asiant pwysig yn y gwaith allweddol o greu siaradwyr Cymraeg newydd ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gofal plant a chwarae, gwêl Mudiad Meithrin hanfodrwydd gwaith ei holl aelodau a'i randdeiliaid i'r weledigaeth hon."

Ceir hefyd ym Môn ddarpariaeth un o gynlluniau Llywodraeth Cymru i drechu tlodi, sef **Dechrau'n Deg**. Mae'n rhaglen i deuluoedd â phlant dan 4 oed mewn ardaloedd penodol yng Nghaerdybi, Llangefni, Niwbwrch a Gwalchmai. Yn 2017 ganwyd 23% o fabanod Môn mewn ardal Dechrau'n Deg, sef 150 o blant allan o gyfanswm o 659 o enedigaethau Môn.¹¹³ Yn 2018-19 roedd 144 o blant wedi cofrestru ar gyfer gofal plant llawn neu rannol, a 669 o blant wedi elwa o ryw wasanaeth Dechrau'n Deg.¹¹⁴ Mae Dechrau'n Deg Môn¹¹⁵ yn dîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys ymwelwyr ieuchyd, gweithwyr teulu, staff gofal plant, ymwelwyr ieuchyd, therapydd lleferydd ac iaith, athrawes blynyddoedd cynnar, cynorthwywyr ieuchyd a thîm o staff cefnogi ymroddedig. Penodir staff dwyieithog a bu ymdrech i gyflwyno egwyddorion trochi i'r ddarpariaeth, megis cyflwyniad o gynllun 'Croesi'r Bont' i'r staff meithrin yng Nghaerdybi yn 2019. Croesewir y datblygiadau hyn, gan fod Caerdybi, fel yr amlygwyd eisoes, yn un o'r ardaloedd ble mae'r plant yn lleiaf tebygol o gaffael y Gymraeg trwy drosglwyddiad iaith gan riant.

Ar lefel genedlaethol gwelir fod gwaith eto i ddod gan Lywodraeth Cymru i sicrhau fod polisïau, megis polisi Cymraeg 2050, wedi gwreiddio yn y polisïau a chynlluniau trechu tlodi. Amlygwyd yr angen i gydbblethu polisïau yn fwy effeithiol yn adolygiad 'Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd'¹¹⁶ 2017: "Mae pwysigrwydd strategaeth glir a fframwaith polisi yn arbennig o bwysig mewn perthynas â lleihau

109 Mark Drakeford, 10/2019: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-dull-gweithredu-addysg-gofal-plentyndod-cynnar>

110 <https://arolygiaethgofal.cymru/dod-o-hyd-i-wasanaeth-gofal>

111 <https://www.meithrin.cymru/chwilio-am-gylch/>

112 Meithrinfa Medra: <https://www.meithrin.cymru/medra-cy/>

113 <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-crynodeb-dechrau-deg-ebrill-2018-i-mawrth-2019-540.pdf>

114 <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-crynodeb-dechrau-deg-ebrill-2018-i-mawrth-2019-540.pdf>

115 Dechrau'n Deg Môn: www.facebook.com/DDynysmonAngleseyFS

116 'Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd', Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru, 2017. <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11238/cr-ld11238-w.pdf>

tlodi, lle mae cymaint o gyfranogwyr gwahanol dan sylw, gan gynnwys cyrff cyflenwi lleol, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a'r sector preifat." Gwelwn fod gwreiddio cyfleoedd trochi Cymraeg di-dâl, i blant o deuluoedd difreintiedig, am fod yn gyfraniad pwysig i drechu tlodi ar ynys ddwyieithog, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i gyrraedd rhuglder dwyieithog, a drwy hynny gwell cyfleoedd cyflogaeth i'r dyfodol.

Yn arferol mae cynnig agored ad-hoc gan Menter Iaith Môn i **ddarparwyr gofal**, am sesiwn hyfforddiant a chyflwyniadau ymarferol o ddefnydd apiau Cymraeg. Darperir sesiwn tebyg i ddarpar-gyflogai'r sector gofal plant yng Ngholeg Menai. Megis dechrau yw hyn i godi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig yn y sector preifat. Deallwn y daw cyfleoedd pellach i ddatblygu sgiliau a chodi hyder staff drwy anogaeth y Llywodraeth: "Meithrin Gweithlu Dwyieithog: Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn egluro gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau y bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae gan y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant rôl ganolog o ran cyflawni'r nod hwn... Byddwn yn cynnig rhaglenni hyfforddiant amrywiol i alluogi ymarferwyr i wella eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg... Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau Saesneg hefyd i roi'r hyder iddynt ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'r plant yn eu lleoliadau fel rhan o'u darpariaeth o ddydd i ddydd."

Yn ogystal, mae dau grŵp penodol arall o rieni yn haeddu sylw. Mae nifer o **rieni maeth** yr ynys yn ddi-Gymraeg ond yn cynnal plant drwy addysg ddwyieithog y sir, felly drwy gydweithio rhwng Gwasanaeth Maethu Cyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn, cynigir sesiwn ymarferol ar ddefnydd o adnoddau addysgiadol Cymraeg yn y cartref i godi hyder rhieni maeth di-Gymraeg. Yn yr un modd, bu i'r Fenter gynnig sesiwn i un grŵp o rieni, y mwyafrif yn ddi-Gymraeg, sy'n dewis **dysgu gartref** ¹¹⁷ (cyn-Covid-19), gan arddangos defnydd o apiau ac adnoddau Cymraeg i'w cefnogi i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant adref. Nid oes gennym y data ar faint o blant sydd y tu allan i'r gyfundrefn addysg swyddogol (cyn-Covid) nac ychwaith iaith y cartref neu iaith y dysgu.

Bu i Menter Iaith Môn ddatblygu apiau Selog yn benodol i ddangos i rieni ac ymarferwyr di-Gymraeg fod modd defnyddio Cymraeg gyda'r plant, hyd yn oed os yw'r oedolyn yn ddi-Gymraeg. Mae 32,000 bellach wedi lawrlwytho'r apiau, gan gyrraedd cynulleidfa genedlaethol drwy **gyfnod Covid o ddysgu adref**.

Y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar – Gwasanaeth Dysgu

Mae pob plentyn 3 oed wedi cael y cynnig o addysg hanner amser am ddim. Gall yr addysg honno gael ei ddarparu un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliadau a gyllidir. Mae **Cynllun Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Sir Ynys Môn** yn sicrhau darpariaeth addysg feithrin o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd yn 3 oed. Darperir addysg feithrin ym mhob ysgol ym Môn heblaw tair. Mae'r addysg feithrin a gynigir yn ddi-dâl am o leiaf 2 awr y dydd ac yn dechrau'r tymor yn dilyn y 3ydd pen-blwydd i'r Medi yn dilyn y 3ydd pen-blwydd yn ddiethriad yn y sector gwirfoddol. Un o Amcanion penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law (Menter Iaith Môn, 2012, tud 4).


Mae'r Awdurdod Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r ddarpariaeth i blant o'r oedran 3 i fyny drwy un o ddwy ffordd (Cyngor Sir Ynys Môn, 2011-2012, tud 2):

- Cefnogir y cylchoedd drwy grant - 34 drwy'r Mudiad Meithrin a 8 drwy'r WPPA. Gwneir y ddarpariaeth uchod ar y ddealltwriaeth bod y lleoliadau'n gweithredu Polisi Iaith yr Awdurdod.
- Cyllido'r ysgolion drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarth meithrin.

Arfarnwyd safon darpariaeth yr Iaith Gymraeg yn y lleoliadau nas cynhelir yn ystod Tymor yr Haf 2019. Barnwyd y ddarpariaeth yn dda iawn / rhagorol mewn 20 lleoliad, yn dda mewn 12 lleoliad ac yn anfoddhaol mewn 2 (siart 26). Mae'r 2 lleoliad yma yn rhan o gynllun gwelliant ac hyfforddiant.

¹¹⁷ <https://www.dewis.cymru/home-schooling-cyp>

Siart 26. Adroddiad ar Ansawdd Ddarpariaeth Y Gymraeg y Cylchoedd Meithrin Môn



Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn

Addysg Gynradd ac Uwchradd

Darpariaeth

Mae Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn yn gweithredu **polisi iaith** dwyieithog yn holl ysgolion y sir. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeilio yn ogystal ag yn eu darpariaeth academiaidd.¹¹⁸

Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion **cynradd** Môn. Cyngor Sir Ynys Môn yw'r awdurdod mynediad ar gyfer y 38 ysgol cyfrwng Cymraeg. Yr eithriadau yw dwy ysgol cyfrwng Saesneg gyda'r Gymraeg fel ail iaith neu ffrwd Gymraeg: ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chyswllt â'r Eglwys Gatholig (Ysgol Santes Fair, Caergybi) ac un ysgol sefydledig (Ysgol Caergeiliog). Dengys tabl 15 a siart 27 mai'r Gymraeg oedd prif gyfrwng addysgu 86.6% (5080) o ddisgyblion cynradd Môn, tra bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail-iaith i 10.9% (640) o'r disgyblion.

Tabl 15. Nifer disgyblion ysgolion cynradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20


	Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu	Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu am ran o'r cwricwlwm (h.y. llai na hanner)	Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith yn unig	Nid yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio na'i haddysgu.	Cyfanswm
Ynys Môn - nifer	5080	135	640	0	5855
Ynys Môn - %	86.8%	2.3%	10.9%	0	100%

Data: Statiath¹¹⁹

118 O Lawlyfr Rhieni Cyngor Sir Ynys Môn 2021-22. <https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Dysgu-gydol-oes/Cefnogaeth-rhieni/Llawlyfr-Rhieni-2021-22.pdf>

119 Statiath <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilswelshclasses-by-localauthority-welshcategory>

Siart 27. Nifer disgyblion ysgolion cynradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20



Data: Statiaith¹⁴

Dengys y data diweddaraf ar gyfer Medi¹²⁰ 2020 fod niferoedd y disgyblion wedi gostwng ond fod canran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi codi. Bellach mae 90.5% (4,706) o'r disgyblion wedi cofrestru ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a 9.5% (493) wedi cofrestru mewn ysgolion sy'n dynodi 'Saesneg' fel y cyfrwng dysgu, a'r Gymraeg fel ail-iaith¹²¹. Fodd bynnag mae pob un o'r 40 ysgol gynradd ym Môn wedi mabwysiadu, ac addunedu, i weithredu egwyddorion y 'Siarter Iaith Gymraeg' sy'n cynorthwyo'r disgyblion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Ysgolion cyfun cymunedol i ddisgyblion 11-18 yw 5 ysgol **uwchradd** Môn dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Dynodir 4 ysgol yn y categori 'dwyieithog' (Ysgol Syr Thomas Jones, Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol David Hughes, Ysgol Uwchradd Bodedern) ag 1 (Ysgol Uwchradd Caergybi) yn y categori 'Saesneg - â chyfran sylweddol o Gymraeg'. Yn 2019-20 roedd 74% (2,585) o'r disgyblion yn derbyn addysg ddwyieithog. Dengys tabl 16 a siart 28, mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng addysgu 34.8% (1,215) o ddisgyblion uwchradd Môn, gyda'r Gymraeg yn rhan o'r addysg i 39.2% (1,370), a Saesneg yn gyfrwng addysgu i 24.6% (860) o ddisgyblion.

Tabl 16. Nifer disgyblion ysgolion uwchradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20

	Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu	Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu am ran o'r cwricwlwm (h.y. llai na hanner)	Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith yn unig	Nid yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio na'i haddysgu.	Cyfanswm
Ynys Môn - nifer	1215	1370	50	860	3495
Ynys Môn - %	34.8%	39.2%	1.4%	24.6%	100%


Data: Statiaith¹²²

120 Lawlyfr Rhieni Cyngor Sir Ynys Môn 2021-22.

121 Llawlyfr Ysgol Santes Fair <https://www.ysgolsantesfair.co.uk/page/language-statement/49014> &

122 Statiaith <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilswelshclasses-by-localauthority-welshcategory>

Siart 28. Nifer disgyblion ysgolion uwchradd Môn a'r cyfrwng iaith dysgu - 2019-20



Data: Statiaith¹⁷

Dengys data mwy diweddar Medi¹²³ 2020 fod cynnydd o 77.9% (3,057) wedi cofrestru ar gyfer addysg uwchradd dwyieithog a 22.1% (869) yn ardal Caergybi yn derbyn addysg 'Saesneg â chyfran sylweddol o Gymraeg'. Cynigir darpariaeth Ysgol Uwchradd Bodedern i ddisgyblion o ardal Caergybi sydd am fanteisio ar addysg ddwyieithog lawn.

Yn ychwanegol, cofrestrwyd 116 o ddisgyblion 3-19 yn ysgol **addysg arbennig** Môn, Canolfan Addysg y Bont¹²⁴. Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu gweinyddiaeth yr ysgol, ac adlewyrchir polisi iaith yr Awdurdod Lleol gyda phwyslais ar sgiliau dwyieithog yn addysg y disgyblion. "Nod Polisi Iaith Y Bont yw sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol sydd â'r gallu i gyfathrebu'n ieithyddol feddu ar ddwyieithrwydd cytbwys gallu-berthnasol, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni."¹²⁵

Rhan bwysig o ethos cyfle cyfartal Cyngor Sir Ynys Môn, a nodwedd o ragoriaeth, yw'r ddarpariaeth y **Ganolfan Iaith**. Mae wedi ei lleoli ar ddau safle, mewn ysgolion cynradd yng Nghaergybi a Moelfre. Gwneir hyn i sicrhau tegwch i ddisgyblion sy'n ymuno ag ysgolion Môn yng Nghyfnod Allweddol 2 heb y medrau Cymraeg angenrheidiol. Mae 4 aelod o staff yn cefnogi disgyblion 7-11 dros un tymor yn y Ganolfan. Mae'r disgyblion yn elwa o addysg trochi yn y Gymraeg gan athrawon iaith ag arbenigedd. Mae'r effaith yn sylweddol ar allu'r disgyblion i barhau yn y brif ffrwd Gymraeg wedi tymor o addysg ddwys, felly mae'r galw'n uchel am y ddarpariaeth, gan deuluoedd ag ysgolion yr ynys. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant di-dâl i'r disgyblion ac wedi ymrwymo i barhau gyda'r ddarpariaeth er mwyn "sicrhau gall disgyblion fanteisio'n llawn ar y medrau priodol fydd yn eu galluogi i weithio a byw mewn Cymdeithas ddwyieithog sy'n nodweddu'r rhan hon o Gymru a thu hwnt."

Yn ystod y cyfnod clo mae'r canolfannau iaith wedi cefnogi dysgwyr drwy ddefnyddio Google Classroom a hefyd wedi paratoi adnoddau i ysgolion cyfan Môn drwy Google Classroom.

¹²³ Lawlyfr Rhieni Cyngor Sir Ynys Môn 2021-22.

¹²⁴ Llawlyfr Canolfan Addysg y Bont <http://canolfanaddysgybont.cymru/llawlyfr.html>

¹²⁵ ibid

I wireddu ymrwymiad strategol Cyngor Sir Ynys Môn i gynnal a chynyddu sgiliau Cymraeg ei disgyblion, defnyddir ystod o strategaethau. Amlygir cefnogaeth yr aelodau etholedig a'r Arweinydd, arweiniad y Prifweithredwraig, a strategaeth eglur i'w rhaeadru i'r sector Addysg gan y Cyfarwyddwr. Mae'r strategaeth a'r gynhaliath yn cynnwys a ganlyn.

- Gosod Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg¹²⁶ (CSGA / WESP).
- Cynydd yn nifer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaenol sydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf.
- Mae 5 cydlynnydd iaith cynradd a 5 cydlynnydd Uwchradd, sydd yn sicrhau fod 2 gydlynnydd ym mhob dalgylch.
- Mae cydlynwyr yn cydweithio gydag ysgolion y dalgylch a GwE i weithredu cynlluniau clwstwr.
- Mae gan y Gwasanaeth Dysgu wefan ar gyfer datblygu gwaith y strategaeth ar draws ysgolion Môn. Mae adnoddau ac arfer dda ar ddysgu'r Gymraeg ag ysbrydoliaeth i'r Siarter Iaith gyda mynediad i ysgolion a holl athrawon yr ynys.
- Mae'r ganran o ddisgyblion sydd wedi eu hasesu, yn y Gymraeg Iaith Gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 2, wedi cynyddu o 71.45% yn 2015 i 87.5% yn 2019.
- Cydweithio strategol ar draws y rhanbarth gyda GwE ac y Siarter Iath i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer strategaeth, adnoddau a chyllid i gefnogi yr Iaith Gymraeg ar draws gogledd Cymru.
- Cydweithio cyson gyda Menter Iaith Môn sydd yn gweithio yn llwyddiannus gyda'r ysgolion, llywodraethwyr a rhieni i fagu gwell dealltwriaeth am seicoleg iaith, trochi a phwysigrwydd addysg dwyieithog ar draws yr Ynys.
- Cefnogi'r Mudiad Meithrin i gwrdd â'u targedau gan agor dau gylch o'r newydd – y rhain mewn ardaloedd gymharol ddi-Gymraeg.
- Buddsoddi yn narpriaeth hyfforddiant Croesi'r Bont gan y Mudiad Meithrin, gan dargedu pump ysgol. Cydweithio rhwng y Mudiad Meithrin a'r Meithrin yn yr ysgol yn sicrhau dilyniant a'r dulliau trochi yn yr iaith Gymraeg.
- Cynyddu'r nifer sydd yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd CA2 hefyd wedi cynyddu o 69.9% yn 2015 i 86.7% yn 2019. Yn bellach i hyn, mae angen nodi'r naid sylweddol rhwng 2017 (480) a 2018 (622) sef 15.5%.
- Prosiect Ysgol Uwchradd Caergybi –Cynyddu'r niferoedd sydd yn trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd yn dilyn ffrwd iaith gyntaf.
- Annog pob ysgol i fod yn rhagweithiol i wireddu'r Siarter Iaith Gymraeg gyda'u disgyblion, staff, corff llywodraethu ac yn y gymuned.
- Arwain hyfforddiant codi hyder defnyddio / dysgu Cymraeg staff drwy drefnu cyrsiau sabothol i athrawon a chymorthyddion yn ogystal â chyfleoedd gan ddarparwyr eraill megis GwE a Chanolfan Bedwyr.
- Gwahodd adborth a mewnbwn partneriaid strategol dros y Gymraeg drwy'r Fforwm Addysg / Fforwm Iaith Môn. Mae hyn yn cynnwys cyfle i bartneriaid graffu ar y deilliannau yn ymwneud â'r Gymraeg a chynnig adborth adeiladol neu gefnogaeth ymarferol i wireddu amcanion y CSGA.

126 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA / WESP) Cyngor Sir Ynys Môn 2017-20
<https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Dysgu-gydol-oes/Cynllun-Strategol-y-Gymraeg-mewn-Addysg-Ynys-M%C3%B4n/Cynllun-Strategol-y-Gymraeg-mewn-Addysg-Ynys-M%C3%B4n-2017-2020.pdf>

Cyflawniad


Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol polisi iaith ysgolion Môn ar y Gymraeg, bellach i'w gweld yn y data. Dengys tabl 17 a siart 29, ar ôl gostyngiad yn y niferoedd oedd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf 2008-2015, mae'r cynnydd yn y niferoedd erbyn 2019-2020 wedi cyrraedd 6,467 o ddisgyblion.

Tabl 17. Nifer y disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11 - rhwng 2009-2020

	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Ynys Môn	5369	5224	5175	5197	5147	5111	5269	5447	6152	6333	6467
Gogledd Cymru	25610	25502	25686	25750	25707	25722	25995	26275	27392	27896	27995
Cymru	68386	68841	69661	70552	71599	72282	73461	74484	76583	77984	78709

Data: Statiaith¹²⁷

Siart 29. Nifer y disgyblion ym Môn a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11 - rhwng 2003-2020



Data: Statiaith¹²⁸

Tabl 18. Siarad Cymraeg adref 2019-20 – asesiad rhieni o ddisgyblion 5 oed neu drosodd mewn ysgolion cynradd, canol, uwchradd

	Yn siarad Cymraeg gartref	Nid yw'n siarad Cymraeg gartref	Amherthnasol / methu â siarad Cymraeg	Cyfanswm nifer disgyblion	Canran disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref %
Ynys Môn	4074	2934	1281	8289	49.1
Gogledd Cymru	19019	25079	41613	85711	22.2
Cymru	41705	118132	235536	395373	10.5

Data: Statiaith¹²⁹

127 Statiaith <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilstaughtwelshprimarymiddlesecondaryschools-by-localauthorityregion-year>

128 Ibid.


129 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/speakingwelshhomepupils5andover-by-localauthorityregion-category>

Blynyddoedd Cynnar:

Mae 86% o gylchoedd Meithrin yr Ynys yn gyfrwng Cymraeg, gyda'r 14% sy'n weddill yn cynnig y Gymraeg fel rhan o'r ddarpariaeth.

Cyfnod Sylfaen (CS):

Siart 30. Cyfnod Sylfaen: Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg – % y disgyblion sy'n cyflawni FPO5+, FPO6+




Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

Tabl 19. Cyfnod Sylfaen: Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg – % y disgyblion sy'n cyflawni FPO5+, FPO6+

CS Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg (% sy'n cyflawni)	Blwyddyn				
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
FP05+ - Ynys Môn	87.6	88.1	89.8	86.2	90.3
FP05+ - Cymru	86.7	89.8	91.3	90.7	90.9
FP06+ - Ynys Môn	34.6	32.1	36.5	36.4	34.6
FP06+ - Cymru	29.3	32.5	36.9	36.2	38.1

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019


Siart 31. Cyfnod Sylfaen 2017 - Canran sy'n cyrraedd deilliant disgwyliedig (deilliant 5+) yn y Gymraeg (sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu) Cymraeg %



Ffynhonnell: Statiaith¹³⁰

Cyfnod Allweddol 2 (CA2)

Siart 32. CA2 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L4+, L5+



Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

130 Statiaith <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/results-by-localauthority-outcome>

Tabl 20. CA2 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L4+, L5+


CA2 Cymraeg fel iaith Gyntaf (% sy'n cyflawni)	Blwyddyn				
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
L4+ - Ynys Môn	82.8	83.4	89.7	88.0	88.3
L4+ - Cymru	86.7	88.1	90.5	90.8	91.6
L5+ - Ynys Môn	30.9	30.1	38.1	35.3	38.3
L5+ - Cymru	30.4	33.9	38.0	38.0	41.5

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

Tabl 21. CA2 (7-11 oed) 2017 – Canran sy'n cyrraedd deiliant disgwylidig (Lefel 4+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg

	Cymraeg			Cymraeg %	Saesneg %
	Llafaredd %	Darllen %	Ysgrifennu %		
Ynys Môn	90.0	86.9	83.3	88.3	92.6
Gogledd Cymru	91.4	89.6	85.3	90.4	91.9
Cymru	92.3	90.8	86.8	91.6	91.1

Ffynhonnell: Statiaith¹³¹

Siart 33. CA2 (7-11 oed) 2017 – Canran sy'n cyrraedd deiliant disgwylidig (Lefel 4+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg


Ffynhonnell: Statiaith¹³²

131 Statiaith <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/results-by-localauthority-level>

132 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/results-by-localauthority-level>

Cyfnod Allweddol 3 (CA3)

Siart 34. CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L5+, L6+, L7+




Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

Tabl 22. CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y disgyblion sy'n cyflawni L5+, L6+, L7+

CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf (% sy'n cyflawni)	Blwyddyn				
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
L5+ - Ynys Môn	89.1	89.2	93.2	92.1	95.0
L5+ - Cymru	87.6	90.1	90.9	92.0	93.5
L6+ - Ynys Môn	48.9	54.3	62.4	66.5	72.6
L6+ - Cymru	45.7	52.9	56.1	57.2	62.9
L7+ - Ynys Môn	12.3	16.3	18.9	24.3	23.3
L7+ - Cymru	12.4	14.9	17.3	18.3	19.7

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019


Siart 35. CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L5+

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

Tabl 23. CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L5+

CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf L5+ (% sy'n cyflawni)	Blwyddyn				
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Bechgyn - Ynys Môn	86.7	83.7	90.9	88.4	93.5
Bechgyn - Cymru	82.6	85.7	87.3	89.1	91.1
Merched - Ynys Môn	91.9	94.4	95.4	95.9	96.6
Merched - Cymru	92.5	94.4	94.3	94.9	95.9

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

Siart 36. CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L6+

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019

Tabl 24. CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L6+

CA3 Cymraeg fel iaith Gyntaf L6+ (% sy'n cyflawni)	Blwyddyn				
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Bechgyn - Ynys Môn	41.8	44.8	52.6	55.8	68.2
Bechgyn - Cymru	35.4	42.4	45.6	47.8	53.1
Merched - Ynys Môn	57.1	63.3	71.7	77.4	77.2
Merched - Cymru	55.9	63.3	66.0	66.5	72.2

Ffynhonnell: CSYM o Ystadegau ar gyfer Cymru 'Bwletin Ystadegol' Llywodraeth Cymru, Mai 2019


Tabl 25. CA3 (11-14) 2017 – Canran sy'n cyrraedd lefel disgwyledig (L5+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg

	Cymraeg				
	(Cymraeg - Llafaredd) %	(Cymraeg - Darllen) %	(Cymraeg - Ysgrifennu) %	Cymraeg %	Saesneg %
Ynys Môn	96.4	93.8	89.5	95.0	92.9
Gogledd Cymru	94.0	91.6	89.4	93.9	91.6
Cymru	93.8	92.2	88.2	93.5	90.5

Ffynhonnell: Statiaith¹³³

133 Statiaith <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects/results-by-localauthority-level>


Siart 37. CA3 (11-14) 2017 - Canran sy'n cyrraedd lefel disgwyliedig (L5+) yn y Gymraeg (llafaredd, darllen, ysgrifennu) a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg



Ffynhonnell: Statiaith¹³⁴

Cyfnod Allweddol 4 (CA4)

Siart 38. CA4 Ynys Môn. Nifer o blant Môn enillodd A*-C Cymraeg iaith Gyntaf (2020)



Ffynhonnell: CSYM - Canlyniadau Ynys Môn (CBAC, 2020)


134 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects/results-by-localauthority-level>

Tabl 26. Cyfnod Allweddol 4 (14-16) 2017-18 - Cyflawniad arholiadau pynciol Cymraeg a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg

	Nifer y disgyblion 15 oed/ym Mlwyddyn 11	Nifer sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf	% disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf %	% a enillodd A*- C mewn Cymraeg iaith gyntaf	% a enillodd A*-C mewn Saesneg	% a enillodd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith
Ynys Môn	638	413	64.7	68.5	53.6	64.1
Gogledd Cymru	6619	1933	29.2	71.1	56.7	61.7
Cymru	30371	5266	17.3	74.3	62.6	64.9

Ffynhonnell: Statiaith¹³⁵

Siart 39. Cyfnod Allweddol 4 (14-16) 2017-18 - Cyflawniad arholiadau pynciol Cymraeg a'r cyd-destun dwyieithog mewn cymhariaeth â Saesneg - mewn %



Ffynhonnell: Statiaith¹³⁶

Cyfnod Allweddol 5 (CA5)

Yng Nghyfnod Allweddol 5, mae proffil cyflawniad **Cymraeg iaith Gyntaf** dysgwyr yn dangos fod 15.4% o ymgeiswyr wedi ennill gradd A*. Mae 42.3% o ddysgwyr yn ennill graddau rhwng A*-A, 65.4% yn ennill graddau rhwng A*-B, ac 88.5% o ymgeiswyr yn ennill graddau rhwng A*-C. Mae 100% o ymgeiswyr yn ennill graddau rhwng A*-D.

Tabl 27. Canlyniadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf Ynys Môn (2020), gradd mewn canran

Gradd	Canran sy'n ennill y gradd neu uwch
A*	15.4%
A	42.3%
B	65.4%
C	88.5%
D	100%
E	-
U	-

Ffynhonnell: CSYM – Canlyniadau Môn (CBAC, 2020)

135 Statiaith. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/examinationachievementsincoresubjectsofpupilsaged15-by-area>

136 Statiaith. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/examinationachievementsincoresubjectsofpupilsaged15-by-area>

Mae proffil cyflawniad Lefel A **Cymraeg Ail-laith** yn dangos fod 100% yn ennill graddau rhwng A*-C.


Tabl 28. Canlyniadau Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf Ynys Môn (2020), gradd mewn canran

Gradd	Canran sy'n ennill y gradd neu uwch
A*	0
A	0
B	40%
C	100%
D	-
E	-
U	-

Ffynhonnell: CSYM – Canlyniadau Môn (CBAC, 2020)

Trawstoriad iaith y gweithle addysgol (Cynradd ac Uwchradd) Môn

Siart 40. Proffil staff addysgu / gweithio mewn ysgolion Môn




Categoriâu	%
Yn Addysgu/Gweithio yn y Gymraeg	86
Gallu addysgu/gweithio yn y Gymraeg ond dim yn gwneud yn y swydd bresennol.	4
Methu addysgu neu weithio yn Gymraeg	6
Dim data	3

Ffynhonnell: CSYM 2021

Ymdeimlad o falchder yn yr iaith

Siart 41. 'Mae'r iaith Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', yn ôl awdurdod lleol



Ffynhonnell: Siart o Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 2017-2018¹³⁷

137 <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/national-survey-wales-welsh-language-confidence-attitudes-2017-18.pdf>

Addysg Bellach ag Uwch

Mae addysg ôl 16 Ynys Môn yn cynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn 5 ysgol uwchradd a darpariaeth Grŵp Llandrillo Menai (GLLM) ar Gampws Coleg Menai. Golyga hyn fod cryn dipyn hefyd yn teithio i astudio pynciau penodol oddi ar yr ynys, ar gampws GLLM ym Mangor. Er nad oes sefydliad addysg uwch ar yr ynys, ystyrir Prifysgol Bangor yn ased gwerthfawr i drigolion Môn fel safle dysgu addysg uwch, cyflogwr pwysig, a ffynhonnell o ymchwil gwerthfawr ar y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Addysg Bellach – Grŵp Llandrillo Menai

Lluniodd GLLM Bolisi Iaith¹³⁸ newydd er mwyn sicrhau bod y Grŵp a Staff y Grŵp yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r polisi iaith yn amlinellu sut y bwriedir cydymffurfio â'r Safonau a sut bydd y Grŵp yn mynd ati i fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Yn y flwyddyn academiaidd 2019/20, roedd 807 o fyfyrwyr o Fôn wedi cofrestru ar gyrsiau GLLM. Gweler o dabl 29 fod 77% (621) o'r rhain yn medru'r Gymraeg. Roedd dros eu hanner (52%) yn nodi eu bod yn rhugl, chwarter (25%) yn nodi nad ydynt yn rhugl, a 23% yn nodi nad oedd ganddynt sgiliau siarad Cymraeg.

Tabl 29. Myfyrwyr o Fôn wedi cofrestru ar gyrsiau Grŵp Llandrillo Menai 2019-20, a'u gallu i siarad Cymraeg

Lefel sgiliau Cymraeg	Dysgwyr Llawn amser	%
Siarad Cymraeg rhugl	418	52%
Siarad Cymraeg – heb fod yn rhugl	203	25%
Dim yn siarad Cymraeg	186	23%
Cyfanswm	807	

Ffynhonnell: Grŵp Llandrillo Menai 2019/20

Mae ystod cyrsiau a'r cymwysterau gan GLLM yn eang. Mae posib gwneud unrhyw gwrs a gynigir ar eu safle yn Llangefni yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Mae'r Coleg yn cynnig hyblygrwydd ieithyddol i fyfyrwyr gan eu hannog i ystyried i astudio cyrsiau yn ddwyieithog er mwyn gwella eu potensial cyflogaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y sector iechyd a gofal, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus oherwydd y galw am weithlu dwyieithog yn y sector gyhoeddus.

Mae darpariaeth eang GLLM ym Môn yn golygu fod 209 aelod o staff yn **gweithio** ar yr ynys. Mae 125 o'r rhain yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, gweler tabl 30. Gan na fu i 49 o'r 209 nodi eu sgiliau Cymraeg, gall fod y nifer sy'n rhugl yn y Gymraeg yn uwch mewn gwirionedd.

Tabl 30. Sgiliau iaith staff Grŵp Llandrillo Menai sy'n gweithio ym Môn

Sgiliau Cymraeg	Nifer
Rhugl	125
Heb ddatgan	49
Sylfaenol	16
Dim	12
Canolradd	7
Cyfanswm	209

Ffynhonnell: Grŵp Llandrillo Menai 28/01/2021

Rhaid hefyd pwysleisio cyfraniad Grŵp Llandrillo Menai fel cyflogwr i siaradwyr Cymraeg ar yr ynys, gan fod 258 o staff y Grŵp yn byw ym Môn, gweler tabl 31. Mae 143 o'r rhain yn ystyried eu hunain

138 Gwybodaeth a linc i lawrlwytho Polisi Iaith GLIM <https://www.gllm.ac.uk/welsh-language-standards-and-policy/?iaith=cy>

yn rhugl yn y Gymraeg. Gan na fu i 58 o'r 258 nodi eu sgiliau Cymraeg, gall fod y nifer sy'n rhugl yn uwch mewn gwirionedd.

Tabl 31. Sgiliau iaith staff Grŵp Llandrillo Menai sy'n byw ym Môn

Sgiliau Cymraeg	Nifer
Rhugl	143
Heb ddatgan	58
Sylfaenol	28
Dim	15
Canolradd	14
Cyfanswm	258


Ffynhonnell: Grŵp Llandrillo Menai 28/01/2021

Mewn ymateb i arolwg gan Gomisiynydd y Gymraeg ar effaith cyfyngiadau Cofid-19 ar y ddarpariaeth yn y Gymraeg, dywed GLLM nad oedd y gwasanaeth Cymraeg wedi ei effeithio'n wahanol i'r gwasanaeth yn y Saesneg: "Nid oedd y symudiad i wasanaeth ar-lein yn un dros nos, yn hytrach fe gymerodd gryn amser, ond roedd yr holl wasanaethau ar gael yn ddwyieithog. Mae'r pandemig wedi cael effaith tebyg ar wasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg." Bu i'r Coleg adnabod un fantais i'r Gymraeg yn ystod cyfnod Covid pan drosglwyddodd 13 myfyriwr o'r cwrs TGAU Mathemateg a Rhifedd cyfwng Saesneg i gwrs cyfwng Cymraeg, gan fod hwylustod darpariaeth ar-lein, heb newid safle o Landrillo i Goleg Menai neu Dwyfor, yn caniatáu hyn. Hefyd, nodwyd rhai heriau i'r cyfieithwyr yn ystod y cyfnod Covid 1) dim cyfleuster cyfieithu ar eu system fewnol (Google Meet) 2) pwysau gwaith ar y tîm cyfieithu: "Oherwydd y cynnydd yn y llwyth gwaith a'r angen i flaenoriaethu dogfennau yn ymwneud a Covid, bu i rai dogfennau gymryd mwy o amser na'r arfer i'w cyfieithu."


Prifysgol Bangor

Er nad yw prif safle Prifysgol Bangor ym Môn¹³⁹, o ran ei chyfraniad strategol i'r Gymraeg ar yr ynys, a'i rôl fel darparydd addysg a chyflogai i breswylwyr yr ynys, mae'r sefydliad yn llwyr ennill ei lle ym mhroffil iaith Môn. Mae perthynas agos Prifysgol Bangor â darparwyr addysg yr ynys yn golygu fod nifer wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau addysg uwch. Gweler o siart 42 fod **735 o fyfyrwyr o Fôn** wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Prifysgol Bangor, sef 7.4% o holl fyfyrwyr y Brifysgol. Gweler o siart 43 fod cynrychiolaeth dda o bob ysgol uwchradd ym Môn. Mae siart 44 yn datgelu fod 370 o'r rhain yn siarad Cymraeg yn rhugl, 90 yn llai hyderus a 275 heb fedru'r Gymraeg. Mae'r data yn cynnwys yr holl fyfyrwyr o Fôn, nid yn unig y rhai sydd newydd adael ysgol neu goleg lleol.


139 Ceir Adran Gwyddorau'r Môr ym Mhorthaethwy. <https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/index.php.cy>

Siart 42. Myfyrwyr o Fôn fel cyfran o fyfyrwyr Prifysgol Bangor 2019/20

Ffynhonnell: Prifysgol Bangor

Siart 43. Myfyrwyr o Ysgolion Môn 2019/20


Ffynhonnell: Prifysgol Bangor

Siart 44. Myfyrwyr o Fôn ym Mhrifysgol Bangor 2019/20

Ffynhonnell: Prifysgol Bangor


Mae'n gadarnhaol nodi fod 210 o fyfyrwyr Môn yn astudio yn y Meysydd Iechyd neu Wyddorau Cymdeithasol (siart 45), gan fod y sector yn galw am gyflogai dwyieithog i wasanaethu'r cyhoedd. Mae 60 yn astudio ym maes Addysg, sydd hefyd yn gylch rhinweddol gan fod siart 46 yn datgelu fod Môn yn gartref i 192 o staff academaidd Prifysgol Bangor. Mae 114 o'r rhain yn medru'r Gymraeg, gyda 50 yn rhugl. Fodd bynnag, yn y **swyddi** cefnogol a proffesiynol gwelir y canran a'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, gyda 288 allan o 330 (87%) yn siarad rhywfaint o Gymraeg, a 205 (62%) o'r rhain yn rhugl. Yn gyfan gwbl mae 77% o 522 o breswylwyr Môn sy'n gyflogedig yn y Brifysgol yn siarad rhywfaint o Gymraeg, canran uwch na phoblogaeth Môn yn gyffredinol.

Siart 45. Meysydd astudio myfyrwyr o Fôn 2018/19



Ffynhonnell: Prifysgol Bangor

Siart 46. Staff Prifysgol Bangor sy'n byw ym Môn 2019/20



Ffynhonnell: Prifysgol Bangor

Yn ogystal mae'r Brifysgol yn cynnig **ymchwil arbenigol** ar y Gymraeg a thechnoleg y Gymraeg¹⁴⁰, dwyieithrwydd¹⁴¹ a chaffael iaith¹⁴². Mae'r cyfraniad yma yn sail i lawer o negeseuon a drosglwyddir yn gan y sector addysg a hefyd ymarferwyr Cymraeg i deuluoedd Môn; megis Menter Iaith Môn, Cymraeg i Blant, a'r Mudiad Meithrin. Adnodd gwerthfawr, sy'n hwyluso gwaith o gyfathrebu â rhieni'r ynys, yw'r clasur hawdd-ei-ddarllen, 'A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism'¹⁴³, gan yr Athro Colin Baker. Yn fwy diweddar mae gwaith ymchwil yr Athro Enlli Thomas¹⁴⁴ ar ddwyieithrwydd a'i pharodrwydd yn ystod cyfnod Covid i grynhoi ymchwil yn syml mewn pythau fideo i rieni¹⁴⁵ wedi bod o gymorth i deuluoedd di-Gymraeg Môn. Mae cefnogi ymchwil Prifysgol Bangor, ac yna trosglwyddo hanfodion y canfyddiadau i rieni, yn nod parhaus i ymarferwyr sy'n cyfathrebu am y Gymraeg a dwyieithrwydd â theuluoedd yr ynys. Agwedd arall ar ymchwil ym maes y Gymraeg gan Brifysgol Bangor yw'r prosiect ARFer sydd yn cyfuno arbenigedd cynllunio iaith gydag arbenigedd seicoleg newid ymddygiad er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith¹⁴⁶. Mae Dr Lowri Hughes sy'n arwain y gwaith yma yn aelod o Fforwm Iaith Môn ac mae staff Cyngor Sir Môn wedi cynorthwyo gyda datblygiad y prosiect. Mae hyn yn sicrhau trafodaeth holistig sy'n cyfuno'r damcaniaethol a'r ymarferol ym maes datblygiad y Gymraeg.

Myfyrwyr Addysg Uwch o Fôn sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Nid oes gennym wybodaeth o ran cyfanswm y myfyrwyr o Fôn sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn sefydliadau addysg uwch Cymru. Fodd bynnag mae deiliad ysgoloriaethau'r **Coleg Cymraeg**¹⁴⁷ yn cyfrif am tua thraean o'r holl fyfyrwyr sy'n astudio'r rhan helaeth o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Y data am fyfyrwyr o Fôn sydd wedi manteisio ar gynnig y Coleg Cymraeg yw: 40 o ddeiliad Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg 2019/20 a 65¹⁴⁸ o ddeiliad Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg 2020/21. Mae'r ffigyrau yn cynnwys deiliad Prif Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg ac Ysgoloriaethau Cymhellant y Coleg Cymraeg ac mae'r myfyrwyr hyn i gyd yn astudio o leiaf 33% o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer 2020/21, dyfarnwyd 4 o Ysgoloriaethau Cyngor Môn i fyfyrwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio o leiaf 33% o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r myfyrwyr hyn wedi'u cynnwys yn y ffigyrau uchod hefyd.

Mae gan bartneriaid Fforwm Iaith Môn rôl strategol yn cefnogi'r sector addysg i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwad digonol o addysgwyr hyderus ddwyieithog i'r dyfodol¹⁴⁹.

Dysgu yn y gymuned

Oriel Môn¹⁵⁰

Mae trigolion Môn yn ymfalchio yn yr Oriel sy'n adlewyrchu eu treftadaeth. Mae pob agwedd o waith Oriel Môn yn ddwyieithog, gyda chyfleoedd a gweithgareddau i bob ystod oedran yn y ddwy iaith. Yn benodol, mae adnoddau addysgiadol symbyl yn cael ei ddatblygu gan swyddog addysg yr Oriel ar gyfer hyrwyddo hanes a balchder yn niwylliant Cymreig yr ynys. Yn ogystal, drwy Ymddriedolaeth Oriel Môn, a sefydlwyd yn 2020, ceir gynllun aelodaeth sydd am gynnig cyfleodd pellach i oedolion ddysgu mwy am gasgliadau'r Oriel gyda'r curadur.

140 Canolfan Bedwyr, Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor:

<https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/index.php.cy>

141 Gwybodaeth am y Ganolfan Dwyieithrwydd: <https://www.bangor.ac.uk/bilingualism/index.php.cy>

142 Rhaglen feistr mewn datblygiad iaith nodweddiadol ac annodweddiadol mewn poblogaethau uniaith a dwyieithog <https://www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/caffael-a-datblygu-iaith-msc>

143 'A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism', Colin Baker; Multilingual Matters, 4ydd argraffiad 2014.

<https://onraisingbilingualchildren.com/2014/06/29/if-you-only-buy-one-book-about-bilingualism-a-parents-and-teachers-guide-to-bilingualism/>

144 Rhestr cyhoeddiadau Enlli Thomas: <https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/staff/enlli-thomas/en#publications>

145 Negeseuon i rieni di-Gymraeg ar ran Llywodraeth Cymru, yn ymateb i gyfyngiadau ar gyfleoedd yn y Gymraeg oherwydd Covid 2020: <https://llyw.cymru/cymraeg-i-blant/lond-haf-o-gymraeg>

146 Prosiect ARFer, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor: <https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/arfer.php.cy>

147 Gwefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol <https://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/>

148 Coleg Cymraeg: 'gall y ffigyrau hyn amrywio ychydig wrth i'r broses o fonitro ysgoloriaethau fynd rhagddi'.

149 BBC CymruFyw 'Angen denu mwy o athrawon i gyrraedd nod 2050': <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53664265>

150 Oriel Môn, safle we. <https://www.orielmon.org/cy/amdonom-ni>

Llyfrgelloedd¹⁵¹

Mae pob agwedd o waith llyfrgelloedd Môn yn ddwyieithog, gyda chyfleoedd a gweithgareddau ar gael i holl ystod oedran yn y ddwy iaith.

Archifau¹⁵²

Mae pob agwedd o waith yr Archifau ar gael yn ddwyieithog i bob oedran.

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd¹⁵³

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig cyfres o ddarlithoedd a theithiau cyhoeddus blynyddol sy'n gyfle i drigolion Môn ddysgu am dreftadaeth ffisegol yr ynys. Arddangosfa cloddiadau archeolegol Parc Cybi, ger Caergybi, oedd un o'r uchafbwyntiau 2020 ond bu cyfyngu ar raglen deithiau'r Ymddiriedolaeth oherwydd Covid-19. Cafwyd pum darlith ar-lein yn 2020, gydag is-deitlau Cymraeg.

Cymraeg i Oedolion

Mae cyrsiau **Dysgu Cymraeg** ar gael yn ystod y dydd a gyda'r nos, gyda'r mwyafrif yn cael eu cynnal mewn dosbarthiadau rhithiol ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid. Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin yw'r darparwr i Fôn ar ran y y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r opsiynau dysgu'n eang ond y cyfleoedd wyneb-i-wyneb wedi eu cyfyngu yn unol â rheoliadau Covid-19. Gweler o tabl 32 fod 244 o ddysgwyr wedi mynychu 33 o gyrsiau ym Môn yn y cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr 2020.

Tabl 32. Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg ym Môn Medi-Rhagfyr 2020

Lefel	Nifer y Cyrsiau	Nifer y Dysgwyr
Mynediad 1	6	54
Mynediad 2	6	41
Sylfaen 1	8	63
Canolradd 1	6	38
Canolradd 2	2	11
Uwch 1	3	21
Uwch 4 +	1	7
Hyfedredd	1	9
Cyfanswm	33	244

Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg

Yn ogystal â'r ddarpariaeth arlein, pan oedd/fydd cyfarfod am wersi yn ymarferol bosib, roedd lleoliadau'r gwersi yn y cyfnod Medi-Rhagfyr 2020 i gynnwys: Caergybi, Llanfairpwll, Llangefni, Aberffraw, Benllech, Porth Llechog, Rhosybol, Aberffraw, Bae Cemaes, Caergeiliog, Biwmares, Moelfre, y Fali, ac Aberffraw.

151 Llyfrgelloedd Môn, Cyngor Sir Ynys Môn, safle we.

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/browse/Trigolion/Llyfrgelloedd/?fbclid=IwAR2Nsqqx0lekDbDLZCz9MyWbK8ddp4FCAE2jCSE8NZAbJa4lhUN8Ak5pFq8#>

152 Archifau Môn, Cyngor Sir Ynys Môn, safle we. <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Archifau/Ymweld-%C3%A2r-Archifau-M%C3%B4n/Trefnwch-eich-ymweliad-yn-yr-Archifdy.aspx>

153 Safle we Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd: <http://www.heneb.co.uk/windex.html>

8. Iechyd a lles

Y gwasanaeth iechyd

Mae fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru yn sail i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2019, wrth lansio Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru 'Mwy Na Geiriau'¹⁵⁴ pwysleisiwyd yr egwyddor **ragweithiol**: "Mae mynd ati'n rhagweithiol i ofyn am ddewis iaith pobl a chynnig gwasanaethau yn y Gymraeg wedi bod yn un o egwyddorion allweddol *Mwy na geiriau*. Mae'n galw am newid mewn diwylliant sy'n golygu bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn ganolog i wasanaethau iechyd a gofal, ac mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau ac nid ar y defnyddiwr'.

Gwasanaethir Môn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sydd hefyd yn gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau iechyd cychwynnol, cymuned, meddwl ac ysbytai llym ar gyfer y cyhoedd ym mhob rhan arall o ogledd Cymru. Yn sgil hynny – gyda gweithlu o dros 17,000, wedi eu lleoli ar draws y gogledd – BIPBC yw sefydliad iechyd mwyaf Cymru.

Mae BIPBC wedi ymrwymo i'r egwyddor y dylai'r iaith Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal ac y dylai cleifion, fel mater o arfer da, dderbyn gwasanaethau yn unol â'u dewis iaith. Adlewyrchwyd hyn gan y datganiad canlynol, oedd yn rhan o Gynllun Iaith Gymraeg blaenorol y sefydliad (oedd yn weithredol rhwng Hydref 2010 a Rhagfyr 2018): 'Rydym yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith gyntaf ... Ein nod yw galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio ein gwasanaethau i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol'.¹⁵⁵

Disodlwyd awdurdod Cynllun Iaith Gymraeg BIPBC pan ddaeth y sefydliad yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ar ddiwedd Tachwedd 2018.¹⁵⁶ Ochr yn ochr â gofynion y meincnodau statudol hynny, mae datblygiad darpariaethau dwyieithog o fewn y Bwrdd Iechyd hefyd bellach yn cael eu llywio gan y targedau penodol sydd wedi eu cynnwys o fewn fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

Er mwyn sicrhau bod arweiniad, cymorth a chynngor arbenigol ar gael i staff mewn perthynas â'r Gymraeg, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi Tîm y Gymraeg, sy'n cynnwys Pennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg, dau Swyddog Iaith Gymraeg, Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a Thiwtor y Gymraeg (sy'n darparu hyfforddiant iaith i staff ar draws y sefydliad). Ar yr un pryd, mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd uned gyfieithu sylweddol ac mae'r gwaith o hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn BIPBC yn derbyn cefnogaeth barhaol gan uwch-swyddogion y sefydliad (gan gynnwys aelodau'r Bwrdd ei hun).

O ran data ar iechyd a lles, Cyfrifiad 2011 sy'n parhau i gynnig yr wybodaeth fwyaf cynhwysfawr ynglŷn ag iechyd, y Gymraeg, a thrigolion Môn. Mae tabl 33 a thabl 34 yn dangos iechyd cyffredinol siaradwyr Cymraeg Môn ynghyd a'r nifer a chyfran o siaradwyr Cymraeg ar yr ynys sydd â phroblem iechyd neu anabled hirdymor, a'r newid sydd wedi bod rhwng 2001 a 2011.

Yn 2011 roedd 81.1% (31,268 o bobl) o'r boblogaeth 3+ oedd yn gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn yn datgan bod eu hiechyd yn dda neu dda iawn tra bod 13.8% yn datgan iechyd gweddol a 5.1% yn datgan iechyd gwael neu wael iawn. Ers 2001 mae iechyd cyffredinol y boblogaeth 3+ sy'n siarad Cymraeg ar Ynys Môn wedi gwella, gyda chynnydd o 14.3% yn y nifer yn datgan iechyd da neu dda iawn.

Mae cyfran uwch o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (81.1%) yn nodi bod ganddynt iechyd da neu dda iawn o gymharu â'r boblogaeth gyfan (78.6%) ar Ynys Môn yn 2011.

154 Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau', Llywodraeth Cymru, 2019

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf>

155 Cynllun Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 13eg Hydref 2010.

156 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Yr Iaith Gymraeg: <https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-lywodraethu-a-sicrwydd/yr-iaith-gymraeg/>

Tabl 33. Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl iechyd cyffredinol, 2001 & 2011

Iechyd Cyffredinol	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Iechyd da neu dda iawn	27,358	70.3%	31,268	81.1%	3,910	14.3%	10.8%
Iechyd gweddol	8,018	20.6%	5,330	13.8%	-2,688	-33.5%	-6.8%
Iechyd gwael neu wael iawn	3,517	16.8%	1,970	5.1%	-1,547	-44.0%	-11.7%
Pob oedran (3+)	38,893		38,568		-325	-0.8%	

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl TT039; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC3202WA

Roedd un rhan o bump (20.9%) o'r boblogaeth 3+ oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 yn nodi bod ganddynt broblem iechyd neu anabledd tymor hir. Mae hyn yn gyfran ychydig yn is na phoblogaeth gyfan Ynys Môn (23.1%). Fodd bynnag mae'n adlewyrchu demograffeg siaradwyr Gymraeg a'r di-Gymraeg ym Môn, sef canran uwch o siaradwyr Cymraeg sy'n ifanc a phroffil oed mewnfudo i'r ynys (Gweler Adran 3 ar Ddemograffeg).

Tabl 34. Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl problem iechyd tymor-hir neu anabledd, 2001 & 2011

Problem iechyd neu anabledd tymor-hir	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Gyda phroblem iechyd neu anabledd tymor hir	7,873	20.2%	8,076	20.9%	203	2.6%	0.7%
Heb broblem iechyd neu anabledd tymor hir	31,020	79.8%	30,492	79.1%	-528	-1.7%	-0.7%
Pob oedran (3+)	38,893		38,568		-325	-0.8%	

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl TT039; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC3202WA

O ran y gwasanaeth iechyd a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ceir mewnwediad yn y tabl 35 o sgiliau ieithyddol staff y Bwrdd Iechyd ym Môn. O'r 364 aelod staff ym Môn, dim ond 9.6% sydd heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg, gyda 26.9% yn nodi hyfedredd yn y Gymraeg a 20.8% arall â'r sgiliau i drafod materion anarbenigol a chynnal asesiadau a chyfarfodydd yn y Gymraeg. Er hwylustod cynhwysir y lefelau (tabl 36) i gyfeirio atynt wrth ddehongli lefelau Cymraeg posib gwasanaeth y gweithlu iechyd ym Môn. Nid oes data ar gael i ddangos beth oedd dewis iaith y cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth o Fôn.

Tabl 35. Sgiliau iaith Gymraeg gweithlu BIPBC ym Môn, Tachwedd 2019

	Lefel 0 - dim sgiliau	Lefel 1 - mynediad	Lefel 2 - sylfaen	Lefel 3 - canolradd	Lefel 4 - uwch	Lefel 5 - hyfedredd	Cyfanswm
Ynys Môn - nifer	35	55	54	46	76	98	364
Ynys Môn - canran	9.6%	15.1%	14.8%	12.6%	20.9%	26.9%	100%

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Tabl 36. Lefelau asesu gallu yn y Gymraeg ar gyfer gweithlu BIPBC

Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Gallaf ddangos cwrteisi ieithyddol trwy agor a chau sgwrs yn Gymraeg. Gallaf roi a derbyn manylion personol. Gallaf ddweud enwau lleoedd/enwau cyntaf neu arwyddion Cymraeg yn gywir	Gallaf ddeall hanfod cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Gallaf roi a derbyn cyfarwyddiadau	Yn gallu defnyddio brawddegau mwy cymhleth gan ddefnyddio cymalau. Mae ganddynt ddigon o eirfa i ddelio â sefyllfaoedd bob dydd annisgwyl, e.e. sgwrsio wrth gwrdd â dieithryn. Yn defnyddio acen a phwyslais gyda chywirdeb digonol i fod yn ddealladwy ac i egluro ystyron. Gallu sgwrsio yn bennaf yn Gymraeg ond troi at Saesneg mewn trafodaeth i roi gwybodaeth fanwl.	Yn gallu creu rhai brawddegau cymhleth ac mae ganddo eirfa ddigonol i allu trafod unrhyw faterion anarbenigol sy'n codi, a delio â sefyllfaoedd mwy ffurfiol o ystyried y cyfle i baratoi, e.e. asesiadau, cyfweiliadau a chyfarfodydd.	Yn rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gallaf ddelio'n effeithiol gydag ymholiadau cymhleth gan y cyhoedd neu wrthdaro yn Gymraeg. Gallaf gyfweled neu gwestiynu yn Gymraeg yn ystod ymchwiliad

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2021

Wrth ymateb i arolwg diweddar Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag 'Effaith Covid-19 ar y Gymraeg', mae BIPBC yn nodi rhai newidiadau sy'n anffafriol a rhai sy'n ffafriol mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau Cymraeg:

- Mae'r gallu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi cael ei effeithio am y tro oherwydd yr anallu i gynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb a chyfyngiadau technegol. Nid yw GIG Cymru yn caniatáu defnyddio Zoom ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithiol ac ar hyn o bryd, Zoom yw'r unig lwyfan sy'n cynnwys sianel ychwanegol, er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfodydd rhithiol. Mae'r Llywodraeth mewn trafodaethau â Microsoft i weld a yw'n bosibl datblygu'r pecyn Microsoft Teams i gynnwys defnydd o gyfieithu ar y pryd. Mae'r gwaith yn parhau i geisio sicrhau y gallwn ail ddechrau cynnig cyfleuster cyfieithu ar y pryd effeithiol cyn gynted â phosibl.
- Mae Tîm y Gymraeg yn gynnal arolygon siopwr cudd bob chwarter, er mwyn monitro argaeledd a safon gwasanaethau dwyieithog mewn ysbytai cymuned, meddygfeydd sydd o dan reolaeth y Bwrdd Iechyd ac adrannau penodol o fewn ysbytai llym Gwynedd, Glan Clwyd a Maelor Wrecsam. Yn amlwg, nid oedd modd parhau i gynnal yr arolygon hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Er bod dysgu yn rhithiol a datblygu cynllun hyfforddiant newydd wedi bod yn heriol, mae 'na lawer o fanteision ynghlwm â dysgu dros y we – o ran y tiwtor ac o ran y dysgwyr. Mae rhai o'r manteision yn cynnwys arbedion o ran costau teithio i ddosbarthiadau. Hefyd, mae cynnal gwersi'n rhithiol hefyd yn caniatáu i'r holl ddysgwyr sydd ar yr un lefel o fewn y Bwrdd ddysgu gyda'i gilydd / ar yr un pryd. Fe wnaeth 168 o staff gofrestru ar gyfer cyrsiau ar-lein Tiwtor y Gymraeg BIPBC rhwng misoedd Mawrth a Medi 2020, a llwyddodd deugain ohonynt i gwblhau eu cyrsiau yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r uchod yn cyfeirio at y gwasanaeth yn rhanbarthol, yn hytrach nag yn benodol i Fôn, ond mae'n adlewyrchu'r heriau a dyfalbarhad BIPBC i ddarparu gwasanaethau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer trigolion yr ynys, er gwaethaf y cyfnod o argyfwng.

Ac eithrio dwy feddygfa yng Nghaergybi (sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Bwrdd Iechyd), mae pob meddygfa arall ym Môn yn gweithredu fel darparwyr annibynnol. Byddai modd yn dechnegol gasglu data ar ddefnydd iaith y cleifion, gan fod modd nodi dewisiadau iaith ar systemau technoleg gwybodaeth a ddefnyddir gan feddygfeydd i gofnodi gwybodaeth am gleifion. Mae yma rwystrau ymarferol fodd bynnag: 1) efallai na fydd y data'n gymharol os nad yw pob meddygfa'n defnyddio'r un system, 2) er mai trosolwg data fyddai'r cais, mae'n bosib y byddai'r meddygfeydd yn pryderu am ddiogelu data, 3) o dan argyfwng pandemig efallai na fyddai'r meddygfeydd yn gweld hyn yn flaenoriaeth.

Cyn cyfnod Covid bu i Menter Iaith Môn, drwy gynllun Cymraeg Busnes (bellach 'Helo Blod'), gydweithio â rhai o'r meddygfeydd ym Môn i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y meddygfeydd. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd, ac felly roedd cyfle i uno'r ddarpariaeth oedd ar gael o'r ddwy ochr, er mwyn cynnig pecyn o wasanaethau fyddai'n cefnogi'r Meddygfeydd i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Bydd cyfle i ail-asesu'r gofynion, gan y meddygfeydd a'r cyhoedd am wasanaeth yn y Gymraeg, ar ôl cyfnod y cyfyngiadau Covid.

Adnoddau iechyd a lles yn y gymuned

Medrwn Môn¹⁵⁷ yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS / CVC) sy'n hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, a mudiadau gwirfoddol a chymunedol ym Môn. Mae'n gweithredu i Bolisi Iaith gan rannu gwybodaeth am wasanaethau iechyd a lles yn y gymuned yn ddwyieithog. Ni chesglir data ar y Gymraeg o ran defnyddwyr y gwasanaethau, a gwirfoddol nid statudol yw'r cynnig o Gymraeg yng ngwasanaeth grwpiau gwirfoddol, er bod yna arweiniad i wneud ar sail cydraddoldeb ag arfer dda¹⁵⁸.

Un o gryfderau'r sector wirfoddol ym Môn yw fod llawer o grwpiau eisoes yn gweithredu yn y Gymraeg. Er nad oes gofynion iaith statudol, o wasanaethu cymuned gyda 57.2% o siaradwyr Cymraeg, mae'r disgwyliadau yn uwch y bydd darpariaeth ddwyieithog ym Môn.

Yn 2020, gan wirio rhagflaen gyda'r darparwyr fod y gwasanaeth yn ddwyieithog, casglodd Medrwn Môn restr o ddarparwyr gwasanaeth iechyd a lles mewn cyfeirlyfr defnyddiol¹⁵⁹ (gweler tabl 37). Mae'n werth cynnwys crynodeb o'r darparwyr yn y proffil iaith, er mwyn codi ymwybyddiaeth defnyddwyr fod yma gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg (er na wyddom pa mor rhagweithiol yw'r cynnig ym mhob gwasanaeth). Yn ogystal, mae'r rhestr yn gofnod cyfleus o wasanaethau iechyd a lles yn y gymuned gall elwa o wirfoddolwyr neu staff sy'n medru siarad Cymraeg, gan fod Medrwn Môn wedi amlygu'r galw am fwy o siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli.

Heb ddata iaith, cyfeiriwn at adborth anecdotaidd gan y sector sy'n adrodd fod yna duedd i drigolion sy'n medru'r Gymraeg fod yn lleol ac felly i fanteisio mwy ar eu cysylltiadau a'u rhwydweithiau os am gynnig neu dderbyn cymorth. I fewnfudwyr, mae'n fwy o her i ddod yn rhan o'u cymuned newydd felly maent yn fwy tebygol o gychwyn grŵp newydd neu i gynnig a derbyn cymorth drwy gyswllt â Medrwn Môn.

Dengys yr 'ymwneud' digidol wrth glicio ar bump newyddlen diweddaraf Medrwn Môn fod 60% wedi ymateb i'r newyddlen Saesneg a 40% i'r newyddlen Gymraeg. Fodd bynnag, dywed Prif Weithredwraig Medrwn Môn: "Bu i dros 800 o bobl ddatgan diddordeb i wirfoddoli neu gefnogi pobl yn eu cymunedau ar ddechrau'r pandemig yn Mawrth 2020. Oherwydd natur argyfyngus y sefyllfa, ni wnaethom fonitro nifer y rhai a oedd yn siarad Cymraeg ond mae ein gwybodaeth anecdotaidd yn ystod Covid-19 wedi dangos fod niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg wedi gwirfoddoli, a hynny i gael sgwrs dros y ffôn neu i gefnogi cymydog."

158 Arweiniad ar y Gymraeg i'r sector gwirfoddol <https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Yr-iaith-Gymraeg-%E2%80%93-cyd-destun.pdf>

159 Cyfeirlyfr gwasanaethau iechyd a lles Môn gan Medrwn Môn
<https://cy.medrwnmon.org/Handlers/Download.ashx?IDMF=466e2ec9-fc4d-46ec-9adc-b71516f0fe17>

Tabl 37. Rhestr gan Medrwn Môn o ddarparwyr sy'n cynnig cefnogaeth iechyd a lles yn ddwyieithog, 2020

Medrwn Môn	Medrwn Môn ydy'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Ynys Môn. Rôl Medrwn Môn ydy hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol, drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potensial yr Ynys.
Linc Cymunedol Môn	Gwasanaeth Prescreibio Cymdeithasol o fewn Medrwn Môn i bobl dros 18 oed. Cyswllt drwy Feddyg Teulu, neu 01248 725745 / linc@medrwnmon.org .
SPOA - Grant Cefnogi Tai	Llwybr cyfeirio ar gyfer grant tai a chymorth. spoa@ynysmon.gov.uk neu 01248 751937.
Teulu Môn	Gwasanaeth cynhwysol ar gyfer teuluoedd Môn. 01248 725888 teulumon@ynysmon.gov.uk .
Gwasanaeth Oedolion	Gwasanaeth cynnal annibyniaeth. Gwybodaeth gymunedol a chyswllt â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. 01248 752752 atduty@ynysmon.gov.uk .
Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol	Cyfeiriad drwy feddyg teulu at wasanaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Cyswllt drwy feddyg teulu neu Gwasanaeth Oedolion 01248 752752.
SilverCloud	Cwrs ar-lein sy'n cynnig cymorth ar gyfer gorbryder, iselder a llawer mwy - y cwbl yn seiliedig ar Therapi Gwybyddol Ymddygiadol. Gall unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn gofrestru ar: nhs.uk/silvercloudhealth.com/signup .
Monitro Gweithredol Mind	Gwasanaeth chwe wythnos o hunangymorth dan arweiniad ar gyfer gorbryder, iselder, hunan-barch a mwy. Cyfeiriad gan Feddyg Teulu neu gofrestru'n uniongyrchol ar: www.mind.org.uk/AMCymru .
CALL	Llinell wrando a chymorth emosiynol cyfrinachol ar gyfer iechyd meddwl sydd ar agor 24 awr y dydd, bob dydd. Gall hefyd eich cyfeirio at gymorth lleol a gwybodaeth amrywiol ar-lein. 0800132737, tecstio "help" i 81066 neu fynediad drwy http://callhelpline.org.uk/ .
Bywyd ACTif	Cwrs fideo ar-lein Bywyd ACTif yn rhannu ffyrdd ymarferol o ymdopi â meddyliau a theimladau sy'n achosi gofid, gan helpu i fyw bywyd gyda mwy o hyder. https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/bywyd-actif .
Beat	Llinell gymorth a gwybodaeth i oedolion a phobl ifanc, gan gynnig amgylchedd cefnogol i siarad am anhwylderau bwyta a sut i gael help. 0808 801 0677 neu drwy www.beateatingdisorders.org.uk/ .
Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc	Mae'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc yn cysylltu pobl ifanc, rhwng 11 a 25 mlwydd oed, â gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy, er mwyn meithrin gwydnwch. Mae'r pecyn ar gael ar: bit.ly/ypmhten
MIND	Yr elusen iechyd meddwl sy'n creu cymuned lle mae pobl yn teimlo y gallant siarad yn agored am eu problem iechyd meddwl heb ofni cael eu gwrthod na ddioddef camwahaniaethu. 01286 685279 neu info@monagwyneddmind.co.uk .
Parabl – Y Bartneriaeth Therapiau Siarad	Gwasanaeth sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n mynd trwy'r profiadau megis pryder ysgafn i gymedrol neu iselder, anawsterau iechyd cyffredin eraill, materion profedigaeth, materion perthynas, neu straen. Cyswllt cyfrinachol ffôn: 0300 777 2257, ask@parabl.org neu wefan: www.parabl.org .
Y Groes Goch Brydeinig - Gwell Iechyd Meddwl	Gwasanaeth newydd i helpu unigolion i ganfod atebion cynaliadwy i ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl oherwydd Covid-19. E.e. Pryderon o ran cyflogaeth neu gartref, teimlo'n unig ac yn ynysig, neu yn methu â chyflawni tasgau hanfodol (siopa/gofal personol). 07725 201 506 neu northwales@redcross.org.uk .
CAIS	Help i bobl sy'n cael problemau gyda chaethiwed, camddefnydd sylweddau, iechyd meddwl, datblygiad personol a chyflogaeth – yn ogystal â chynnig cymorth a gwybodaeth i'w teuluoedd a'u ffrindiau. 0345 061 2112.

Gorwel	Cyngor cyfrinachol am ddim - gwybodaeth a chefnogaeth i ferched, dynion a phlant a effeithiwyd gan Drais yn y Cartref ym Môn a Gwynedd. 0300 111 2121 gorwel@gorwel.org . Llinell Gymorth 24/7 Byw Heb Ofn Cymru: 0808 80 10 800 neu drwy neges destun 24/7 ar 07860 077333.
DAN 24/7	Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Un pwynt cyswllt i unrhyw un yng Nghymru sydd eisiau mwy o wybodaeth a/neu help ynglŷn â chyffuriau a/neu alcohol. 0808 808 2234 neu destun 24/7: 81066.
Alcoholigion Anhysbys	Gwasanaeth os yw'r arferion yfed wedi cyrraedd y pwynt lle mae'n ofid. Alcoholigion Anhysbys - a rhaglen adferiad AA o alcoholiaeth. Llinell Gymorth (ledled Prydain) 0800 9177 650 neu help@aamail.org .
GamCare	Llinell gymorth hapchwarae Brydeinig ydy GamCare - sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfrinachol i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan broblemau gamblo. (Dywedwyd byddai modd cael gwirfoddolwr iaith Gymraeg os oedd cais). 0808 8020 133 neu www.gamcare.org.uk .
Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn	Cyngor am ddim am bob math o broblemau, budd-daliadau, tai neu gyflogaeth, neu yn wynebu argyfwng. 0300 330 11921 neu sgwrs dros y we https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/Cysylltu-a-ni/ . Llinell Gymorth: 0808 223 1133. Llinell Gymorth Hawlio Credyd Cynhwysol: 0800 1448444. Gwasanaeth 'I CAN' os yn teimlo'n bryderus neu dan straen, ffonio neu neges destun at 077496 571241.
Digartref & Lighthouse, a Gwasanaeth Cyfryngu	Digartref: cyngor tenantiaeth i rai sydd wedi cael eu gwneud yn ddi-waith neu brofi lleihad incwm sylweddol. Hefyd cyngor ymyrraeth teulu i rieni / plant sy'n ei chael yn anodd ymdopi yn ystod y cyfnod pandemig. Lighthouse: Canolfan Dydd a phrydau tecawê i'r rhai sy'n cysgu allan, mewn Gwely a Brecwast, neu yn syrffio soffas. Ffôn: 01407 769995 Gwasanaeth Cyfryngu ac Ymyrraeth: cefnogaeth ffôn, cyngor a gwasanaeth cyfeirio i blant, pobl ifanc a rhieni sy'n cael anawsterau teuluol, problemau colled a phrofedigaeth. Ffôn: Catrin 07918624655 / Grant 07425623976.
Golau – gan Barnados	Cefnogaeth Iechyd Meddwl a Lles i blant a phobl ifanc 8-18 oed ar Ynys Môn. Cymorth a therapi atal ac ymyrryd yn gynnar mewn perthynas â lles i blant a phobl ifanc rhwng 8 a 18 oed a'u teuluoedd. Yn gyfredol mae sesiynau ffôn, cyfryngau cymdeithasol, Facetime neu WhatsApp. GOLAU@barnados.org.uk neu 01248 751194 / 07714754625.
MEIC	Llinell gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru - hyd at 25 oed. Gwybodaeth am beth sy'n digwydd yn yr ardal leol, a help i ddelio hefo sefyllfa anodd. Nid oes rhaid rhoi enw. Cysylltu ar y ffôn, neges destun neu ar-lein. Rhadffôn: 080880 23456, neges testun 84001, neu sgwrsio ar y we www.meic.cymru .
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol sy'n cael ei gydnabod fel y prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol. Gweithio'n lleol i gynnig arweiniad a chynghor ymarferol i staff y cylchoedd, gwirfoddolwyr a rhieni. Ffôn: 01970 639639, e-bost: post@meithrin.co.uk .
Gofalwyr Ifanc Ynys Môn a Gwynedd	Cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn gofalu am aelod o'r teulu fel rhiant, brawd neu chwaer a allai fod â salwch, anabledd, anhwylder iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Cefnogaeth dros y ffôn, drwy alwadau fideo neu wyneb yn wyneb. Gwybodaeth gyfredol ar https://www.facebook.com/GofalwyrIfancYnysMonGwynedd , e-bost: ynysmonyongcarers@actionforchildren.org.uk , neu 01248 353 095.
Gwasanaeth i Ofalwyr	Gwasanaeth i ofalwyr yn cynnig cefnogaeth emosiynol, a gwybodaeth arbenigol, gan gynnwys gwybodaeth ariannol. Hefyd gwasanaeth 'Cynllunio ar Gyfer y Dyfodol' gan gynnwys 'Cynllunio mewn Argyfwng'. 01248370797, help@carersoutreach.org.uk , neu facebook: Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr.
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru	Cymorth 1-1 yn y cartref, gofal i ryddhau'r gofalwr i fynychu apwyntiad meddygol/deintyddol/optegol), galwadau siopa a chasglu presgripsiwn, cymorth gyda rhoi bath/ cawod, cymorth gyda gwaith tŷ, ac ati. Cyswllt: 01492 542212.

Gofalwyr Cymru	Llinell gymorth o Gaerdydd 029 2081 1370 neu e-bost info@carerswales.org . Gwybodaeth a chyngor i ofalwyr a sawl sesiwn ryngweithiol wythnosol ar lein: https://www.carersuk.org/wales .
Hybiau Rhithwir Môn	Pum Hwb Cymunedol peilot ar draws Ynys Môn i dreialu cynllun Hybiau Rhithwir Môn i godi hyder digidol unigolion a lleihau unigrwydd o fewn ein cymunedau. Yn galw am wirfoddolwyr a hyfforddir gan Gymunedau Digidol Cymru. sioned.young@acgm.co.uk / 01286 808 735.
Gwasanaeth Cadw mewn Cysylltiad	Dros gyfnod Covid-19 mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn darparu gwasanaeth cadw mewn cysylltiad ar gyfer pobl hŷn a / neu fregus yn lleol (gan gynnwys cyn-filwyr). Galwadau ffôn i rai sydd wedi eu hynysu; cymorth ar faterion llesiant, prydau poeth i'r cartref, gofal personol, gwasanaeth siopa, ac eistedd mewn i gynorthwyo gofalwyr. Mae cost i'r gwasanaeth. 01286 677 711 neu e-bost info@acgm.co.uk .
Gwasanaeth Cyfeillion Ffôn	Gwasanaeth galwadau i godi ysbryd pobl drwy gael sgwrs gyfeillgar dros y ffôn. Ymdrech i baru pob person hŷn (75+ gan amlaf) â chyfaill ffôn sydd â rhywbeth yn gyffredin er mwyn sicrhau bod y sgwrs yn llifo. Trefniant drwy Reengage ar 0800 716 543 neu www.reengage.org.uk / www.reengage.org.uk/refer .
Cynllun Pobl Hŷn Môn	Cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i bobl 55 oed a throsodd ar Ynys Môn er mwyn galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib. Darperir y cynllun gan Gorwel, Grŵp Cynefin gyda chymorth ariannol Cyngor Sir Ynys Môn. 0300 111 0226 neu poblhyn@gorwel.org .
Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS)	Cludiant cymunedol, e.e. casglu siopa neu bresgripsiynau a mynd a phobl i apwyntiadau ysbyty. Hefyd, gwasanaeth 'Safe and Well', sef galwad ffôn at unigolion a allai fod yn teimlo'n uni, a Tech Angels i gynnig help Technoleg Gwybodaeth dros y ffôn. 01248 661915 neu ynysmongwyneddhub@royalvoluntaryservice.org.uk .
Dementia Connect	Cefnogi pobl sydd â dementia, eu gofalwyr, a'u rhwydweithiau cymorth. Hefyd yn cefnogi pobl sy'n poeni am eu cof neu sydd â Nam Gwybyddol Ysgafn. Hunan gyfeirio dros y ffôn: 0330 0947 400 (llinell ffôn iaith Gymraeg), 0333 1503456 (llinell ffôn ledled Prydain), neu e-bost dementia.connect@alzheimers.org.uk .
Gofal mewn Galar / CRUSE	Cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion pan fydd rhywun yn marw, ac yn gweithio i wella gofal cymdeithas am bobl mewn profedigaeth. 01492 536577 neu e-bost northwales@cruse.org.uk .
Samariaid	Llinell gymorth am sgwrs hollol gyfrinachol am feddyliau hunanladdol, problemau perthynas a theulu, profedigaeth, pryderon ariannol, materion delwedd y corff, straen neu orweithio. Ffôn y Samariaid: 116 123.
SSAFA	Helpu cymuned y lluoedd arfog gyda gofal corfforol neu emosiynol. Gall fod yn broblemau caethiwed, perthynas wedi dod i ben, dyled, digartrefedd, straen ôl-drawmatig, iselder neu anabledd. 0800 731 4880, neu ymholiadau cyffredinol: 020 7463 9200.
Epilepsi Cymru	Cefnogaeth i bobl gydag epilepsi a'u teuluoedd. Gweithiwr Allgymorth Gogledd Cymru yn i ddarparu cefnogaeth a chyngor dros y ffôn ac e-bost. Lynne Pearce: 07525806511 / lynnepearce@epilepsy.wales .
Cymunedau Digidol Cymru	Helpu sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl a allai elwa o gael sgiliau digidol sylfaenol. Yn cynnig: Asesiad cychwynnol o'r sefydliad i ddatblygu a darparu gweithgareddau cynhwysiant digidol; hyfforddiant digidol i staff a gwirfoddolwyr; benthg offer digidol; cymorth gwirfoddolwyr digidol; achrediad cynhwysiant digidol; rhwydwaith o bartneriaethau. Ffôn: 0300 111 5050, e-bost: info@wales.coop .
MônCF	Helpu unigolion i ddechrau, newid neu ddatblygu eu gyrfaedd. Hyfforddiant cyflogadwyedd sy'n plethu â gwasanaeth mentora personol. Cysylltiadau â chyflogwyr lleol sy'n gallu cynnig cyfleoedd gwaith unigryw yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. 01407 762004 neu info@moncf.co.uk .

Coed Lleol (Small Woods Wales)	Sesiynau Coed Actif, sy'n cynnwys crefftau coetir, adnabod natur, ymwybyddiaeth ofalgar, cerdded, coedwriaeth (bushcraft), gweithio gyda helyg, a gwaith coed. Mentor Coetir, Ynys Môn actifwoodsanglesey@smallwoods.org.uk / 07932 924652. Arweinydd, Ynys Môn: 07590 383153. Facebook: @actifwoodsanglesey.
Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn	Llyfrau i'w benthyg, gwasanaeth Galw a Chasglu llyfrau, gwasanaeth llyfrau i'ch cartref i rai sydd methu cyrraedd llyfrgell, Llyfrgell Deithiol, gwybodaeth eang gan lyfrgellwyr profiadol, gweithgareddau amrywiol megis i blant neu syrjeri digidol, eLyfrau ac eLyfrau Llafar trwy'r ap BorrowBox, eGylchgronnau trwy ddolen ar y wefan, cyrsiau iaith di-dâl ar y wefan, mynediad at Theory Test Pro i ymarfer am brawf gyrru. (Angen rhif aelodaeth a PIN ar gyfer adnoddau digidol). Ffôn: 01248 752095 / 01407 762917, e-bost: lyfrgelloedd@ynysmon.gov.uk , gwefan: www.ynysmon.gov.uk/Llyfrgelloedd .
MônActif	MônActif - Amrywiaeth o gyfleusterau hamdden i bobl o bob oed a gallu. Canolfannau Hamdden: Amlwch 01407 830060; Caergybi 01407 764111; Porthaethwy 01248 715653; Llangefni 01248 722966; e-bost monactif@ynysmon.gov.uk .

Ffynhonnell: Medrwn Môn 'Llyfryn Gwybodaeth Linc Cymunedol' 2020

Mae'r broses o lunio'r proffil iaith wedi amlygu bylchau yn ein dealltwriaeth o ddefnydd y Gymraeg yn y gwasanaethau gwirfoddol ym Môn. Mae Medrwn Môn yn pwysleisio mantais cynnig y Gymraeg mewn gwasanaethau gwirfoddol ond nid yw hyrwyddo, monitro defnydd, na ymchwilio i faterion iaith, o fewn cylch gorchwyl Cyngor Gwirfoddol Sirol i'r ynys.

Nid ym Môn yn unig amlygwyd y bylchau yma, mae cynnig y Gymraeg yn y sector wirfoddol yn fater o drafodaeth gyfredol gyda Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Mentrau Iaith Cymru. Dengys y dystiolaeth o Fôn pam y byddai'r sector yn elwa o fwy o arweiniad ar fapio, cynllunio, cefnogi a monitro defnydd iaith.

Gwêl Medrwn Môn gyfleoedd i'r sector ddatblygu'n bellach: drwy ymchwil i'r Gymraeg yn y trydydd sector; ymgyrch hyrwyddo defnydd a dewis ieithyddol; manteisio ar y pwyslais ar ddewis ieithyddol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant; a chydweithio pellach rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, y Mentrau Iaith a Chomisiynydd y Gymraeg i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Ym Môn, mae cydweithrediad yn parhau rhwng Medrwn Môn a Menter Iaith Môn, e.e. sesiwn 'Ymwybyddiaeth iaith a Chyfle Cyfartal' i staff Medrwn Môn 3/2020, a bwriedir cydweithio'n agosach yn 2021 i adnabod cyfleoedd i fynd i'r afael a rhai o'r heriau i'r sector parthed y Gymraeg a amlygwyd uchod.

O ran lles yn y gymuned, cydnabyddir hefyd fod angen mwy o ddata ac ystyriaeth i'r Gymraeg, yn genedlaethol ac ym Môn, yn y gwasanaethau i bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig¹⁶⁰ (sef oed, anabledd, ailbennu rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol). Cafodd y mwyafrif (75%) o droseddau casineb a adroddwyd ac a gofnodwyd yng Nghymru 2016/17 eu hysgogi gan hil neu grefydd¹⁶¹. Felly, mae ystyriaethau lles ac iechyd ym Môn, yn cynnwys dathlu a chefnogi amrywiaeth yn ein cymunedau.

Mae yma rôl i'r asiantaethau sy'n gweithredu dros y Gymraeg, e.e. Menter Iaith Môn, Mudiad Meithrin¹⁶², a'r Urdd¹⁶³, i amlygu yn lleol ac yn genedlaethol, mai Cymraeg yw iaith nifer o'r unigolion â nodweddion gwarchodedig ar yr ynys. Er lles ac iechyd yr unigolion hyn, mae gwaith eto i'w wneud i amlygu fod ffactorau croestoriadol¹⁶⁴, all arwain at fwy fyth o anfantais, yn cynnwys yr angen am wasanaethau cefnogol yn y Gymraeg i'r rhai a nodweddion gwarchodedig.

¹⁶⁰ <https://www.equalityhumanrights.com/cy/equality-act/nodweddion-gwarchodedig>

¹⁶¹ <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf>

¹⁶² Strategaeth Cydraddoldeb, Mudiad Meithrin, 2020: <https://www.meithrin.cymru/newyddion/i/143698/desc/lansiad-strategaeth-cydraddoldeb-ac-amrywiaeth-mudiad-meithrin/>

¹⁶³ Y Sgwrs – trafod materion yn effeithio'r ifanc, Urdd: <https://www.urdd.cymru/cy/ieuenctid/gweithgareddau-digidol-yr-urdd/y-sgwrs/>

¹⁶⁴ <https://www.equalityhumanrights.com/cy/sut-rydym-yn-mesur-cydraddoldeb-hawliau-dynol>

9. Y gweithle a'r economi

Y gweithle a'r gweithlu

Gall oedolion dreulio cyfran sylweddol o'u hamser yn gweithio, felly'r gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Cyn y cyfnod Covid-19, bu i nifer sylweddol o ymatebwyr yr ymgynghoriad Llywodraeth Leol ar y strategaeth *iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17* gytuno "bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywydau... a bod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg".¹⁶⁵

Gall "nifer o wahanol ffactorau ddylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gan gynnwys arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf lle ffafrir defnydd o'r Saesneg; materion yn gysylltiedig â gallu yn y Gymraeg, a rhesymau sefydliadol megis y ffaith nad oes digon o gymorth gan sefydliadau i gefnogi defnydd o'r iaith; a'r graddau y mae diwylliant y sefydliad yn hwyluso neu'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg".¹⁶⁶

Bellach gyda chyfyngiadau Covid-19, amserol yw nodi fod y sefyllfa o ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle wedi dwysau. Oherwydd y pwyslais ar weithio o adref os yn bosib, gall gweithwyr sy'n byw mewn cymdogaethau neu aelwydydd di-Gymraeg neu yn byw ar eu pennau eu hunain golli ar y cyfleoedd ehangach i glywed, ymarfer a defnyddio'r Gymraeg.

Rhwng Hydref 2019, a Medi 2020¹⁶⁷, roedd 79% (39,000 o bobl) o boblogaeth oed gweithio (16-64 mlwydd oed) Ynys Môn yn economaidd weithgar o gymharu â 76.2% (1,899,000) yng Nghymru a 78.9% yn y Deyrnas Gyfunol. O'r boblogaeth sydd *ddim* yn economaidd weithgar ym Môn, mae 26.3% (8,200 o bobl) yn dymuno cael gwaith, sydd yn gyfran ychydig yn uwch na Chymru (20.5%) a'r Deyrnas Gyfunol (21.7%). Gall hyn amlygu'r potensial o allfudo os nad oes cyflogaeth briodol iddynt yn lleol.

Mae gwybodaeth fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o ran y nifer o hawlwydwr lwfans 'Jobseekers Allowance' (JSA) yn ddangosydd o ddiweithdra ymysg y boblogaeth breswyl mewn ardal. Mae siart 47 yn dangos y newid yn y gyfran o bobl oed gwaith sydd yn hawlio'r lwfans JSA yn Ynys Môn a ledled Cymru ers Ionawr 2018 hyd at y cyfnod diweddaraf - Rhagfyr 2020. Er bod y duedd o ran diweithdra ym Môn yn dilyn yr un duedd a welir ledled Cymru, mae'r gyfran ddiweithdra erbyn hyn ychydig yn uwch ym Môn o gymharu â chyfran Cymru. Rhagdybir y bydd Môn yn gweld mwy o ddiweithdra yn dilyn sgil-ffeithiau Covid-19 er yr ystod o gynlluniau cefnogaeth¹⁶⁸ i liniaru'r effaith ar fusnesau a swyddi, yn enwedig yn y sector dwristaidd a hamdden. Llai na dau fis wedi gadael, a heb ddata manwl, mae'n anodd cwmpasu effaith caiff Brexit ar y gweithlu. Ymddengys pryderon yn y wasg am gynaliadwyedd a chyflogaeth yn y sector cludiant¹⁶⁹, amaeth a bwyd môr¹⁷⁰ o ganlyniad i'r trefniant newydd ar allforion i Ewrop.

165 Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17, Llywodraeth Cymru 2012, tud 37.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-iaith-fyw-iaith-byw.pdf>

166 Ibid, tud 38.

167 ONS Annual Population Survey,


<https://www.nomisweb.co.uk/query/select/getdatasetbytheme.asp?opt=3&theme=&subgrp=>

168 Cymorth i Fusnes: Coronafeirws Covid-19, Cyngor Sir Ynys Môn <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Busnes/Cymorth-i-fusnes-Coronafeirws-COVID-19.aspx>

169 Daily Post: Stena Line furlough quarter of dockers at Holyhead <https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/stena-line-furlough-quarter-dockers-19729736>

170 Daily Post: Large swathes of shellfish sector in North Wales at risk if EU export block is indefinite.

<https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/large-swathes-shellfish-sector-north-19762210>

Siart 47. Canran o boblogaeth Môn sy'n hawlio lwfans JSA ddi-waith, Ionawr 2018 – Rhagfyr 2020

Ffynhonnell: ONS Cyfrif Hawlwyr ¹⁷¹

Mae ansefydlogrwydd oriau gwaith a chyflog hefyd yn ystyriaeth o ran y Gymraeg. Dengys ffigurau Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Tachwedd 2020¹⁷², fod 377 o drigolion Môn yn hawlio lwfans 'Jobseekers Allowance'. Roedd nifer sylweddol yn fwy, 4,092, yn hawlio Credyd Cynhwysol yn Awst 2020¹⁷³. O'r rhain roedd gan 1,383 blant dibynnol (rhiant sengl 928 a chwpwl 455). Rhaid ystyried anfantais economaidd o'r fath wrth gynllunio cyfleoedd am fynediad di-dâl a hwylus at ddarpariaeth Cymraeg gofal plant a meithrin, yn enwedig yn yr ardaloedd trechu tlodi.

Mae ffigurau Cyfrifiad 2011 yn rhoi sawl darlun cyffredinol inni o swyddi siaradwyr Cymraeg, o ran mathau o ddiwydiant, mathau o alwedigaeth, lefel cymwysterau a dosbarth cymdeithasol. Nid oes yr un o'r rhain, fodd bynnag yn rhoi unrhyw awgrym o iaith gweithleoedd na'r graddau y defnyddir y Gymraeg ynddynt.

Diwydiant a galwedigaethau cyflogaeth

Bydd dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn ôl diwydiant a galwedigaethau mewn ardal yn adlewyrchu'r mathau o gyfleoedd gwaith sy'n bodoli iddynt ac mae tabl 38 a thabl 39 yn dangos strwythur diwydiant a galwedigaethau Ynys Môn yn ôl Cyfrifiad 2011.

Yn gyffredinol mae Ynys Môn o ran diwydiant yn ddibynnol ar y sector cyhoeddus (sef gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol; addysg; iechyd a gwaith cymdeithasol) gyda 35.1% o bob preswlydd arferol 16+ oed mewn cyflogaeth yn gweithio yn y sector cyhoeddus yn 2011, o'i gymharu â 32.4% i Gymru gyfan.

Dengys Cyfrifiad 2011 mai sector cyflogaeth bwysig arall ym Môn yw'r sector amaethyddiaeth, egni a dŵr, gyda 7.2% o weithwyr yn gweithio yn y sector yma, o gymharu â 3.8% i Gymru gyfan.

Ym Môn, mae 58.3% o'r preswylwyr arferol 16+ oed sydd mewn cyflogaeth yn gallu siarad Cymraeg. O'r rhain, mae'r cyfrannau yn gweithio ym mhob diwydiant yn lled debyg i'r darlun cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, fel y gwelir o siart 48.

171 ONS <https://www.nomisweb.co.uk/query/select/getdatasetbytheme.asp?opt=3&theme=&subgrp=>

172 ONS

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/unemployment/datasets/jobseekersallowanceforlocalandunitaryauthoritiesjsa01>

173 DWP <https://dwp-stats.maps.arcgis.com/apps/Cascade/index.html?appid=8560a06de0f2430ab71505772163e8b4>

Tabl 38: Diwydiant cyflogaeth a siaradwyr Cymraeg, 2011

Diwydiant	Ynys Môn		Cymru			
	Nifer	%	Yn siarad Cymraeg	%	%	% yn siarad Cymraeg
			Nifer	%		
Pob preswlydd arferol 16+ oed mewn cyflogaeth	30,726		17,920			
A, B, D, E Amaethyddiaeth, egni a dŵr	2,200	7.2%	1,512	8.4%	3.8%	6.7%
C Gweithgynhyrchu	2,363	7.7%	1,223	6.8%	10.5%	6.3%
F Adeiladu	2,711	8.8%	1,758	9.8%	8.2%	8.1%
G Masnach manwerthu a chyfanwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur	4,423	14.4%	2,441	13.6%	15.6%	13.4%
H Trafnidiaeth a storio	1,614	5.3%	835	4.7%	3.9%	3.1%
I Llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd	2,105	6.9%	1,072	6.0%	6.2%	6.0%
J Gwybodaeth a chyfathrebu	470	1.5%	243	1.4%	2.3%	2.2%
K Gweithgareddau ariannol ac yswiriant	339	1.1%	195	1.1%	3.0%	2.2%
L Gweithgareddau eiddo tiriog	336	1.1%	192	1.1%	1.3%	1.1%
M Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	1,105	3.6%	539	3.0%	4.3%	4.0%
N Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth	983	3.2%	485	2.7%	4.0%	2.8%
O Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol	2,764	9.0%	1,520	8.5%	7.9%	8.8%
P Addysg	3,425	11.1%	2,401	13.4%	10.1%	16.2%
Q Iechyd pobl a gweithgareddau gwaith cymdeithasol	4,610	15.0%	2,796	15.6%	14.4%	14.0%
R, S, T, U Arall	1,278	4.2%	708	4.0%	4.6%	5.1%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC6110EW & Tabl DC2611WA


O ran galwedigaethau ceir y gyfran uchaf o weithwyr Ynys Môn yn gweithio mewn galwedigaethau crefftau medrus (16.9%) wedi'i ddilyn gan alwedigaethau proffesiynol (15.3%). Mae'r gyfran isaf o weithwyr yn weithredwyr prosesau, offer a pheiriannau (7.5%) neu yn gweithio mewn galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid (7.8%).

Tabl 39: Galwedigaethau a siaradwyr Cymraeg, 2011


Galwedigaeth	Ynys Môn		Cymru			
	Nifer	%	Yn siarad Cymraeg	%	%	% yn siarad Cymraeg
			Nifer	%		
Pob preswlydd arferol 16+ oed mewn cyflogaeth	30,726		17,920			
1. Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	3,009	9.8%	1,304	7.3%	9.3%	7.6%
2. Galwedigaethau proffesiynol	4,693	15.3%	2,780	15.5%	15.8%	19.9%
3. Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt	3,099	10.1%	1,624	9.1%	10.8%	10.6%
4. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	3,041	9.9%	1,872	10.4%	11.1%	10.4%
5. Galwedigaethau crefftau medrus	5,179	16.9%	3,270	18.2%	13.5%	15.4%
6. Gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill	3,570	11.6%	2,351	13.1%	10.5%	11.9%
7. Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	2,399	7.8%	1,293	7.2%	9.0%	7.9%
8. Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau	2,310	7.5%	1,420	7.9%	8.1%	6.1%
9. Galwedigaethau elfennol	3,426	11.2%	2,006	11.2%	11.9%	10.1%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC6112EW & Tabl DC612EW

Unwaith eto, o gymharu Môn a gweddill Cymru, ceir cyfrannau tebyg o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr amryw alwedigaethau, fel y gwelir o siart 49

Siart 48: Diwydiant cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2611WA

Siart 49: Galwedigaethau cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC612EW

Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol (NS-SEC)

Mae Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol (NS-SEC) yn dynodi sefyllfa economaidd-gymdeithasol ar sail galwedigaeth ac mae'n un o ddosbarthiadau safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Er mwyn pennu categori NS-SEC i unigolyn, caiff teitl ei alwedigaeth ei gyfuno â gwybodaeth am ei statws cyflogaeth, p'un a yw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig a ph'un a yw'n goruchwyllo gweithwyr cyflogedig eraill. Caiff myfyrwyr sydd mewn addysg amser llawn eu cofnodi yn y categori 'myfyriwr mewn addysg amser llawn' p'un a ydynt yn gweithio ai peidio.

Gwelir o dabl 40 fod mwy o siaradwyr Cymraeg sydd erioed wedi gweithio a di-waith am gyfnod hir ym Môn (5.5%) o'i gymharu â'r un categori yng Nghymru gyfan (4%). I'r gwrthwyneb mae canran is o siaradwyr Cymraeg ym Môn (6.4%) yn y galwedigaethau rheoli uwch, gweinyddol a phroffesiynol o'i gymharu â chanran siaradwyr Cymraeg yn yr un categori yng Nghymru gyfan (7.6%).

Tabl 40. Galwedigaethau a'r di-waith a siaradwyr Cymraeg, 2011

Galwedigaeth	Ynys Môn		Yn siarad Cymraeg		Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%	%	% yn siarad Cymraeg
Pob preswlydd arferol 16+ oed	57,890		31,347			
1. Galwedigaethau rheoli uwch, gweinyddol a phroffesiynol	4,685	8.1%	1,994	6.4%	7.6%	7.6%
2. Galwedigaethau rheoli is, gweinyddol a phroffesiynol	11,643	20.1%	6,275	20.0%	19.4%	23.0%
3. Galwedigaethau canolraddol	6,491	11.2%	3,639	11.6%	12.1%	11.8%
4. Cyflogwyr bach a gweithwyr hunangyfrif	6,996	12.1%	3,524	11.2%	9.5%	11.1%
5. Galwedigaethau goruchwyllo is a thechnegol	5,092	8.8%	2,773	8.8%	8.3%	7.1%
6. Galwedigaethau lled-arferol	9,295	16.1%	5,165	16.5%	16.0%	13.5%
7. Galwedigaethau arferol	6,839	11.8%	3,976	12.7%	13.3%	10.1%
8. Erioed wedi gweithio a di-waith am gyfnod hir	3,408	5.9%	1,716	5.5%	5.8%	4.0%
Heb ei ddosbarthu (Myfyriwr amser llawn)	3,441	5.9%	2,285	7.3%	8.1%	11.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2613WA

Cymwysterau

Fel y gwelir o dabl 41, yn gyffredinol mae poblogaeth breswyl 16+ mlwydd oed Ynys Môn yn fwy cymwysedig na Chymru gyfan gyda chyfran uwch (38.0%) yn meddu a chymwysterau lefel 3 neu uwch o gymharu â chyfran Cymru (36.8%)

Tabl 41. Cymwysterau a siaradwyr Cymraeg, 2011

Galwedigaeth	Ynys Môn		Yn siarad Cymraeg		Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%	%	% yn siarad Cymraeg
Pob preswlydd arferol 16+ oed	57,890		31,347			
Dim cymwysterau	13,991	24.2%	7,715	24.6%	25.9%	20.2%
Cymwysterau Lefel 1	7,342	12.7%	3,890	12.4%	13.3%	11.6%
Cymwysterau Lefel 2	9,406	16.2%	5,401	17.2%	15.7%	18.1%
Prentisiaeth	2,739	4.7%	1,499	4.8%	3.9%	3.4%
Cymwysterau Lefel 3	6,887	11.9%	3,996	12.7%	12.3%	13.7%
Cymwysterau Lefel 4 ac uwch	15,098	26.1%	7,749	24.7%	24.5%	30.2%
Cymwysterau eraill	2,427	4.2%	1,097	3.5%	4.3%	2.8%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC501Wala

Nodyn:

- Dim cymwysterau: Dim cymwysterau academiaidd na phroffesiynol O/TAU/TGAU (unrhyw radd), Lefel Mynediad, Diploma Sylfaen, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaen, Sgiliau Sylfaenol/Allweddol
- Cymwysterau Lefel 2: 5+ Lefel O (wedi pasio)/TAU (Gradd 1)/TGAU (Graddau A*-C), Tystysgrif Ysgol, 1 Lefel A/ 2-3 Lefel AS/VCE, Diploma Canolradd/Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd, City and Guilds Craft, Diploma Cyntaf/Cyffredinol BTEC, Diploma RSA
- Prentisiaeth Cymwysterau Lefel 3: 2+ Lefel A/VCE, 4+ Lefel AS, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ Lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA
- Cymwysterau Lefel 4+: Gradd (er enghraifft BA, BSc), Gradd Uwch (er enghraifft MA, PhD, TAR), NVQ Lefel 4-5, HNC, HND, Diploma Uwch RSA, Lefel Uwch BTEC, Gradd sylfaen (Gogledd Iwerddon), Cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifyddiaeth)
- Cymwysterau eraill: Cymwysterau Galwedigaethol/Cysylltiedig â Gwaith, Cymwysterau Tramor (Heb eu nodi/lefel yn anhysbys).

Incwm

Yn 2013 roedd incwm aelwyd canolrif yn Ynys Môn (£23,937) yn 3.9% yn is na'r ffigwr i Gymru (£24,909) a 13.0% yn llai na'r ffigwr i Brydain Fawr (£27,512), gweler tabl 42.

Ar gyfer yr un cyfnod roedd incwm aelwyd chwarterl isaf Ynys Môn (£13,112) yn 15.9% yn is na'r ffigwr i Gymru (£15,597) a 23.0% yn is na'r ffigwr i Brydain Fawr (£17,024).

Tabl 42. Incymau Aelwydydd Canolrif a Chwarterl Isaf, 2013

	Ynys Môn	Cymru	Prydain Fawr
Incwm aelwyd canolrif	£23,937	£24,909	£27,512
% o Brydain Fawr	87.0%	90.5%	100%
Incwm aelwyd chwarterl isaf	£13,112	£15,597	£17,024
% o Brydain Fawr	77.0%	91.6%	100%

Ffynhonnell: CACI Paycheck 2013

Dengys map 9 incymau canolrif aelwyd ar lefel ward yn Ynys Môn ar gyfer 2013. Yn ystod 2013, gwelwyd yr incwm canolrif aelwyd isaf o £16,304 yn ward Tudur yn Llangefni tra gwelir y ffigwr uchaf o £29,749 yn ward Gwyngyll.

O ran incymau chwarterl isaf aelwydydd (map 10) gwelwyd yr isafswm o £10,899 yn ward Tref Caergybi a'r uchafswm o £17,504 yn ward Cwm Cadnant.

Y trothwy incwm isel a ddefnyddir rhan amlaf yw incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig yn y flwyddyn honno. O ystyried ffigyrau yn nhabl 43, roedd dros draean o aelwydydd Ynys Môn (34.2%) o dan 60% canolrif Prydain Fawr yn 2013.

Tabl 43. Nifer a chanran o aelwydydd yn ôl ardal o dan 60% incwm aelwyd canolrif Prydain Fawr, 2013

Ardal	Cyfanswm Aelwydydd	Aelwydydd o dan 60% o ganolrif Prydain Fawr	
		Nifer	%
Ynys Môn	31,150	10,640	34.2%
Cymru	1,332,201	368,119	27.6%
Prydain Fawr	26,323,250	6,222,620	23.6%

Ffynhonnell: CACI Paycheck 2013

Fel sydd wedi nodi eisoes, yn 2013 roedd incwm aelwyd canolrif Môn yn £23,937. Erbyn 2019, roedd y ffigwr hwn wedi codi i £27,445 sy'n gynydd o 14.7%. Mae hyn ychydig bach yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Gweler yn nhabl 44 mai Caergybi sydd â'r incwm canolrif aelwyd isaf, gyda'r ffigwr yn £21,095. Mae incwm cyfartalog Caergybi 33% yn is na'r hyn yw yn ardal Aethwy sydd â'r incwm canolrif aelwyd uchaf ar yr ynys, gyda'r ffigwr o £31,633.



Tabl 44. Incwm aelwyd canolrif ardaloedd Ynys Môn, 2019

Enw Ardal	Incwm Canolrif Aelwyd
Aethwy	£31,633
Bro Aberffraw	£26,900
Bro Rhosyr	£30,912
Caergybi	£21,095
Canolbarth Môn	£25,322
Llifon	£29,616
Lligwy	£29,599
Seiriol	£32,504
Talybolion	£27,562
Twrcelyn	£26,193
Ynys Gybi	£25,923
Ynys Môn	£27,445


Ffynhonnell: CACI Paycheck 2019

Nid yw'r ffigurau sydd ar gael ar gyfer incwm yn gwahaniaethu rhwng pobl sy'n gallu siarad Cymraeg a'r rhai sydd ddim. Yr unig beth y gellid ei ystyried yw edrych a oes cysylltiad amlwg rhwng lefelau incwm ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf a'r ardaloedd lle mae hi'n wannach. Mae mapiau 9, 10 a 11 isod yn awgrymu nad oes cysylltiad amlwg o'r fath.

Mae map 11 yn dangos y gyfran o aelwydydd sydd ag incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig ar gyfer 2013 ar lefel ward yn Ynys Môn. Gwelwyd y gyfran isaf o 23.3% yn ward Cwm Cadnant tra bod y gyfran uchaf o 50.5% yn ward Tudur yn Llangefni.

Map 9. Incwm canolrif, fesul ward, 2013**Map 10. Incwm chwarterl isaf, fesul ward, 2013**

Map 11. Canran o aelwydydd ag incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig, 2013



10. Tai ac aelwydydd

Cartrefi fesul math o lety a daliadaeth

Mae cartref (gofod aelwyd) yn llety a breswylir gan aelwyd unigol neu, os yn wag, sydd ar gael fel cartref unigol. Mae'r math o lety yn disgrifio'r math o lety a breswylir gan aelwyd unigol, neu os nad oes unrhyw un yn preswyllo ynddo, sydd ar gael fel cartref aelwyd unigol, er enghraifft tŷ teras cyfan neu fflat mewn bloc o fflatiau wedi ei adeiladu'n bwrpasol¹⁷⁴.

Daw'r wybodaeth ddiweddaraf am gartrefi yn ôl math o lety o Gyfrifiad 2011 fel y gwelir yn nhabl 45. Nodweddir stoc tai Ynys Môn gan eiddo ar wahân (47.9%) gyda'r gyfran o'r math yma o gartref yn uwch ym Môn o'i gymharu â ffigyrau Cymru, ac mae hyn yn adlewyrchu natur wledig yr ynys. O gymharu â Chymru ceir cyfran ychydig yn uwch o garafanau neu fath arall o gartref symudol neu dros dro (0.9%) ar Ynys Môn.

Rhwng 2001 a 2011 bu i'r nifer o gartrefi gynyddu 3,140 (10.1%) ar Ynys Môn. Roedd 1,313 o'r cynnydd hwn (41.8%) yn y nifer o eiddo ar wahân a 1,050 (33.4%) o'r cynnydd yn y nifer o eiddo semi.

Tabl 45. Cartrefi fesul math o lety, 2011

Math o lety	Ynys Môn		Cymru
	Nifer	%	
Cyfanswm o Gartrefi	34,183		1,385,521
Tŷ neu fyngalo cyfan: Ar wahân	16,382	47.9%	27.7%
Tŷ neu fyngalo cyfan: Semi	7,281	21.3%	31.0%
Tŷ neu fyngalo cyfan: Teras (gan gynnwys ar y pen)	7,620	22.3%	27.8%
Fflat neu maisonette: Bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol	1,661	4.9%	9.6%
Fflat neu maisonette: Rhan o dŷ wedi'i addasu neu dŷ sy'n cael ei rannu (gan gynnwys fflatiau un ystafell)	563	1.6%	2.4%
Fflat neu maisonette: Mewn adeilad masnachol	352	1.0%	1.0%
Carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro	324	0.9%	0.4%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl KS401EW

Lefelau preswyliaeth ac eiddo gwag

Cyfrifiad 2011

Mae angen rhyw lefel o lety gwag yn y stoc tai, i ganiatáu ar gyfer trosiant yn y farchnad dai. Nid oes lefel gorau posibl o eiddo gwag, gan fod y farchnad dai ym mhob ardal yn wahanol ac yn newid dros amser.

Gall cartref (gofod aelwyd) heb breswilydd arferol dal i gael ei ddefnyddio gan breswylwyr tymor-byr, ymwelwyr oedd yn bresennol ar noson y cyfrifiad neu gyfuniad o breswylwyr tymor-byr neu ymwelwyr. Mae cartrefi gwag a chartrefi a ddefnyddiwyd fel ail gyfeiriadau hefyd yn cael eu dosbarthu yng nghanlyniadau'r cyfrifiad fel 'cartrefi heb unrhyw breswylwyr arferol'.

O ran cartrefi gweigion yn 2011, roedd gan Ynys Môn gyfran o 10.5% o gartrefi heb unrhyw breswylwyr arferol, a oedd bron yn ddwywaith cyfartaledd Cymru (tabl 46). Ynys Môn oedd â'r gyfran 3ydd uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru, ar ôl Gwynedd (14.1%) a Sir Benfro (12.5%).

¹⁷⁴ Diffiniad Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

Tabl 46. Cartrefi yn ôl math o breswyliaeth, 2011

Preswyliaeth	Ynys Môn		Cymru	Lloegr a Chymru
	Nifer	%		
Pob cartref	34,183		1,385,521	24,429,618
Ag o leiaf un preswyllydd arferol	30,594	89.5%	94.0%	95.6%
Heb unrhyw breswylwyr arferol	3,589	10.5%	6.0%	4.4%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl KS401EW

Cofrestr Treth Cyngor Ynys Môn

Gall gofrestr Treth y Cyngor rhoi rhywfaint o'r ffigyrau diweddaraf a rhannu'r ffigyrau ar gyfer anheddau gwag ac ail gartrefi / tai haf ym Môn, fel y gwelir yn nhabl 47.

Yn ôl y ffigyrau ar gyfer 2013, roedd 725 o eiddo trethadwy yn wag yn Ynys Môn, sef 2.1% o'r holl eiddo trethadwy, tra bod 6.2% o'r holl eiddo trethadwy, sef 2,158 eiddo, yn ail gartrefi / tai haf.

Tabl 47. Eiddo trethadwy yn ôl math o breswyliaeth, Ebrill 2013

Preswyliaeth	Ynys Môn	
	Nifer	%
Cyfanswm o Eiddo Trethadwy	34,655	
Â phreswylwyr	31,772	91.7%
Gwag	725	2.1%
Ail gartrefi / tai haf	2,158	6.2%

Ffynhonnell: Cofrestr Treth y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, 2013

Mae'r ffigurau diweddaraf yn 2021 yn dangos fod niferoedd yr eiddo gwag a'r ail gartrefi / tai gwyliau wedi cynyddu dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Fel y gwelwn yn nhabl 48, mae'r tai gwag wedi mwy na dyblu, a nifer yr ail gartrefi wedi codi o 2,158 i 2,722. Mae'r nifer o eiddo â phreswylwyr ar y llaw arall wedi gostwng bron i 800 i ychydig o dan 31,000.

Tabl 48. Eiddo trethadwy yn ôl math o breswyliaeth, Chwefror 2021

Preswyliaeth	Ynys Môn	
	Nifer	%
Cyfanswm o Eiddo Trethadwy	35,201	
Â phreswylwyr	30,978	88%
Gwag	1,501	4.3%
Ail gartrefi / tai haf	2,722	7.7%


Ffynhonnell: Cofrestr Treth y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, 2021

I ddychwelyd at ddata 2013, mae map 12 yn dangos y ganran o'r eiddo trethadwy oedd yn wag yn Ynys Môn yn 2013, yn ôl cymuned. Mae'r tair cyfran uchaf o eiddo trethadwy sydd yn wag i'w gweld yng nghymunedau Llanfaethlu (4.2%), Cylch y Garn (4.0%) a Bryngwran (3.5%) tra bod y tair cyfran isaf yng nghymunedau Trewalchmai (0.7%), Llanfairpwllgwyngyll (0.8%) a Bodedern (1.0%).


Dengys map 13 y ganran o'r eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf fesul cymuned yn Ynys Môn yn ôl y gofrestr Treth Cyngor yn 2013. Mae'r tair cyfran uchaf o eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf i'w gweld yng nghymunedau Llanfaelog (25.5%), Trearddur (25.3%) a Rhoscolyn (21.6%) tra bod y tair cyfran isaf i'w gweld yng nghymunedau Llangejni (1.1%), Caergybi (1.5%) a Llanfairpwllgwyngyll (1.6%).

O gymharu lefelau ail gartrefi a chanrannau sy'n gallu siarad Cymraeg, mae'n amlwg fod rhywfaint o gysylltiad yn yr ystyr bod cymunedau lle mae cyfran uchel o ail gartrefi yn gymunedau lle mae'r Gymraeg yn wanach. Nid yw'r mapiau, fodd bynnag, yn awgrymu darlun syml, o leiaf ar yr olwg gyntaf, gan fod dirywiad wedi digwydd mewn sawl ardal lle mae lefelau ail gartrefi yn isel iawn yn ogystal. Mae rhai o'r ardaloedd lle mae nifer uchel o ail gartrefi hefyd yn tueddu i fod yn ardaloedd lle mae cyfran uchel o bobl o'r tu allan i Gymru yn byw. Gellir tybio y gall cyfran uchel o ail gartrefi arwain at fwy o fewnfudo, ond does dim tystiolaeth bendant o hyn.

Map 12. Canran o eiddo trethadwy sydd yn wag, fesul cymuned, 2013



Map 13. Canran o eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf, fesul cymuned, 2013



Cartrefi fesul daliadaeth

O'r Cyfrifiad 2011 hefyd daw'r wybodaeth fwyaf cadarn am ddaliadaeth tai, a cyflwynir y wybodaeth hon yn nhabl 49. Mae'r data yn dangos lefelau ychydig yn is o rentu cymdeithasol yn Ynys Môn a lefelau ychydig yn uwch o rentu preifat a pherchnogaeth tai gyfan gwbl, o'i gymharu â Chymru gyfan.

Gyda chyfran is o bobl (27.9%) na chyfartaledd Cymru (32.0%) yn berchen tŷ â morgais, gall hynny fod yn adlewyrchiad o ddiffyg fforddiadwyedd eiddo i lawer o bobl. Gellir dyfalu bod y gyfran uwch sydd â pherchnogaeth cyfan gwbl (40.7% o gymharu â 35.4% dros Gymru gyfan) fod yn gyfuniad o bobl sydd ag incwm isel ond sydd wedi etifeddu eiddo uwch nag y gallen nhw fforddio ei brynu, ac o bosibl yn bobl gyfoethog o'r tu allan sydd wedi gallu prynu tai yn ddi-fenthyciad.

Tabl 49. Daliadaeth Aelwydydd, 2011

Daliadaeth	Ynys Môn		Cymru
	Nifer	%	
Cyfanswm aelwydydd	30,594		1,302,676
Perchennog ddeiliaid			
Yn berchen arno'n gyfan gwbl	12,444	40.7%	35.4%
Yn berchen arno gyda morgais neu fenthyciad	8,527	27.9%	32.0%
Cynllun rhan-berchenogaeth ¹	63	0.2%	0.3%
Ar rent			
Awdurdod lleol	3,899	12.7%	9.8%
Cymdeithas tai / landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL)	588	1.9%	6.6%
Landlord preifat neu asiantaeth gosod tai	3,699	12.1%	12.7%
Arall	1,374	4.5%	3.1%
Cyfanswm perchennog ddeiliaid	21,034	68.8%	67.8%
Cyfanswm wedi'i rentu'n gymdeithasol	4,487	14.7%	16.5%
Cyfanswm wedi'i rhentu'n breifat	5,073	16.6%	15.7%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl KS402EW

Nodyn: ¹ Yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol

Mae'r wybodaeth o 2013 sydd ar gael o ran siaradwyr Cymraeg a daliadaeth yn seiliedig ar ystadegau yn ymdrin â pherson cyswllt y cartref. Yn 2011 roedd 15,893 (51.9%) o bobl gyswllt y cartref yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn. Fel y gwelir o dabl 50, o gymharu â'r holl boblogaeth person cyswllt y cartref, yn 2011 roedd cyfran ychydig uwch o'r bobl gyswllt y cartref sy'n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn yn rhentu'n gymdeithasol.

Tabl 50. Person cyswllt y cartref yn siarad Cymraeg yn ôl daliadaeth ar Ynys Môn, 2011

Daliadaeth	Cyfanswm		Yn siarad Cymraeg	
	Nifer	%	Nifer	%
Pob person cyswllt y cartref ¹	30,594		15,893	
Yn berchen arno neu rhan-berchenogaeth ²	21,034	68.8%	10,911	68.7%
Rhentu cymdeithasol	4,487	14.7%	2,676	16.8%
Rhentu preifat neu ddim yn talu rhent	5,073	16.6%	2,306	14.5%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl DC2402WA

Nodyn: ¹ Mae Person Cyswllt y Cartref yn berson unigol o fewn cartref sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cael rhagor o ystadegau a nodweddu cartref cyfan yn ôl nodweddion y person cyswllt a ddewisir

² Yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol

Mae'r wybodaeth yma wedi ei gasglu drwy ffynonellau dibynadwy, megis data Cyfrifiad 2011 ac mae peth o'r data yn parhau'n berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio fod data mwy diweddar ar gael¹⁷⁵sydd wedi amlygu bod 34,946 o anheddau wedi eu cofrestru ym Môn erbyn hyn, sy'n gynydd o 763 (2.23%) ers y cyfrifiad nôl yn 2011. O'r cyfanswm yma mae 25,831 yn berchen eu cartrefi, 4,855 yn denantiaid tai Cymdeithasol, a 4,260 yn rhentu'n breifat.

Nifer a thwf aelwydydd

Aelwyd yw un unigolyn yn byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl sy'n byw yn yr un cyfeiriad gyda'r un trefniadau cadw tŷ – hynny yw, naill ai yn rhannu ystafell fyw neu o leiaf un pryd y dydd¹⁷⁶.

Mae nifer yr aelwydydd a'r gwahanol fathau o aelwydydd o fewn y cyfanswm hwnnw'n rhoi rhyw fath o syniad o'r math o dai y gallai fod eu hangen. Mae ffigurau amcanol aelwydydd yn helpu i gynllunio ar gyfer anghenion tai'r dyfodol.

Tabl 51. Amcangyfrifon aelwydydd, 2011

Cyfansoddiad Aelwyd	Ynys Môn		Cymru
	Nifer	%	
Cyfanswm aelwydydd	30,594		1,302,676
Poblogaeth mewn aelwydydd preifat	68,941		3,011,182
Maint aelwydydd cyfartalog	2.25		2.31
Aelwyd un person	9,888	32.3%	30.8%
65 oed a throsodd	4,802	15.7%	13.7%
Arall	5,086	16.6%	17.1%
Aelwyd un teulu yn unig	18,952	61.9%	62.8%
Dim plant	8,621	28.2%	26.1%
Aelwydydd pâr	7,322	23.9%	25.3%
Â phlant dibynnol	5,297	17.3%	18.4%
Pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol	2,025	6.6%	6.8%
Aelwydydd rhiant unigol	3,009	9.8%	11.4%
Â phlant dibynnol	1,826	6.0%	7.5%
Pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol	1,183	3.9%	3.8%
Aelwydydd eraill	1,754	5.7%	6.5%
Â phlant dibynnol	640	2.1%	2.2%
Pawb yn 65 oed a throsodd	122	0.4%	0.3%
Arall	992	3.2%	3.9%
Yr aelwydydd â phlant dibynnol	7,763	25.4%	28.2%
Aelwydydd lle mae pawb yn 65+ oed	8,177	26.7%	22.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl KS105EW

Yn 2011, roedd 30,594 o aelwydydd yn Ynys Môn. Mae'r amcangyfrifon o nifer a'r mathau o aelwydydd yn dangos, oherwydd y gyfran gymharol uchel o aelwydydd un person, bod maint aelwydydd cyfartalog Môn yn is na Chymru gyfan.

Mae'r gyfran o aelwydydd un person ym Môn yn 1.5% yn uwch na ffigwr Cymru gyfan, tra bod y gyfran o aelwydydd â phlant yn 2.8% yn is. Mae aelwydydd sy'n cynnwys dim ond pobl 65 oed a hŷn yn ffurfio cyfran llawer uwch yn Ynys Môn (26.7%) na o gymharu â Chymru gyfan (22.9%).

175 Stats Wales 2019, <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-localauthority-tenure>

176 Diffiniad Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

Tabl 52. Newid yn y math o aelwydydd yn Ynys Môn, 2001 & 2011

Cyfansoddiad Aelwyd	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
Cyfanswm aelwydydd	28,356		30,594		2,238	7.9%	
Poblogaeth mewn aelwydydd preifat	66,167		68,941		2,774	4.2%	
Maint aelwydydd cyfartalog	2.33		2.25				
Aelwyd un person	8,289	29.2%	9,888	32.3%	1,599	19.3%	3.1%
Yr aelwydydd â phlant dibynnol	8,120	28.6%	7,763	25.4%	-357	-4.4%	-3.2%
Teuluoedd – dim plant	7,981	28.1%	8,621	28.2%	640	8.0%	0.1%
Teuluoedd – pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol	3,003	10.6%	3,208	10.5%	205	6.8%	-0.1%
Aelwydydd eraill	963	3.4%	1,114	3.6%	151	15.7%	0.2%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – Tabl KS020; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS105EW

Fel y gwelir o dabl 52 mae'r nifer o aelwydydd wedi cynyddu o 2,238 (7.9%) rhwng 2001 a 2011 ar Ynys Môn. Yn yr un cyfnod fe syrthiodd maint cyfartalog aelwydydd o 2.33 yn 2001 i 2.25 yn 2011.

Mae cyfraddau twf aelwydydd yn uwch na chyfraddau twf y boblogaeth. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod y duedd hirdymor tuag at aelwydydd llai, ynghyd â thwf y boblogaeth, yn effeithio ar nifer yr aelwydydd o fewn y boblogaeth.

Y ffactor mwyaf o bell ffordd sy'n effeithio ar nifer yr aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd yn 2011 yw'r twf yn nifer yr aelwydydd un preswlydd. Nid yw hon yn duedd sy'n unigryw i Ynys Môn, ond mae ei heffaith yn amlycach yma oherwydd y nifer cymharol uchel o bobl hŷn ym mhoblogaeth yr ardal.

Pensiynwyr sy'n byw ar eu pen eu hunain yw'r rhan fwyaf o aelwydydd un preswlydd. Yn 2011, amcangyfrifwyd bod 4,802 o aelwydydd ac ynddynt bensiynwyr unigol yn Ynys Môn – sy'n cynrychioli 15.7% o'r holl aelwydydd, a 48.6% o'r holl aelwydydd un preswlydd. Wrth i ddisgwyliad oes pobl gynyddu, gallwn ddisgwyl gweld cynnydd yn nifer yr aelwydydd ac ynddynt bensiynwyr unigol.

Ffactorau eraill sydd wedi arwain at aelwydydd llai ar gyfartaledd dros y degawdau diwethaf yw'r duedd tuag at deuluoedd llai, a'r cynnydd yn nifer yr achosion o dorteulu. Disgwylir i'r tueddiadau hyn barhau.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod angen i ddatblygiadau tai newydd ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu anheddau 1, 2 a 3 ystafell wely i fodloni'r angen.

Yng nghyd-destun Covid, mae'r canran uchel o aelwydydd un preswlydd yn amlygu'r unigrwydd posib o ynysu, y diffyg cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg, yr angen am fand-eang i hwyluso cyswllt digidol, a chyfraniad pwysig gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddolwyr i gynnig cymorth (gweler Adran Iechyd a Lles).

Y farchnad dai a fforddiadwyedd

Diddorol a dyrys yw'r gymhariaeth rhwng 1148 o dai yn cael eu gwerthu ym Môn yn 2019, gyda dim ond 633 yn 2020. Mae hyn yn ostyngiad o 515 eiddo mewn blwyddyn yn unig.

Mae cyhoeddiad y Principality ar y farchnad dai yng Nghymru¹⁷⁷ yn datgelu mai ym Môn, yn ystod 2020, saethodd pris cyfartalog tai i fyny uchaf. Mae prisiau tai ar gyfartaledd ar draws Cymru wedi codi i £209,723 ond mae prisiau tai Môn eisoes yn llawer uwch ar £237,782. Mae hyn yn golygu cynnydd o 16% ym mhpris cyfartalog tŷ ym Môn, gan osod y sir yn bedwerydd o ran cost gyfartalog prynu tŷ. Sylwer fod y tair sir ar frig y rhestr - Sir Fynwy, Caerdydd a Bro Morgannwg - o fewn cyrraedd cyfleoedd cyflogaeth llawer helaethach na thrigolion Môn. Wrth reswm mae gweld codiad prisiau tai ar y fath raddfa mewn ardaloedd gwledig yn peri anfodlonrwydd ymysg pobl ifanc sy'n teimlo eu bod wedi eu priso allan o'r farchnad.¹⁷⁸

Tabl 53. Prisiau tai yn Ynys Môn, 2012

Math o dŷ	Nifer werthiannau	Prisiau Tai			
		Canolrif	Chwartel Isaf	Chwartel Uchaf	90ain Cynradd
Ar wahân	343	£180,000	£150,000	£229,000	£280,000
Lled-ar wahân	137	£123,000	£100,250	£153,500	£182,800
Tŷ teras	176	£99,950	£75,750	£130,000	£160,600
Fflat / Fflat deulawr	46	£155,000	£97,500	£176,250	£407,465
Cyfanswm	702	£150,000	£110,000	£192,625	£249,950

Ffynhonnell: Land Registry, 2012

Gweler data prisiau tai ym Môn 2012 yn nhabl 53. O gymharu â'r sefyllfa wyth mlynedd yn ddiweddarach, gwelwn fod nifer mwy o dai wedi cael eu gwerthu erbyn 2020 (tabl 54), a'r prisiau wedi codi'n sylweddol ym mhob dosbarth.

Tabl 54. Prisiau tai yn Ynys Môn, (Diwedd Blwyddyn Ariannol Mawrth 2020)

Math o dŷ	Nifer werthiannau	Prisiau Tai	
		Canolrif	Chwartel Isaf
Ar wahân	541	£222,250	£182,500
Lled-ar wahân	220	£145,750	£120,000
Tŷ teras	270	£115,000	£90,000
Fflat / Fflat deulawr	44	£179,500	£130,500
Cyfanswm	1,075	£175,000	£126,500

Ffynhonnell: Office of National Statistics & Land Registry

Pris tŷ ar gyfartaledd yn Ynys Môn ym mis Ionawr 2020 oedd £180,505 o'i gymharu â £175,192 yn 2019 sy'n dangos cynnydd o 3%. Mae adroddiadau ym mis Medi 2020 yn dangos bod rhai pentrefi wedi gweld cynnydd o 21.3% ym mhpris cyfartalog tai ers llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo, gyda llawer yn nodi bod yr angen i weithio gartref a hwylustod hynny wedi ei gwneud yn haws i bobl ar gyflogau uwch brynu tai i fyw ynddynt mewn lleoliadau mwy gwledig.

Hefyd, mae'n bwysig cydnabod yr amrediad eang iawn o brisiau tai yn Ynys Môn gyda'r pris isaf am dŷ yn 2020 yn £50,000 a'r pris uchaf yn £975,000. Mae'r gwahaniaeth hwn yn syfrdanol ac yn amlygu'r bwlch rhwng trigolion yr Ynys.

Llety yn y Sector Rhent Preifat yw'r unig opsiwn o hyd i rai pobl gan nad ydynt yn gallu cael mynediad i dai cymdeithasol. Mae llawer o Landlordiaid yn codi mwy na'r Lwfans Tai Lleol ac mae aelwydydd yn gorfod talu'r gwahaniaeth. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae ganddynt lai i'w gyllido ar gyfer biliau a chostau eraill. Mae hynny, yn ei dro, yn effeithio ar eu gallu i gynilo arian ar gyfer darparu blaendal pe byddent yn dymuno prynu eiddo.

¹⁷⁷ Principality Building Society House Price Index Wales, Q4 2020. <https://www.principality.co.uk/mortgages/house-price-index>

¹⁷⁸ BBC News, 'Wales' average house price tops £200k in 'race for space', 2021 <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56014730>

Fforddiadwyedd

Un ffordd o fesur fforddiadwyedd tai yw edrych ar y gymhareb prisiau tai i incwm aelwyd. Mae'r mesur hwn o dai fforddiadwy yn rhoi arwydd cyffredinol os yw prisiau tai yn fforddiadwy mewn perthynas ag incwm neu beidio. Mae tabl 55 yn dangos cymarebau pris tai canolrif ag incwm aelwyd canolrif ymysg wardiau Ynys Môn yn 2019.

Tabl 55. Canolrif Prisiau Tai Môn, 2019

LSOA	Canolrif Incwm Aelwydydd	Canolrif Pris Tai	Cymhareb	Bwlch
1. Aberffraw & Rhosneigr 1	£27,278	£237,500	8.7	£142,027
2. Aberffraw & Rhosneigr 2	£31,596	£229,950	7.3	£119,364
3. Porth Amlwch	£22,672	£114,950	5.1	£35,598
4. Amlwch Wledig	£28,468	£180,000	6.3	£80,362
5. Biwmares	£28,374	£258,000	9.1	£158,691
6. Bodffordd	£30,375	£185,000	6.1	£78,688
7. Bodorgan	£32,651	£203,250	6.2	£88,972
8. Braint	£33,635	£166,500	5.0	£48,778
9. Bryngwran	£26,567	£159,000	6.0	£66,016
10. Brynteg	£28,772	£207,000	7.2	£106,298
11. Cadnant	£28,508	£195,000	6.8	£95,222
12. Cefni	£28,010	£188,500	6.7	£90,465
13. Cwm Cadnant	£37,884	£227,500	6.0	£94,906
14. Cyngar	£26,370	£141,500	5.4	£49,205
15. Gwyngyll	£32,176	£231,000	7.2	£118,384
16. Tref Caergybi	£21,562	£91,250	4.2	£15,783
17. Kingsland	£23,927	£147,500	6.2	£63,756
18. Llanbadrig	£26,038	£191,000	7.3	£99,867
19. Llanbedrgoch	£30,034	£255,000	8.5	£149,881
20. Llanddyfnan	£33,371	£251,975	7.6	£135,177
21. Llaneilian	£29,705	£190,500	6.4	£86,533
22. Llanfaethlu	£29,129	£200,000	6.9	£98,049
23. Llanfair yn neubwll 1	£24,612	£136,250	5.5	£50,108
24. Llanfair yn neubwll 2	£31,802	£90,000	2.8	Dim Bwlch
25. Llanfihangel Ysgeifiog	£29,904	£134,000	4.5	£29,336
26. Llangoed	£29,747	£185,000	6.2	£80,886
27. Llanidan	£29,561	£130,750	4.4	£27,287
28. Llannerchymedd	£26,557	£132,500	5.0	£39,551
29. London Road	£20,996	£95,000	4.5	£21,514
30. Maeshyfyd	£20,212	£114,500	5.7	£43,758
31. Mechell	£28,776	£147,250	5.1	£46,534
32. Moelfre	£28,499	£195,000	6.8	£95,254
33. Morawelon	£16,979	£107,500	6.3	£48,074
34. Parc a'r Mynydd	£26,791	£179,995	6.7	£86,227
35. Pentraeth	£31,911	£170,000	5.3	£58,312
36. Porth y Felin 1	£19,038	£93,750	4.9	£27,117
37. Porth y Felin 2	£25,428	£132,475	5.2	£43,477
38. Rhosyr	£27,549	£162,000	5.9	£65,579
39. Trearddur 1	£35,356	£265,000	7.5	£141,254
40. Trearddur 2	£34,432	£223,867	6.5	£103,355
41. Tudur	£16,271	£111,750	6.9	£54,802
42. Tysilio	£31,055	£200,000	6.4	£91,308
43. Fali 1	£25,031	£175,000	7.0	£87,392
44. Fali 2	£31,950	£230,000	7.2	£118,175

Ffynhonnell: CACI Paycheck 2019; ONS blwyddyn yn darfod Mawrth 2020)

Yn y tabl, defnyddir y lluosydd 3.5 gwaith incwm i amcangyfrif diffiniad o'r hyn a fyddai'n dŷ 'fforddiadwy' o dan yr amgylchiadau lleol. Gwelwn mai Llanfair yn Neubwll yw'r unig ward lle nad yw prisiau canolrif tai allan o gyrraedd yn ôl y llinyn mesur hwn. (Mae'r ffigurau yn y golofn ar y dde, y 'Bwlch', wedi eu cyfrifo trwy dynnu'r incwm canolrif wedi ei luosi â 3.5 allan o'r canolrif pris tai.)

Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn bryder i lawer o gymunedau. Mae prinder cartrefi addas sy'n fforddiadwy i bobl leol wedi'i amlygu yn ystod cyfnod COVID19, gyda thai'n gwerthu'n gyflymach ar y farchnad agored ac am brisiau uwch ledled yr Ynys. Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid darparu blaendal o 15% wrth i fenthycwyr newid eu hagwedd oherwydd pryderon am brisiau tai ac incwm pobl yn ystod y pandemig. Fel y gwelwyd o'r blaen yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad, mae nerfusrwydd benthycwyr yn cymryd amser i gilio.

Mae **Strategaeth Tai Interim CSYM** (drafft 2020-21), yn nodi bod diffyg tai fforddiadwy yn cael effaith ar unigolion a chymunedau. Y cyflog cyfartalog yn Ynys Môn yw £27,280 ac mae tystiolaeth bod cyflogau yng Ngogledd Cymru'r isaf ym Mhrydain. Nodwyd bod cyflogau ym Mharc Gwyddoniaeth M-Sparc yn uwch na'r cyfartaledd yn Ynys Môn a Chymru yn 2020. Ar wahân i gyfraniad y sefydliad yma, ni fu unrhyw newid yn yr incwm canolrif ar yr Ynys.

Mae'r hawl i brynu wedi'i hatal yng Nghymru ers mis Ionawr 2019, gydag Ynys Môn yn cyflwyno'r newidiadau flwyddyn ynghynt o dan y Ddeddf. Er bod hyn wedi gallu atal y gostyngiad yn nifer yr eiddo rhent cymdeithasol, mae'r angen i ddarparu cartrefi mwy fforddiadwy yn parhau. Mae newidiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai yn caniatáu i Awdurdodau Lleol fenthycu i adeiladu cartrefi fforddiadwy sy'n ategu'r gwaith a wnaed eisoes gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy.

Amcangyfrif arall o fforddiadwyedd oddi fewn i'r farchnad dai yw'r gyfran o aelwydydd sydd methu fforddio prynu tŷ lefel-mynediad, sef tŷ â phris chwarterl isaf. Yn yr un modd ac wrth amcangyfrif fforddiadwyedd prisiau canolrif, rhennir y pris chwarterl isaf gyda 3.5 er mwyn cyfrifo'r trothwy incwm aelwyd fyddai ei angen i fforddio tŷ lefel-mynediad. Ystyrir aelwydydd sydd o dan y trothwy hwn yn rhai sydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad'.


Mae'r tabl 56 yn seiliedig ar yr un ffigurau â'r tabl canolrif prisiau tai uchod. Mae'n seiliedig ar wardiau presennol yr ynys, ac mae'n dangos y ffigurau am y tai rhataf ar y farchnad mewn cymhariaeth â'r incymau isaf, yn ogystal â'r ffigurau canolrifol. Mae'r un anghydbwysedd a'r diffyg fforddiadwyedd yn dod i'r amlwg ym mhob un o wardiau newydd, helaethach yr ynys.

Tabl 56. Fforddiadwyedd tai pris canolrif i rai ar incwm canolrifol, a'r tai rhataf i'r rhai sydd ar yr incwm isaf

Enw Ardal	Nifer o werthiannau tai	Pris Canolrif Eiddo	Incwm Canolrif Aelwyd	Cyfradd Canolrif	Pris Chwarter Isaf Eiddo	Incwm Chwarter Isaf Aelwyd	Cyfradd Chwarter Isaf
Aethwy	110	£189,000	£31,633	6.0	£162,250	£18,063	9.0
Bro Aberffraw	59	£155,000	£26,900	5.8	£124,000	£15,599	7.9
Bro Rhosyr	64	£139,625	£30,912	4.5	£114,250	£17,938	6.4
Caergybi	130	£120,000	£21,095	5.7	£81,125	£12,358	6.6
Canolbarth Môn	96	£161,000	£25,322	6.4	£120,000	£14,356	8.4
Lliffon	82	£198,500	£29,616	6.7	£128,500	£17,316	7.4
Lligwy	119	£210,000	£29,599	7.1	£166,500	£17,639	9.4
Seiriol	108	£221,000	£32,504	6.8	£164,750	£18,716	8.8
Talybolion	74	£148,750	£27,562	5.4	£104,750	£15,941	6.6
Twrcelyn	92	£158,750	£26,193	6.1	£109,625	£15,365	7.1
Ynys Gybi	102	£148,500	£25,923	5.7	£102,000	£14,788	6.9
Ynys Môn	1,036	£170,000	£27,445	6.2	£121,875	£15,781	7.7

Ffynhonnell: CACI Paycheck 2019

Mae map 14 wedi'i seilio ar ddata blaenorol a gafodd ei ddehongli yn 2012. Bryd hynny, yn Ynys Môn roedd 68.2% o aelwydydd (21,433 o ran nifer) 'wedi eu prisio allan o'r farchnad'. Mae'r map yn dangos y gyfran o aelwydydd sydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' ymysg wardiau Ynys Môn yn 2012. Gwelir y gyfran isaf o 37.2% yn ward Llanfair-yn-Neubwll tra bod y gyfran uchaf o 79.9% yn ward Llanbedrgoch

Map 14. Canran o aelwydydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' dai, fesul ward, 2012

Ystyriaethau Polisi Cynllunio

Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn sy'n llywodraethu'r prif benderfyniadau cynllunio ym Môn. Mae'r Cynllun hwn, a fabwysiadwyd yn 2017 yn darparu ar gyfer codi 3,817 o anheddau newydd o hynny tan ddiwedd oes yn Cynllun yn 2026.

Mi fydd y broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cychwyn ganol 2021 ac mi fydd sail tystiolaeth ar gyfer y cynllun cyfredol yn cael ei ddiweddararu fel rhan o'r broses adolygu. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y sail tystiolaeth yn rhoddi ystyriaeth i wybodaeth a data cyfredol mewn meysydd penodol, er enghraifft, rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd, newidiadau yn yr economi lleol, ymysg materion eraill. Yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun, fe fydd cyfleoedd i fudiadau iaith fod yn rhan o'r broses yn ystod y cyfnodau ymgynghori statudol.

11. Astudiaethau perthnasol

Arolwg Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol (GECT / PEST)

1. Cyflwyniad cyfannol o fewnbwn partneriaid Fforwm iaith Môn i arolwg Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol a Technolegol (**GECT / PEST**), i ganfod ffactorau sy'n dylanwadu ar y **Gymraeg ym Môn**.

Gwleidyddol 1. Canlyniadau etholiadau Senedd Cymru, llywodraeth leol a Chomisiynydd yr Heddlu. 2. Brexit - ansicrwydd am ei effaith, a gofynion gwaith papur ychwanegol ar fusnesau ag amaeth. 3. Effaith cynnwys etholwyr 16+. 4. Deddfau yn ymwneud ag amddiffyn y Gymraeg e.e. Safonau yn ogystal â Strategaeth 2050. 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnig cyfle o ran dewis ieithyddol yn y sector wirfoddol. 6. Awdurdod Lleol cefnogol tuag at y Gymraeg. 7. Cyfyngderau deddfwriaethol ar bwerau Awdurdodau Lleol yn y maes gosod tai, cynllunio a chyfyngu ar dai haf. 8. Y bwriad o sefydlu Cydbwyllgorau rhanbarthol. 9. Sefydlogrwydd i ddatblygu cynlluniau hirdymor dros y Gymraeg. 10. Dim grym dros ddefnydd yr iaith o fewn y sector wirfoddol.	Economaidd 1. Prisiau tai yn codi o ganlyniad i'r farchnad ail-gartrefi a'r gallu drwy Covid i weithio o bell - gan leihau cyfleoedd pobl leol i fyw yn a chyfrannu at gymunedau Cymraeg. 2. Effaith Covid – ar ffyniant fudiadau Cymraeg, busnesau lleol, hyder trigolion i ddefnyddio cyfleusterau Cymraeg, ar gyflogau a gallu rhieni i dalu ffioedd darpariaeth blyneddoddd cynnar Cymraeg. 3. Effaith Brexit - ar gyllid brosiectau sy'n cynnal y Gymraeg ym Môn, ar y diwydiant Cymreicaf oll - amaeth - yn ogystal ag ar allforion lleol eraill (e.e. bwyd môr) gan gynnwys y tâp coch, a'r effaith ar borthladd Caergybi. 4. Diweithdra, sydd eisoes yn bodoli, yn gwaethygu drwy effaith Covid, Brexit, prisiau tai ayb. 5. Dyfodol grantiau cefnogi'r Gymraeg. 6. Angen strwythurau i archfarchnadoedd werthu bwyd a gynhyrchwyd yn lleol i hybu economi Môn. 7. Prinder swyddi sydd â chyflogau uchel. 8. Sicrhau staff cymwys o ran sgiliau Cymraeg/dwyieithog. 9. Rhai cyflogwyr blaengar yn hyrwyddo'r Gymraeg ac agweddau positif at y Gymraeg. 10. Cyfleoedd a dibyniaeth ar dwristiaeth gyda'r sgil-ffaith ar y Gymraeg. 11. Manteision yr ynys i gynhyrchu ynni gwyrdd gyda photensial swyddi lleol e.e. Morlais. 12. Sefydliadau yn darparu gwasanaeth dwyieithog – heriau ariannu.
Cymdeithasol 1. Lleihad yn y trosglwyddo iaith rhwng riant sy'n siarad Cymraeg a'u plentyn. 2. Effaith byr dymor Covid ar gyfleoedd cymdeithasu pobl o bob oed, cyfleoedd siarad Cymraeg plant o gartrefi di-Gymraeg, ar gynaliadwyedd rhai grwpiau gwirfoddol, gefnogaeth i riant a baban, gwirfoddoli i gymdeithasau, a chyfleoedd trochi Cymraeg cymdeithasol i bobl ifanc.	Technolegol 1. Amlygu gall defnydd o dechnoleg fod yn ddwyieithog. 2. Cyfleoedd a chymhelliant newydd oherwydd Covid i: wella sgiliau ac ehangu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth, annog ffordd newydd o weithio, cynnal cyfarfodydd Cymraeg yn rhithiol, cynnal hyfforddiant Cymraeg ar lein, gynyddu defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg, a chydweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru.

